Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru
ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru

# Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus



*Canllaw ymarferol i bolisi ac ymarfer da yr eglwysi wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, ac oedolion bregus*

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

2022

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru

# Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus

*Canllaw ymarferol i bolisi ac ymarfer da yr eglwysi wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, ac oedolion bregus*

Panel Diogelu Cydenwadol

Interdenominational Safeguarding Panel

Wedi'i gynhyrchu gan **Fineline Print and Web**, The Eagles, 32 Clwyd St, Ruthin LL15 1HW
01824 705800

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad a Datganiad o Fwriad**
Rhagair
1.1 Beth yw diogelu?
1.2 Ynglŷn â'r llawlyfr hwn
1.3 Rôl y panel a'r tri enwad
1.4 Datganiad o fwriad
1.5 Datganiad polisi diogelu'r eglwys unigol

**2. Recriwtio a Dethol Mwy Diogel**
Cyflwyniad
2.1 Proses recriwtio mwy diogel
2.2 Beth yw datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)?
2.3 Beth yw gweithgaredd a reoleiddir a gweithgaredd nas rheoleiddir?
2.4 Cymhwysedd ar gyfer DBS
Siart 2: gweithio gyda phant
Siart 3: gweithio gydag oedolion
2.5 Enghreifftiau o swyddogaethau
2.6 Proses gwneud cais am ddatgeliad i'r DBS
2.7 Datgeliadau aneglur

**3. Plant a Phobl Ifanc**
Cyflwyniad
3.1 Arfer da wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc
3.2 Amddiffyn Plant
3.3 Canllawiau ar gyfer gweithgareddau ac amgylchiadau penodol

**4. Oedolion Bregus**
Cyflwyniad
4.1 Arfer da wrth weithio gydag oedolion bregus
4.2 Amddiffyn oedolion bregus

**5. Gofal Bugeiliol**
5.1 Cefnogaeth i bobl a gafodd eu cam-drin yn y gorffennol
5.2 Cefnogaeth i'r rheini a effeithir gan honiadau o gam-drin a datgeliadau
5.3 Arfer da wrth ymdrin â phobl sy'n droseddwyr neu'n gamdrinwyr hysbys
5.4 Triniaeth i droseddwyr a ffynonellau cymorth

**6. Atodiadau**
1 Ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth ychwanegol
2a Còd ymarfer diogelu
2 Canllawiau ac arferion gweithio diogel
3 Deddfwriaeth berthnasol
4 Cynnal asesiad risg
5 Datganiad polisi: cadw, gwaredu ac ymdrin yn ddiogel â datgeliadau a gwybodaeth am ddatgeliadau
6 Datganiad polisi: recriwtio cyn-droseddwyr
7 Ymddiriedolwyr elusen a diogelu
8 Defnyddio a rhannu delweddau o blant: polisi enghreifftiol
9 Diffiniadau ychwanegol
10 Yr Eglwys Fwy Diogel - Rhestr wirio diogelu

**7. Ffurflenni**
Rheoliad cyffredinol ar ddiogelu data (GDPR) y DU a ffurflenni'r panel
1. Ffurflen gais gwirfoddolwyr
2. Ffurflen hunan-ddatganiad
3 Rhestr wirio ar gyfer penodi
4. Llythyr a ffurflen geirda
5. Gwybodaeth gyffredinol a ffurflen ganiatâd dan 11
6. Gwybodaeth gyffredinol a ffurflen ganiatâd dros 11
7. Ffurflen ganiatâd - gweithgaredd arbennig
8. Ffurflen ganiatâd - tynnu lluniau
9. Ffurflen damwain neu ddigwyddiad
10. Ffurflen asesiad risg
11. Ffurflen nodi pryder

# Rhagair

Mae gennym fel panel le i ddiolch yn ddiffuant iawn i eglwysi'r tri enwad ledled Cymru am eu cefnogaeth a'u hymroddiad i waith diogelu. Hyd yn oed trwy gydol y cyfnod clo, cawsom gyfle i gynnal sesiynau hyfforddi gyda gwahanol eglwysi ac arweinyddion, a chyfeiriwyd sawl achos at ein Swyddog Diogelu. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr fod cynifer o eglwysi'n ystyried diogelu fel mater i'w gymryd o ddifri, ac mae'r defnydd a wneir o'r wefan a'i hamrywiol adnoddau yn destun balchder. Ar nodyn diolchgar y cyflwynir y rhagarweiniad hwn i'ch sylw, a mawr hyderwn y bydd y bartneriaeth yn parhau i ffynnu dros y cyfnod nesaf.

Roedd y flwyddyn 2021 yn drobwynt yn hanes diogelu grwpiau bregus o fewn ein sefydliadau crefyddol. Dyna pryd y cyhoeddwyd adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol Mewn Sefydliadau Crefyddol, ac roedd y canfyddiadau'n ysgytwol a dweud y lleiaf. Daeth yr Ymchwiliad, dan gadeiryddiaeth yr Athro Alexis Jay, i'r casgliad bod llawer gormod o sefydliadau crefyddol yn gyndyn o weithredu mewn achosion lle mae plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol. Mewn nifer o enghreifftiau, ceisio amddiffyn enw da'r sefydliad yw'r rheswm am fethu mynd â'r mater ymhellach, a hynny'n codi o ddiwylliant o feio'r dioddefwr neu wrthod derbyn y gall arweinyddion eglwysig dramgwyddo.

Mae'r adroddiad yn amcangyfrif bod tua 250,000 o blant yng Nghymru a Lloegr yn derbyn addysg grefyddol ychwanegol yn rheolaidd o fewn y cymunedau ffydd. Eto, does gan nifer o'r cymunedau hynny ddim unrhyw fath o bolisi amddiffyn, a does dim manylion ar gael ynghylch nifer y plant sy'n mynychu'r dosbarthiadau na phwy sy'n gyfrifol amdanyn nhw.

Rydym yn hoffi meddwl bod sefydliadau crefyddol yn rhoi blaenoriaeth i addysgu gwerthoedd moesol ac amddiffyn y diniwed a'r bregus. Dyna hanfod eu cenhadaeth. Ond fel hyn y dywed yr Athro Alexis Jay: "Pan glywsom am fethiannau syfrdanol i atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol ar draws bron pob un o'r prif grefyddau, daeth yn amlwg bod llawer yn gweithredu'n gwbl groes i'r genhadaeth hon."

Mae ei geiriau'n syfrdanol, ac fe ddylai'r neges fod yn rhybudd eglur i bob enwad a phob crefydd nad oes gennym le i laesu dwylo. Rydym yn ddiolchgar i ymdrechion swyddogion y tri enwad a fu'n cynnal y Panel Diogelu Cydenwadol dros y blynyddoedd am sicrhau bod gennym bolisïau effeithiol yn eu lle, a bod y gwaith hyfforddi'n mynd rhagddo o nerth i nerth. Bydd staff y panel yn cynnig arweiniad cadarn pan fo'r angen yn codi ac yn ymateb yn effeithiol a chyflym i unrhyw newidiadau a datblygiadau yn y maes.

Mae'r byd wedi newid ers sefydlu'r panel yn y lle cyntaf, a gyda chyhoeddi'r adroddiad ar gam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau crefyddol, does dim esgus dros beidio atgyfnerthu ein polisïau a'n gweithdrefnau a rhoi blaenoriaeth uchel i faterion diogelu ymhob eglwys. Gyda hynny mewn golwg, rydym wedi diweddaru'r llawlyfr ac wedi ymestyn y rhaglen hyfforddi. Mae'n fwriad i gynnal Sul Diogelu ledled ein heglwysi yn ystod yr hydref a chynhyrchwyd deunydd defosiynol ar gyfer hynny, yn ogystal â fideo newydd i godi proffil. Y gobaith yw y bydd pob eglwys o fewn Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ymrwymo o'r newydd i roi lle blaenllaw i ddiogelu.

Credwn fod diogelu'n golygu llawer mwy na chwblhau gwiriadau DBS a dilyn gweithdrefnau. Mae'n ymwneud â'r hyn sy'n ganolog i'r efengyl, wrth i ni greu'r amodau priodol lle y gall pawb fwynhau bywyd yn ei holl gyflawnder yng ngoleuni'r cariad diamod a ddatgelwyd ym mywyd Iesu Grist.

Mae'n braf meddwl y bydd y geiriau hyn yn syrthio ar dir ffrwythlon, gan fod yr ewyllys da o du'r eglwysi tuag at waith y panel yn destun llawenydd bob amser. Diolchwn i chi am hynawsedd a'ch parodrwydd i wneud diogelu yn rhan mor ganolog o waith eich eglwys. Diolchwn hefyd i Julie Edwards a Sian Jones am eu llafur diwyd a diflino yn rheoli a gweinyddu gwaith y panel o ddydd i ddydd, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad disglair Julie a fu'n gyfrifol am y diweddariad hwn o'r llawlyfr.

**Emlyn Davies,**
**Cadeirydd, Panel Diogelu Cydenwadol**
**Awst 2022**

# 1. Cyflwyniad

# Adran 1:
## Cyflwyniad a Datganiad o Fwriad

### 1.1 Beth yw diogelu?

Mae diogelu'n fater i bob un ohonom ni ac mae gan bawb ran yn y gwaith.

Erbyn hyn mae'r term 'diogelu' yn un eithaf cyfarwydd i ni i gyd. Mae pawb yn cydnabod bod gan eglwysi gyfrifoldeb diogelu ac angen polisi diogelu sy'n sail i'w gwaith gyda grwpiau bregus. Rydym yn gwneud hyn i gydymffurfio â gofynion y Comisiwn Elusennau a chwmnïau yswiriant, ond mae gennym ni, fel eglwysi Cristnogol, gymhelliad ychwanegol i sicrhau ansawdd y diogelu. Rydym yn ceisio adlewyrchu cymeriad a gorchmynion Iesu i ofalu am y gwan (Iago 1:27) a chodi llais dros y rhai sy heb lais (Diarhebion 31:8). Rydym am wneud hyn hyd eithaf ein gallu a gweithredu mewn modd rhagorol gyda'r plant a'r bobl fregus y mae Duw wedi ymddiried i'n gofal.

Felly, beth yn union yw diogelu?
Mae diogelu'n golygu AMDDIFFYN pobl fregus rhag niwed a rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae'n golygu ADNABOD arwyddion a nodweddion camdriniaeth ac YMATEB mewn modd briodol. Mae diogelu yn ATALIOL yn ogystal ag yn AMDDIFFYNNOL - hynny yw, does dim gofyn bod camdriniaeth wedi digwydd cyn gallu gweithredu yn ei gylch. Mae ystyried pwy allai fod AGORED I NIWED yn bwysig er mwyn gallu gweithredu i'w cadw rhag niwed[1] . Mae diogelu hefyd yn golygu DARPARU GWEITHGAREDDAU DIOGEL a hynny ynghyd â'r gofal priodol.

Felly, byddai eglwys sy'n gweithredu arfer diogelu da yn gallu dangos ei fod:

- yn gweithredu trefn recriwtio mwy diogel ar gyfer ei gweithwyr a'i gwirfoddolwyr
- yn dilyn arfer da ymhob agwedd o'i gweithredu
- yn hyfforddi ac yn cefnogi ei gweithwyr fel eu bod yn gwybod sut i adnabod arwyddion camdriniaeth a sut i ymateb i bryderon.

Mae'r llawlyfr hwn, gwefan y panel a swyddogion y Panel Diogelu Cydenwadol yma i'ch helpu yn hyn o beth.

Mae'n galondid gallu dweud, ers cyhoeddi'r Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus gwreiddiol yn 2014, bod miloedd o bobl o'n heglwysi drwy Gymru a thu hwnt wedi derbyn a darllen y llawlyfr ac wedi mynychu hyfforddiant diogelu. Mae llawer ohonoch wedi gweithio'n galed i wneud eich eglwysi'n llefydd mwy diogel i bobl fregus a phawb yn gyffredinol, a llawer ohonoch wedi ymateb i bryderon a cheisio cyngor. Ond mae bob amser mwy y gellir ei wneud...

### 1.2 Ynglŷn â llawlyfr hwn (2022)

Mae'r canllawiau a'r cyngor yn y llawlyfr hon yn sail i bolisi mabwysiedig Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar gyfer gweithio gyda grwpiau bregus. Y nod yw cynnig arweiniad clir ac ymarferol i'r rheini sy'n gweithio, gwirfoddoli neu sy'n gyfrifol am weithgareddau gyda grwpiau bregus yn lleol.

[1] Mae pwysigrwydd ystyried pwy all fod yn agored i niwed a chymryd camau i'w hamddiffyn yn cael ei bwysleisio mewn darn allweddol o ddeddfwriaeth Gymreig – Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a ddaeth i rym yn 2016.

Mae llawer o'r ddogfen hon heb ei newid gan nad yw'r egwyddorion sylfaenol fu'n sail i'r Llawlyfr newydd yn 2014 wedi newid. Rydym, serch hynny, yn falch o allu cyflwyno rhai diweddariadau ac ychwanegiadau newydd sydd wedi eu manylu isod fesul adran. Ein gobaith yw y byddant yn gymorth i chi weithredu'r polisi yn ei lawnder wrth i chi weithio gyda phlant a phobl fregus eich bro.

O hyn ymlaen bydd y diweddariadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y panel **https://panel.cymru** gan bod hynny'n ffordd mwy effeithlon ac effeithiol i gyflwyno'r wybodaeth a'r diweddariadau i chi'n brydlon. Awgrymwn eich bod yn ymweld â'r wefan yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf, y ffurflenni cywir ac ati.

Wrth i chi ychwanegu'r diweddariadau hyn i'ch ffeil, hoffwn eich gwahodd i ailddarllen y ddogfen yn ei chyfanrwydd a chymryd y cyfle i ystyried ac asesu eich prosesau ac arfer diogelu lleol. Ystyriwch weithio drwy'r rhestr wirio hunan-asesu newydd yn atodiad 10 i weld sut rydych chi'n gwneud.

**Adran 1** wedi ei ddiweddaru felly mae angen cyfnewid y cwbl o'r hen Adran 1 am yr un newydd. Mae'n cynnwys datganiad polisi diogelu'r eglwys unigol newydd a phwysig. Roedd y datganiad polisi diogelu blaenorol i'w gael ar ddechrau adrannau 3 a 4 ond bellach mae dogfen ar wahân wedi ei ddarparu i chi ei ddefnyddio a'i arddangos. Amcan y datganiad polisi yw eich helpu i ddangos yn eglur eich ymrwymiad fel eglwys i ddiogelu grwpiau bregus. Rydym yn argymell yn gryf i chi benodi cydlynydd diogelu i hwyluso gweithrediad y polisi diogelu yn lleol. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â hyn a swyddogaethau diogelu eraill i'w cael yn adran nodiadau'r ddogfen polisi newydd. Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn adran polisïau ar wefan y panel.

Nid yw'r datganiad o fwriad wedi newid ond mae côd ymddygiad newydd wedi ei greu yn seiliedig ar y datganiad hwn.

Mae **Adran 2** wedi ei hail-lunio. Mae'n cynnig cyfarwyddid cam wrth gam ynglŷn â'r proses recriwtio cymeradwy y dylai sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau bregus ei weithredu wrth ddewis a phenodi gweithwyr a gwirfoddolwyr. Amcan y proses yw gwneud yn siŵr bod pob cam rhesymol wedi ei gymryd i sicrhau bod gofal ein grwpiau bregus yn nwylo pobl ddiogel ac addas. Mae ffurflenni a rhestrau gwirio i'w cael yn **Adran 7** i'ch arwain drwy'r proses recriwtio.
Mae'r adran hefyd yn cynnwys siartiau llif newydd i'ch helpu i ddeall pwy sydd angen gwneud Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS). Fydden ni byth yn honni bod y proses DBS yn un hawdd ei ddeall, ond yn gobeithio y bydd y siartiau yn dod â rhywfaint o eglurder ychwanegol. Mae ein polisi o gynnal gwiriad newydd bob 4 blynedd yn dal mewn bod. Rydym yn gofyn bod pob eglwys yn cadw cofnod o'u gwirfoddolwyr ac o'u statws DBS, er mwyn sicrhau bod yr ailwirio'n digwydd pryd y dylai.

Does dim newid i **Adran 3**. Yno fe gewch ganllawiau arfer da ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac mae **Adran 7** yn cynnwys y ffurflenni caniatâd fydd yn eich helpu i weithredu'r canllawiau. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch amddiffyn plant a sut i ymateb os ydych yn amau neu'n cael gwybod am gam-drin, esgeulustod neu niwed.

Does dim newid i **Adran 4**. Fe gewch ganllawiau arfer da ynglŷn â gweithio gydag oedolion, ynghyd â gwybodaeth ynghylch amddiffyn oedolion bregus a sut i ymateb os byddwch yn amau neu'n dod i wybod am achos o gamdriniaeth esgeulustod neu niwed.

Does dim newid ychwaith i **Adran 5**. Mae'r adran hon yn edrych ar ddulliau o gefnogi'r rheini sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin ac yn cynnwys gwybodaeth a manylion cyswllt defnyddiol. Mi fydd y manylion cyswllt yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen ar ein gwefan.

Mae **Adran 6 - Atodiadau** - yn cynnwys sawl ychwanegiad pwysig:
Mae angen ychwanegu'r atodiadau newydd i'r adran bresennol gan gadw atodiadau **2, 5 a 6.**

**Atodiad 1:** mae'r adran **cysylltiadau a gwybodaeth ychwanegol** wedi ei diweddaru. Yn ogystal mae rhestr o gysylltiadau fwy cynhwysfawr i'w cael ar dudalen **cyngor a chefnogaeth** ein gwefan.
**Atodiad 2a:** yno fe gewch **y côd ymddygiad newydd** a seiliwyd ar y datganiad o fwriad. Mae'r côd yn amlinellu'r prif gyfrifoldebau ac arfer da sy'n berthnasol i'r rhai hynny sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli gyda grwpiau bregus.
**Atodiad 3:** yno fe gewch restr **deddfwriaeth berthnasol** wedi'i diweddaru.
**Atodiad 4:** canllaw wedi ei ddiweddaru ynglŷn â sut i gynnal **asesiad risg.**
**Atodiad 7:** atodiad newydd yn amlinellu **cyfrifoldebau diogelu ymddiriedolwyr elusen.**
**Atodiad 8:** ychwanegiad newydd yn seiliedig ar adnodd NSPCC gydag arweiniad ar **ddefnyddio a rhannu delweddau o blant a pholisi enghreifftiol.**
**Atodiad 9:** mae hwn yn cynnwys **diffiniadau ychwanegol.** Mae prif gategorïau camdriniaeth wedi eu nodi yn adrannau 3 a 4 ond mae yna ddiffiniadau newydd a phenodol yn cael eu defnyddio yn rheolaidd hefyd erbyn hyn.
**Atodiad 10: rhestr wirio i'ch helpu i asesu** sefyllfa diogelu eich eglwys.

**Adran 7** Dyma adran ffurflenni'r Llawlyfr. Mae taflen ychwanegol wedi ei pharatoi'n esbonio effaith GDPR (DU) ar y ffurflenni, ac mae angen gosod y daflen hon ar ddechrau **adran 7**. Dydi'r ffurflenni sydd yng nghopi papur y llawlyfr ddim wedi eu diwygio, ond maent i gyd ar gael ar y wefan ar ffurf dogfen Word er mwyn i chi allu eu haddasu'n unol â'ch gofynion a'ch gweithgareddau eich hunain.

## 1.3 Rôl y panel a'r tri enwad

Sefydlwyd y panel yn 2001 i wasanaethu a darparu cyngor i Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar faterion diogelu mewn perthynas â'u gwaith gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus. Daeth y panel yn gwmni cyfyngedig trwy warant yn 2009 ac mae ei gyfarwyddwyr yn cynnwys yr ysgrifenyddion cyffredinol o'r "tri enwad" gyda swydd y cadeirydd yn cylchdroi rhwng y tri enwad. Yn 2022 newidiwyd ein henw o'r Panel Diogelwch Cydenwadol i'r Panel Diogelu Cydenwadol a mabwysiadwyd enw parth newydd sef: panel.cymru

Sefydliad bychan yw'r panel sy'n gweithio'n unswydd i'r tri enwad. Mae'n cyflogi swyddog diogelu a hyfforddi a swyddog gweinyddol. Swyddog diogelu'r panel yw'r swyddog diogelu arweiniol ar gyfer y tri enwad.

Mae'r panel yn darparu hyfforddiant diogelu i weinidogion, staff a gwirfoddolwyr yr enwadau yn ogystal â gwybodaeth a chanllawiau a pholisi diogelu.

Fel corff cofrestredig gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) mae'r panel yn prosesu gwiriadau DBS ar gyfer gweinidogion, gweithwyr a gwirfoddolwyr o fewn y tri enwad. Yn 2008 ehangodd i ddod yn 'gorff cysgodol' sy'n ei alluogi i ddarparu gwiriadau datgelu ar gyfer sefydliadau ac asiantaethau allanol.

Mae swyddogion a chyfarwyddwyr y panel yn cwrdd yn rheolaidd i reoli a goruchwylio gwaith y panel ac mae panel ehangach, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri enwad, yn cyfarfod o leiaf yn flynyddol. Rydym hefyd yn hwyluso yn ôl yr angen , cyfarfodydd panel bach cyfrinachol i wneud penderfyniadau a chynghori ar achosion a datgeliadau aneglur. Mae'r cyfarfodydd hyn fel arfer yn cynnwys cynrychiolwyr o'r panel neu unigolion annibynnol a enwebwyd oherwydd eu harbenigedd, eu diddordeb neu gefndir proffesiynol. Mae aelodau'r panel yn cadw at gôd cyfrinachedd llym.

## 1.4 Datganiad o Fwriad

1. Mae'n ddyletswydd ar aelodau o'r gymuned eglwysig  i sicrhau diogelwch plant ac oedolion bregus ym mhob gweithgaredd.

2. Mae'r eglwys yn ymrwymo i weithredu ei pholisi a'i gweithdrefnau ynghylch amddiffyn plant  ac oedolion bregus.

3. Mae'r eglwys yn ymrwymo i gydymffurfio â gofynion statudol ynghylch dewis a phenodi unigolion i wneud gwaith cyflogedig neu wirfoddol.

4. Mae'r eglwys yn ymrwymo i ddarparu system lle bydd y rheini sy'n gofalu am blant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn derbyn hyfforddiant a chymorth.

5. Mae'r eglwys yn ymrwymo i adnabod sefyllfaoedd lle gallai plant a phobl ifanc ac oedolion bregus gael eu niweidio yn ystod gweithgareddau'r eglwys.

6. Mae'r eglwys yn ymrwymo i herio unrhyw gamddefnydd o awdurdod gan unigolyn.

7. Mae'r eglwys yn ymrwymo i wrando ar blant ac oedolion bregus ac ymateb yn sensitif ac yn unol â'i pholisi a chanllawiau.

8. Mae'r eglwys yn ymrwymo i ymateb ar unwaith pan dynnir ei sylw at amheuaeth o gam-drin, ac i gydweithredu â'r awdurdod lleol neu'r heddlu os bydd ymchwiliad i'r mater. Hefyd, mae'n ymrwymo i rannu gwybodaeth yn gyfrifol er mwyn hwyluso ymchwiliad effeithiol.

9. Mae'r eglwys yn ymrwymo i roi gofal bugeiliol i'r rheini sy'n cael eu cam-drin neu eu cyfeirio at ofal bugeiliol.

10. Mae'r eglwys yn ymrwymo i roi gofal bugeiliol i droseddwyr neu bobl a amheuir o fod yn droseddwyr, neu eu cyfeirio at ofal bugeiliol.

11. Mae'r eglwys yn ymrwymo i weithio gyda swyddog diogelu a hyfforddiant y panel, a/neu ysgrifenyddion cyffredinol y tri enwad, a fydd yn rhoi cyngor ac arweiniad i eglwysi lleol ynghylch diogelu ac amddiffyn plant. Bydd yr eglwys yn cydweithredu â'r rheini sy'n cael y dasg o ymateb i achosion sy'n destun pryder a chasglu gwybodaeth yn eu cylch, o fewn y tri enwad.

12. Mae'r eglwys yn ymrwymo i gefnogi ac annog rhieni a gofalwyr wrth iddynt ofalu am eu plant.

## 1.5 Datganiad Polisi Diogelu'r Eglwys Unigol

Dangoswch y datganiad polisi canlynol yn eich eglwys.
Gallwch hefyd lawrlwytho copi electronig o'r ddogfen o'n gwefan.

---

[2] Mae'r term 'eglwys' yn cynnwys y fframweithiau enwadol canolog ac eglwysi lleol

# Ein Datganiad Polisi ar Ddiogelu

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

Fel arweinwyr ac ymddiriedolwyr eglwys ______________________________ rydym yn llwyr ymroddedig i ddiogelu lles ein haelodau a'r rhai a ymddiriedwyd i'n gofal. Mae'r datganiad polisi hwn, ynghyd â'r canllawiau a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus yn ffurfio ein polisi a'n dulliau gweithredu.

Rydym yn cydnabod y gall plant, pobl ifanc ac oedolion fod yn destun camdriniaeth ac esgeulustod; rydym felly'n cydnabod ei fod yn ddyletswydd arnom ni i sicrhau eu diogelwch yn y gweithgareddau a gynhelir yn enw'r eglwys hon. Ein amcan yw darparu amgylchedd gofalgar a byddwn yn ymateb yn sensitif ac yn ddi-oed i unrhyw bryderon. Bydd aelodau'r eglwys, staff cyflogedig a'r gwirfoddolwyr yn barchus o bawb yn y lle hwn, yn hyrwyddo ethos o wrando ar blant a phobl bregus, a bydd eu hymddygiad yn adlewyrchu egwyddorion yr Eglwys Gristnogol.

Bydd yr eglwys yn gofalu am blant, pobl ifanc ac oedolion bregus, ac yn eu diogelu drwy weithredu'n unol â'r ymarfer da canlynol:

- **Ymateb priodol i bryderon a honiadau.** (Adrannau 3.2 a 4.2 o'r Llawlyfr) Rydym yn ymrwymo, yn unol â'n polisi a chanllawiau, i ymateb yn ddi-oed pan fydd camdriniaeth yn cael ei amau neu unrhyw bryderon neu honiadau eraill yn cael eu dwyn i'n sylw. Os yw'r Awdurdod Lleol neu'r Heddlu'n cynnal ymchwiliad byddwn yn cydweithio â nhw.
- **Proses recriwtio mwy diogel ar gyfer ein gweithwyr a'n gwirfoddolwyr.** (Adran 2 o'r Llawlyfr) Bydd yn cynnwys gwiriadau DBS pob 4 blynedd ar gyfer pob gweithiwr, arweinydd ac ymddiriedolwr perthnasol.
- **Hyfforddi a chefnogi ein gweithwyr a'n gwirfoddolwyr.**Hyn er mwyn eu cynorthwyo â'u gwaith ac i sicrhau diogelwch y plant a'r bobl bregus fydd yn eu gofal.
- **Hyrwyddo arfer da.** (Adrannau 3.1 a 4.1 o'r Llawlyfr) Hyn i sicrhau amgylchedd ddiogel.

**Ein cyfrifoldeb**

Rydym yn cytuno bod diogelu'n gyfrifoldeb i bawb a bod yn rhaid i bawb ohonom adrodd yn ddi-oed ynghylch unrhyw bryderon diogelu i'r Panel Diogelu Cydenwadol, i'r cydlynydd diogelu lleol neu, mewn argyfwng, i'r awdurdodau statudol. Mae'n gyfrifoldeb ar ymddiriedolwyr/ diaconiaid/ blaenoriaid* yr eglwys hon i sicrhau gweithredu'r polisi diogelu a'r arfer da cysylltiedig, a byddant yn cydweithio â'r Panel Diogelu Cydenwadol ar faterion diogelu.

**EIN POBL CYSWLLT DIOGELU**

**Rydym wedi enwebu'r bobl canlynol i fod yn bobl cyswllt diogelu:-**

**EIN CYDLYNYDD DIOGELU:** ______________________________ (Enw)

Manylion cyswllt ______________________________

**DIACON/BLAENOR/YMDDIRIEDOLWR DIOGELU:** ______________________________ (Enw)

Manylion cyswllt ______________________________

Dyddiedig ______________________________

**Swyddog diogelu enwadol:** (Y Panel Diogelu Cydenwadol) JULIE EDWARDS
Manylion cyswllt: post@panel.cymru 01745 817584

## NODIADAU AR Y DATGANIAD POLISI DIOGELU HWN

Bwriad y datganiad polisi eglwys unigol hwn yw datgan yn glir eich ymrwymiad fel eglwys i ddiogelu pobl fregus. Mae hyn yn unol â ymarfer da ac yn ofynnol gan lawer o gwmnïau yswiriant.

Mae'r datganiad polisi diogelu hwn a'r canllawiau a'r gweithdrefnau sydd i'w cael yn y **Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus** (gweler ôl-nodyn 1) - ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau pellach – yn ffurfio eich polisi a gweithdrefnau diogelu.

Maen nhw wedi eu mabwysiadu gan holl eglwysi Eglwys Bresbyteraidd Cymru a holl eglwysi sy'n aelodau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb y Bedyddwyr Cymru (y 3 enwad) - ac eithrio'r eglwysi hynny a hysbysodd eu henwad yn ffurfiol o drefniadau eraill a fabwysiadwyd ganddynt yn sgîl trefniant ecwmenaidd lleol neu drefniant rhyngenwadol arall.

**Gweithredu eich polisi**

- Mae copi o'r datganiad polisi diogelu hwn (tudalen 1 i'w arddangos yn barhaol yn adeilad yr eglwys ac i'w ddiweddaru pan fydd y manylion cyswllt perthnasol yn newid.
- Mae'n rhaid darllen y datganiad polisi (tudalen 1) yn flynyddol mewn cyfarfod o'r eglwys neu yn ei chyfarfod blynyddol.
- Mae diogelu'n fater i bawb ond mae cyfrifoldeb ychwanegol ar arweinwyr yr eglwys (ymddiriedolwyr, diaconiaid, blaenoriaid, gweinidogion) i sicrhau gweithredu'r polisi. Fe'ch cynghorir i benodi cydlynydd diogelu lleol. Gweler 'Swyddogaethau a Chyfrifoldebau', isod.
- Dylid sicrhau bod copi llawn o'r dogfennau polisi a gweithdrefnau ar gael i bawb sy'n gweithio, yn gyflogedig neu'n wirfoddol, â phlant neu oedolion, a'u bod yn llofnodi i gadarnhau y byddan nhw'n cydymffurfio â'r gofynion. (Gweler ein cod ymddygiad diogelu: atodiad 2a). Fe ddylai'r gweithwyr hyn mynychu sesiynau hyfforddiant i wneud yn siŵr eu bod yn gyfarwydd â'r polisi ac yn deall beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon ynghylch sefyllfa neu unigolyn.
- Mae copi o'r polisi a'r gweithdrefnau i'w gweld yn Y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus ac ar gael ymhob eglwys. Maent hefyd i'w cael ar wefan y panel: panel.cymru

**Swyddogaethau a chyfrifoldebau**

Er mwyn hwyluso gweithrediad effeithiol y polisi diogelu fe argymhellir yn gryf apwyntio cydlynydd diogelu i bob eglwys. (Gall eglwys apwyntio ymddiriedolwr diogelu ychwanegol pe dymunent.) Gweler nodyn 2 ar y tudalen nesaf am fanylion eu swyddogaethau a chyfrifoldebau.

Disgwylir i bob eglwys hysbysu swyddfa'r panel diogelu o enw a manylion cyswllt y cydlynydd diogelu ond os na wneir, bydd swyddfa'r panel yn cymryd mai ysgrifennydd yr eglwys yw'r cyswllt diogelu ac yn anfon pob ymholiad a gohebiaeth DBS at yr ysgrifennydd.

Bydd y swyddogion diogelu lleol hyn yn cydweithio'n agos â swyddogion y Panel Diogelu Cydenwadol i sicrhau bod gwiriadau DBS yn cael eu cynnal mewn da bryd. Y nhw hefyd fydd y bobl gyswllt os oes unrhyw gwestiynau neu bryderon yn ymwneud â diogelu.

**NODER:**
**Nid lle y cydlynydd diogelu lleol na'r ymddiriedolwr diogelu lleol yw gwneud benderfyniadau ynglŷn â digwyddiad neu ddatgeliad diogelu.**
**Dylent gysylltu â swyddog diogelu y Panel Diogelu Cydenwadol.**

# Ôl-nodiadau

1. **Y LLAWLYFR DIOGELU GRWPIAU BREGUS:** Ffeil sy'n cynnwys canllawiau arfer diogelu. Dylai bod copi gan bob eglwys ac mae copi ar lein at panel.cymru/cy/llawlyfr-diogelu-grwpiau Mae mwy o wybodaeth ynghylch y Panel Diogelu Cydenwadol a chyngor a gwybodaeth diogelu ar wefan y panel panel.cymru neu drwy gysylltu â swyddfa'r panel (gweler 2 isod).

2. **SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU DIOGELU:** Anfonwch enw, swyddogaeth a manylion cyswllt y **CYDLYNYDD DIOGELU** eich eglwys drwy e-bost at post@panel.cymru neu ffoniwch 01745 817584. Os na fydd y panel yn derbyn y manylion hyn mi fydd yn parhau i gysylltu ag ysgrifennydd neu weinidog yr eglwys ynghylch materion diogelu/DBS Mae'r term **CYSWLLT DIOGELU** yn cynnwys y ddwy rôl A a B

**A. Y CYDLYNYDD DIOGELU**

1. Sicrhau bod gwiriad DBS diweddar (pob 4 blynedd) a hyfforddiant ar gyfer pobl berthnasol a chymwys sy'n gweithio â phlant ac oedolion bregus. Cadw cofnod o bob gweithiwr gwirfoddol yn cynnwys dyddiadau eu gwiriadau DBS a sicrhau bod adnewyddu'r gwiriadau yn digwydd mewn da bryd. Cysylltu â swyddfa'r panel ynghylch materion DBS a derbyn hysbysiadau ynghylch gwiriadau DBS pan fyddant wedi eu cwblhau.
2. Sicrhau bod swyddog diogelu'r panel yn cael ei hysbysu'n ddi-oed o bob pryder neu honiad yn ymwneud â diogelu. Cysylltu â chydweithio gyda swyddog diogelu'r panel pan fydd pryderon neu broblemau cysylltiedig â diogelu yn codi yn yr eglwys.
3. Mewn argyfwng cysylltu'n uniongyrchol â'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol i'w hysbysu ynghylch yr honiadau neu bryderon.
4. Cysylltu â chydweithio gydag asiantaethau allanol lle bo angen.
5. Sicrhau bod trefn a monitro lleol ar unrhyw gytundeb neu asesiad risg cysylltiedig ag unigolyn neu bobl allai fod yn risg i eraill. Cadw mewn cysylltiad â swyddog diogelu'r panel.
6. Adrodd i'r cyfarfodydd eglwys ar faterion diogelu mewn modd cyffredinol sy'n codi ymwybyddiaeth heb gyfaddawdu cyfrinachedd.

**B. YR YMDDIRIEDOLWR/BLAENOR/DIACON DIOGELU**
(**Pe na bai eglwys yn penodi rhywun i'r swydd hon gall rhifau 1 a 2 fod yn rhan o waith y Cydlynydd Diogelu a rhifau 3 a 4 fod yn rhan o waith yr Ymddiriedolwyr/ Diaconiaid/ Blaenoriaid yr Eglwys Leol**)

1. Sicrhau bod yr holl fesurau diogelu angenrheidiol yn eu lle (yn cynnwys y polisi, gweithdrefnau, hyfforddiant, trefniadau recriwtio diogel, ayb.).
2. Arwain ar ran yr ymddiriedolwyr/diaconiaid/blaenoriaid ar faterion diogelu.
3. Cysylltu'n rheolaidd â'r cydlynydd diogelu a sicrhau bod diogelu ar agenda'r cyfarfodydd eglwys.
4. Sicrhau bod y polisi diogelu yn berthnasol ac yn cael ei ddiweddaru. Adolygu a diweddaru'r polisi'n flynyddol, os oes angen.

**C. POB YMDDIRIEDOLWR/DIACON/BLAENOR YN YR EGLWYS LEOL**

1. Dyletswydd gofal a chyfrifoldeb i sicrhau bod yr eglwys yn cael ei rhedeg yn ddiogel ac yn effeithiol gan gynnwys diogelu grwpiau bregus.
2. Hyrwyddo a hwyluso diwylliant o arfer da diogelu ym mywyd yr eglwys.
3. Cefnogi a chynorthwyo'r bobl gyswllt diogelu.

**D. Y GWEINIDOG**

1. Gwirio ffurflenni DBS (gall swyddogion eraill yr eglwys wneud hyn gyda chymeradwyaeth y panel).
2. Cefnogi a chynorthwyo pobl gyswllt diogelu'r eglwys, a dirprwyo os cânt eu cysylltu â honiad.
3. Hyrwyddo a hwyluso diwylliant o arfer da ymhob agwedd o fywyd yr eglwys.

**E. SWYDDOG DIOGELU'R PANEL**

1. Swyddog diogelu'r enwad.
2. Rhoi arweiniad a chefnogaeth i'r enwadau a'r eglwysi lleol.
3. Cydweithio'n agos â'r eglwysi lleol i ddelio â phryderon a honiadau, yn cynnwys cysylltu â'r awdurdodau statudol.
4. Cydweithio'n agos â'r panel ac eglwysi lleol i asesu a chadw trefn ar bobl allai fod yn risg, a drafftio cytundebau ymddygiad ar eu cyfer.

# 2. Recriwtio

# Adran 2:
## Recriwtio a dethol mwy diogel

### Cyflwyniad

Fel eglwysi sy'n darparu amrywiaeth eang o weithgareddau i blant ac oedolion bregus, mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn gwneud hyn mewn ffordd ddiogel ac atebol. Rydym eisiau gallu dweud wrth rieni, gofalwyr ac awdurdodau statudol ein bod wedi gwneud popeth a allwn i sicrhau bod y rhai sy'n gofalu am blant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn ddiogel ac yn gallu gwneud eu gwaith.

Mae'r broses recriwtio a ddisgrifir yn yr adran hon (gweler 2.1) yn unol â deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau arfer da a bu'n rhan o bolisi'r eglwys fel y nodwyd yn ein canllaw blaenorol, "Er Mwyn ein Plant". Trwy roi'r polisi a'r canllawiau hyn ar waith rydym yn cymryd camau pwysig i ddiogelu plant a phobl fregus yn ein plith.

Efallai y byddwn yn teimlo ein bod yn adnabod pawb yn ein cymuned, neu nad ydym am wrthod unrhyw wirfoddolwyr parod, ond mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol a moesol i sicrhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i ddiogelu plant a phobl fregus. Gall fod yn deimlad annifyr i ofyn i bobl rydym yn eu hadnabod fynd trwy broses recriwtio, ond mae'r camau a ddisgrifir yn yr adran hon yn ymarfer da cydnabyddedig i sicrhau fod gan weithwyr a gwirfoddolwyr y sgiliau priodol, mynediad at gymorth a hyfforddiant, a bod y gwiriadau cefndir priodol wedi eu cyflawni. Os gweithredwn y broses hon yn achos pawb, bydd yn deg a thryloyw, a buan iawn y daw yn beth arferol.

Dylai arweinwyr a gweithwyr, boed hwy'n gyflogedig neu'n wirfoddolwyr, a'r rheini sy'n dal amryw o swyddi eraill o ymddiriedaeth a chyfrifoldeb, wynebu proses recriwtio drylwyr cyn iddynt ddechrau gweithio gyda grwpiau bregus. Dylai gweithwyr cyflogedig gwblhau ffurflen gais wedi'i ddilyn gan gyfweliad a thystlythyrau. Dylid holi am unrhyw anghysonderau neu fylchau yn yr hanes cyflogaeth. Dylai pob gwirfoddolwr gwblhau ffurflen wybodaeth a dylid cynnal trafodaeth anffurfiol am y rôl, a gofyn am eirda. Dylai pawb sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant neu oedolion bregus lenwi ffurflen hunan-ddatganiad (a fydd yn cael ei storio'n gyfrinachol), a dylid cynnal gwiriad cofnodion troseddol (DBS) ar gyfer pob swydd gymwys. Dylid dilyn y broses bob amser gyda gwirfoddolwyr a gweithwyr newydd ond efallai na fydd pob elfen yn berthnasol i wirfoddolwyr presennol.

Mae mwyafrif y swyddi sy'n cynnwys cyswllt â phlant, a llawer o swyddi sy'n gweithio gydag oedolion bregus, yn gymwys i wneud gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ond gall hyn amrywio yn dibynnu ar y gwaith, lefel y cyfrifoldeb ac amlder y gwaith. Mae'r adran hon o'r llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth i'ch helpu drwy'r broses, gyda siartiau llif ac enghreifftiau o swyddi cymwys. Dylai pob gweithiwr/gwirfoddolwr cymwys gwblhau gwiriad DBS cyn iddynt ddechrau ar eu rôl ac yna bob pedair blynedd.

Yn ogystal â'r wybodaeth a amlinellir yn y tudalennau canlynol, mae ffurflenni a rhestrau gwirio ar gael yn Adran 7 o'r llawlyfr hwn ac ar wefan y panel.

> *Casgliad o arferion i helpu i sicrhau bod eich staff a'ch gwirfoddolwyr yn addas i weithio gyda phlant a phobl ifanc yw recriwtio mwy diogel. Mae'n rhan hanfodol o greu amgylchedd diogel a chadarnhaol a gwneud ymrwymiad i gadw plant yn ddiogel rhag niwed.*
> **NSPCC** 2022

---

https://learning.nspcc.org.uk/safeguarding-child-protection/safer-recruitment-2022

## 2.1 Proses recriwtio mwy diogel

Gweler hefyd RHESTR WIRIO AR GYFER PENODI (Ffurflen 3)

**1. FFURFLEN GAIS / FFURFLEN WYBODAETH (FFURFLEN 1)**
Mae'n gofyn am wybodaeth megis: profiad blaenorol o weithio gyda phlant/oedolion ac enwau dau ganolwr annibynnol sy'n gallu tystio i hanes cyflogaeth yr ymgeisydd neu ei hanes fel gwirfoddolwr gyda phlant a/neu oedolion bregus.

**2. FFURFLEN HUNAN-DDATGANIAD (FFURFLEN 2)**
Yn achos y rheini fydd yn gweithio gyda grwpiau bregus mae'r ffurflen hon yn gofyn am fanylion unrhyw gollfarnau, troseddau neu gyhuddiadau troseddol cyfredol, gan gynnwys collfarnau a ystyrir yn 'hysbydd' o dan Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yn unol â deddfwriaeth bresennol. Bydd y ffurflen yn cael ei chadw'n ddiogel gan unigolyn a enwyd o fewn yr eglwys am dair blynedd.

**3. CYFWELIAD / CYFARFOD ANFFURFIOL**
Dylid cynnal cyfweliad â phob ymgeisydd cyflogedig, a chyfarfod anffurfiol â darpar wirfoddolwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

**4. GWIRIAD DATGELU A GWAHARDD (DBS)**
Gweler y wybodaeth cymhwyster a'r siartiau llif yn 2.4
Rhaid i bob gweithiwr / gwirfoddolwr sy'n gwneud gweithgaredd a reoleiddir gael gwiriad DBS manwl gyda gwiriad o'r rhestr wahardd berthnasol. Gweler 2.3
Bydd y rhan fwyaf o wirfoddolwyr eraill sy'n gweithio gyda phlant yn gymwys i gael gwiriad DBS heb wiriad rhestr wahardd, a gall y rhai sy'n gweithio gydag oedolion fod yn gymwys os yw'r gwaith yn cwrdd â'r gofyniad amledd.

**5. GEIRDA (FFURFLEN 4)**
Dylid sicrhau geirda gan ddau ganolwr annibynnol. (Gweler iv isod)

**6. TREFNU HYFFORDDIANT ADDAS**
Mae hyfforddiant diogelu yn hanfodol i bob arweinydd, gweithiwr a gwirfoddolwr. Dylai gynnwys canllawiau clir ar sut i ymateb i unrhyw bryderon a gwybodaeth am arfer gorau wrth weithio gyda phlant neu oedolion bregus.
Mae gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddi ar gael gan swyddfa'r Panel Diogelu Cydenwadol.

**Sylwer hefyd ar y pwyntiau canlynol:**

i. Mae’r holl ffurflenni a nodir uchod ar gael yn Adran 7 o’r llawlyfr ac ar wefan y panel.

ii. Dylech sicrhau bod darpar wirfoddolwr wedi cymryd rhan yng nghymuned yr eglwys am o leiaf chwe mis.

iii. Lluniwch ganllawiau priodol o ran tasgau a dyletswyddau, yn cynnwys manylion am atebolrwydd a chymorth (gweler atodiad 2 a 2a).

iv. Dylech sicrhau geirda gan o leiaf un canolwr sydd â phrofiad o waith cyflogedig neu wirfoddol yr ymgeisydd. Os na fydd gan yr ymgeisydd brofiad o waith o’r fath, dylai’r geirda ymwneud â’i gymeriad a’i berthynas ag eraill. Dylid osgoi geirda dros y ffôn, ond gellir gofyn am eglurhad pellach ar y ffôn ar ôl derbyn geirda ysgrifenedig, os oes angen.

v. Peidiwch byth ag anwybyddu amheuon ynghylch addasrwydd ymgeisydd; dylid gwyro bob amser ar ochr pwyll.

vi. Bydd penodiadau staff cyflogedig a gwirfoddolwyr yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus.

vii. Dylai gwirfoddolwyr o dan 18 oed dderbyn cefnogaeth a bod o dan oruchwyliaeth bob amser. Mae caniatâd rhieni / gofalwyr yn angenrheidiol. 16 oed yw’r isafswm oedran ar gyfer gwiriad DBS.

## 2.2 Beth yw Datgeliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS[1])?

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cynorthwyo sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy alluogi sefydliadau i wirio gwybodaeth am unigolion a gedwir yng nghofnodion heddluoedd cenedlaethol a lleol a rhestrau gwahardd cyfrinachol a gedwir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dylai cais am ddatgeliad fod y **cam olaf** yn y broses recriwtio. Golyga hyn fod sefydliad wedi dilyn proses recriwtio mwy diogel, ac wedi penderfynu ei fod yn bwriadu penodi'r ymgeisydd neu wirfoddolwr ar yr amod na fydd y dystysgrif datgeliad yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n destun pryder.

Mae tri math o ddatgeliad DBS ar gael: SYLFAENOL, SAFONOL a MANWL. Dim ond corff cofrestredig all wneud gwiriadau safonol a manwl, ond gall unigolyn wneud cais am ei wiriad sylfaenol ei hun gan ddefnyddio gwefan y DBS[2] . (Ni argymhellir gwiriad sylfaenol ar gyfer gweithio gyda grwpiau bregus ac nid yw'r panel yn gwneud y gwiriadau hyn). Mae gwiriad DBS manwl am ddim i wirfoddolwyr a chodir ffi am swydd gyflogedig.

Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol yn gorff cofrestredig gyda'r DBS ac yn cynnal gwiriadau manwl yn bennaf ar gyfer rhai sy'n gweithio gyda grwpiau bregus o fewn y tri enwad, gan ddilyn cod ymarfer y DBS. Nid yw'n bosibl cynnal gwiriad "rhag ofn" y bydd rhywun yn gweithio gyda grwpiau bregus yn y dyfodol. Mae'n rhaid edrych ar union swyddogaeth a natur y cysylltiad gyda phobl fregus i sicrhau bod yna gymhwysedd[3] . Mae gwybodaeth am gymhwyster a gwybodaeth bellach am rolau o fewn yr eglwys ar y tudalennau canlynol yn y llawlyfr hwn gyda rhagor o fanylion ar gael ar wefannau'r panel a'r DBS.

Mae'n rhaid i gyd-lofnodwr y panel gadarnhau bod y swydd yn gymwys o dan ddarpariaethau cyfreithiol cyfredol cyn y gall gydlofnodi'r ffurflen gais. Mae'n anghyfreithlon i sefydliad ofyn am wybodaeth drwy dystysgrif datgeliad os nad oes ganddo hawl i gael y wybodaeth honno. Er mwyn penderfynu a oes cymhwysedd ar gyfer gwiriad DBS, mae'n hanfodol edrych ar y rôl dan sylw, gan ystyried lefel y cyfrifoldeb, amlder y gwaith a lefel y cyswllt â grwpiau bregus. Dylid cynnwys y wybodaeth hon ar ffurflen gwirwyr y panel sydd angen ei chwblhau gyda phob ffurflen gais DBS. Mae'r wybodaeth hefyd yn helpu i ganfod a yw'r rôl yn cynnwys 'gweithgaredd a reoleiddir' (gweler 2.3). Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gwneud gweithgaredd a reoleiddir gwblhau gwiriad DBS manwl gyda gwiriad o'r rhestr gwahardd (plant a/neu oedolion) cyn iddynt ddechrau gweithio gyda grwpiau bregus. Mae'n drosedd i ganiatáu i unigolyn sydd wedi'i wahardd wneud gweithgaredd a reoleiddir[4] felly mae'n rhaid i gyflogwr gymryd camau perthnasol i sicrhau nad yw'n caniatáu i berson gwaharddedig wneud y gwaith hyn.

Os bydd rhywun yn gweithio'n agos gyda grwpiau bregus ond heb gwrdd â'r meini prawf o ran gweithgaredd a reoleiddir, gellir gofyn am wiriad manwl heb wiriad o'r rhestrau gwahardd os oedd y gweithgaredd neu'r swydd yn gymwys am wiriad cyn y newidiadau a gyflwynwyd ym mis Medi 2012. Gweler y siart llif a gwybodaeth yn 2.4 am fwy o wybodaeth.

Mae'r panel yn argymell y dylid adnewyddu gwiriadau DBS bob 4 blynedd. Fel rheol, ni ellir trosglwyddo tystysgrifau DBS o un sefydliad i'r llall. Mae tanysgrifio i **wasanaeth diweddaru'r DBS**[5] yn gallu caniatáu ailddefnyddio'r dystysgrif (os yw'r rôl ychwanegol angen yr un lefel o wiriad) a bydd hyn yn cyflymu'r broses adnewyddu 4 blynedd[6]. Gall ymgeisydd ymuno â'r gwasanaeth o fewn 30 diwrnod o dderbyn tystysgrif newydd. Mae'r gwasanaeth am ddim i wirfoddolwyr ond gyda ffi flynyddol i weithwyr cyflogedig.

---

[1] Gelwir gwiriadau CRB bellach yn wiriadau DBS. Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol yn gyfrifol am gynnal gwiriadau drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd y panel yn eich cynorthwyo i benderfynu pa fath o wiriad sy'n briodol.
[2] https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service
[3] Bydd rhaid sicrhau cymhwysedd cyn gwneud gwiriad.
Am fwy o wybodath gweler 2.4 yn y dogfen hon neu DBS eligibility guidance - GOV.UK (www.gov.uk)
[4] Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006
[5] www.gov.uk/dbs-update-service
[6] https://panel.cymru/images/Information_sheet_update_service.docx.pdf

## 2.3 Beth yw Gweithgaredd a Reoleiddir a Gweithgaredd nas Rheoleiddir?

Gweithgaredd a Reoleiddir yw gweithgaredd na chaiff unigolyn sydd wedi'i wahardd ei wneud. Mae'n anghyfreithlon i berson sydd wedi'i wahardd gyflawni gweithgaredd a reoleiddir. **RHAID** cwblhau gwiriad DBS manwl gyda gwiriad o'r rhestr wahardd berthnasol cyn bod unrhyw weithgaredd a reoleiddir yn cael ei gynnal i sicrhau cydymffurfiaeth â hyn.

**Nid yw hyn yn cynnwys gweithgareddau teuluol neu bersonol.**

**A. Gyda PHLANT**

*Bydd gweithgaredd a reoleiddir yn cynnwys:*

1. Gweithgareddau nad ydynt yn cael eu goruchwylio, megis: dysgu, arolygu, hyfforddi neu roi gofal personol neu gyngor/arweiniad ynghylch lles.
2. Sefydliadau Penodedig: yn cynnwys sefydliadau addysgol, adeiladau gofal plant a chartrefi gofal preswyl i blant.
3. Gofal Personol*: Ymolchi a gwisgo, bwyta, yfed a mynd i'r toiled neu annog rhywun i wneud hynny.
4. Gofal iechyd* a roddir gan unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol, neu dan gyfarwyddyd neu oruchwyliaeth gweithiwr o'r fath.
5. Gwarchodwyr Plant Cofrestredig* a Gofalwyr Maeth*.
6. Rheolaeth gyson dros unigolyn sy'n darparu gweithgaredd a reoleiddir.

Ac eithrio'r gweithgareddau a nodir * mae yna amod amledd i benderfynu a yw gweithgaredd yn cael ei ystyried yn un a reoleiddir. Mae angen i'r ymgeisydd gymryd rhan yn y weithgaredd:

- unwaith yr wythnos neu'n amlach
- 4 diwrnod neu fwy yn ystod cyfnod o 30 diwrnod neu
- dros nos rhwng 2am - 6am gyda chyfle i gael cysylltiad wyneb yn wyneb
- byddai cynorthwyo gyda gofal personol unwaith yn unig yn cyfrif fel gweithgaredd a reoleiddir

**B. Gydag OEDOLION**

Mae'r diffiniad o 'Weithgaredd a Reoleiddir' yn canolbwyntio ar weithgareddau penodol pan fydd yr oedolyn yn cael ei ystyried yn fregus ar yr adeg benodol honno. Golyga hyn, at ddibenion DBS, nad yw oedolion yn cael eu labelu'n 'fregus' fel y cyfryw oherwydd eu nodweddion neu amgylchiadau personol neu'r lleoliad lle cynhelir y gweithgaredd. (Mae hyn yn wahanol i ddiffiniad gwasanaethau cymdeithasol).

Mae'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir yn cynnwys chwe chategori:

1. Gofal iechyd: darperir gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol neu dan oruchwyliaeth gweithiwr o'r fath.
2. Darparu Gofal Personol: ymolchi a gwisgo, bwyta, yfed a mynd i'r toiled i'r rhai na allant wneud hyn eu hunain oherwydd oedran, salwch neu anabledd. Hefyd anogaeth neu hyfforddiant.
3. Gwaith cymdeithasol.
4. Cymorth gyda materion yn y cartref: unrhyw un sy'n rhoi cymorth dydd i ddydd i oedolyn oherwydd ei oedran, salwch neu anabledd, lle mae hyn yn cynnwys bod yn gyfrifol am arian yr unigolyn, talu eu biliau, neu siopa ar ei ran.
5. Cymorth gyda Rheolaeth Busnes: Pŵer atwrnai/ Dirprwyon wedi eu penodi o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
6. Cludo oedolyn i dderbyn gofal iechyd, personol neu gymdeithasol oherwydd oedran, salwch neu anabledd.

**Nid oes gofyniad am sefydliad benodol nac amlder ar gyfer gwaith oedolion fel sydd gyda phlant.**

**C. GWEITHGAREDD NAS RHEOLEIDDIR**

Pan fydd gweithiwr neu wirfoddolwr yn cyflawni swyddogaeth mewn rôl sy'n cynnwys mynediad sylweddol at grwpiau bregus ond nad yw'n bodloni diffiniad 2012 o 'Weithgaredd a Reoleiddir' fel y nodir uchod, mae modd i gyflogwr wneud cais am ddatgeliad manwl heb wiriad rhestr gwahardd mewn llawer o achosion.

**Gweler siart llif 2.4 am fanylion cymhwysedd a 2.5 am enghreifftiau o rolau.**

## 2.4 Cymhwysedd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

**DEFNYDDIWCH Y 3 SIART LLIF A'R WYBODAETH HYN I'CH HELPU I BENDERFYNU PWY YN EICH EGLWYS SY'N GYMWYS I GAEL GWIRIAD DBS. Os ydych yn ansicr, cysylltwch â Swyddfa'r Panel.**

Pan fo rôl yn gymwys, mae'n bolisi gennym ni, ac yn ddisgwyliedig gan y Comisiwn Elusennau a llawer o gwmnïau yswiriant, eich bod yn gwneud cais am wiriad DBS. Mae ein polisi yn nodi y dylid ailadrodd gwiriad bob 4 blynedd.

### SIART 1:
### A YW EIN GWIRFODDOLWYR / YMDDIRIEDOLWYR YN GYMWYS?

**Ydy'r eglwys hon yn trefnu gweithgareddau gyda phlant a/neu oedolion bregus?**
(Gweler nodyn 1 isod)

**YDY**

Mae'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda **PHLANT** yn debygol o fod yn gymwys ar gyfer gwiriadau DBS. (Gweler enghreifftiau a **Siart 2**).

Mae'r rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau gydag **OEDOLION BREGUS** yn gymwys os yw'r gweithgaredd yn bodloni'r meini prawf ac yn cael ei gynnal yn ddigon aml.
(Gweler yr enghreifftiau, nodiadau a **Siart 3**).

Bydd **YMDDIRIEDOLWYR YR EGLWYS** yn gymwys os yw'r gweithgaredd gyda phlant neu oedolion yn golygu bod yr eglwys yn cyrraedd y trothwy i gael ei hystyried yn elusen grwpiau bregus.

**NAC YDY**

Does **DIM** cymhwysedd i gynnal gwiriadau DBS.

Er bod pobl fregus a/neu blant o bosib yn dod i'r gwasanaethau a gall fod gwasanaethau teulu o bryd i'w gilydd, does dim cymhwysedd i gynnal gwiriad DBS oni bai bod gan yr eglwys **weithgareddau penodol ar gyfer plant neu grwpiau bregus.**


**COFIWCH OS GWELWCH YN DDA**
Hyd yn oed os nad oes neb yn eich eglwys yn gymwys i gael gwiriad DBS, mae cyfrifoldebau diogelu gan yr eglwys o hyd.

**Y LLAWLYFR DIOGELU GRWPIAU BREGUS** yw eich polisi a'ch gweithdrefnau diogelu.

Dylech barhau i fynychu **HYFFORDDIANT** i sicrhau eich bod yn gwybod sut i ymateb os ydych chi'n pryderu am sefyllfa neu am unigolyn.

**1.** Gallai **GWEITHGAREDDAU PENODOL** gyda phlant gynnwys Ysgol Sul neu Glwb Ieuenctid ac yn achos oedolion gallai hyn fod yn ymweliadau bugeiliol rheolaidd ar gyfer oedolion bregus yn eu cartref neu rota cludiant neu glwb cinio ar gyfer pobl oedrannus neu anabl. Gweler siartiau 2 a 3 am ragor o fanylion ynghylch gweithgareddau. Bydd y gweithgareddau hyn fel arfer yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn gyson. Nid yw gwasanaethau addoliad arferol yr Eglwys yn cyfrif fel gweithgaredd penodol ar gyfer grwpiau bregus, hyd yn oed os bydd plant a/neu oedolion bregus yn bresennol.


# SIART 2: GWEITHIO gyda PHLANT




**NODIADAU a diffiniadau ar gyfer gwaith plant**

1) Ystyr **RHEOLAIDD / AML** yw: o leiaf yn wythnosol, neu ar unrhyw adeg ar fwy na 3 diwrnod mewn cyfnod o 30 diwrnod, neu dros nos (unrhyw bryd rhwng 2am a 6am). Mae rhai eithriadau.
2) Mae **YMDDIRIEDOLWYR EGLWYS** nad ydynt yn gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant neu oedolion bregus yn gymwys i wneud cais am wiriad DBS dim ond os bydd gweithgareddau gyda grwpiau bregus o fewn yr eglwys honno sy'n golygu bod modd diffinio'r eglwys fel **ELUSEN GRWPIAU BREGUS** (plant a/neu oedolion bregus). Gall ymddiriedolwyr o'r fath gael gwiriad DBS heb wirio'r rhestrau gwahardd. Mae hyn yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau. Os yw ymddiriedolwyr yn gwneud gwaith yn uniongyrchol gyda grŵp bregus, bydd hawl ganddynt i gael gwiriad ar sail y gwaith hwnnw, yn hytrach na'r teitl ymddiriedolwr, ond dylent nodi'r rôl "ymddiriedolwr" hefyd ar ffurflen wirio'r panel.
3) **GWEITHGAREDD A REOLEIDDIR** – Gweler 2.3 yn y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus.
4) Ystyr **GORUCHWYLIAETH** yw bod unigolyn sy'n gyfrifol am y gweithgaredd yn bresennol ar hyd y gweithgaredd; sylwer nad yw hyn yn golygu bod mwy nag un oedolyn yn bresennol yn yr un ystafell. Mae'n rhaid bod gan y goruchwyliwr wiriad DBS manwl, gan gynnwys gwirio'r rhestr wahardd. Os nad oes goruchwyliwr yn bresennol, mae'r gwaith **HEB EI ORUCHWYLIO**.
5) Mae **GWAITH** taladwy neu **WIRFODDOL** yn cael ei drin yr un fath at ddibenion cymhwysedd DBS

# SIART 3: GWEITHIO gydag OEDOLION BREGUS




**NODIADAU a diffiniadau gwaith gydag oedolion**

1) **'OEDOLYN BREGUS neu OEDOLYN AGORED I NIWED'** yw rhywun 18 a throsodd sy'n derbyn gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol, e.e. Llety preswyl neu dŷ lloches neu ofal iechyd neu unrhyw ofal oherwydd oed, iechyd neu anabledd (para 9 a 10 o Reoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) (Newidiwyd) 2013).
2) Ystyr **RHEOLAIDD / AML** yw o leiaf yn wythnosol, neu ar unrhyw adeg ar fwy na 3 diwrnod mewn cyfnod o 30 diwrnod, neu dros nos (unrhyw bryd rhwng 2am a 6am). Mae rhai eithriadau.
3) Mae **YMDDIRIEDOLWYR EGLWYS** nad ydynt yn rhan o waith uniongyrchol gyda phlant neu oedolion bregus yn gymwys i wneud cais am wiriad DBS dim ond os bydd gweithgareddau gyda Grwpiau Bregus o fewn yr Eglwys honno sy'n golygu bod modd diffinio'r eglwys fel **ELUSEN GRWPIAU BREGUS** (plant a/neu oedolion bregus). Gall Ymddiriedolwyr o'r fath gael gwiriad DBS heb wirio'r rhestrau gwahardd. Mae hyn yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau. Os yw ymddiriedolwyr yn gwneud gwaith yn uniongyrchol gyda grŵp bregus, bydd hawl ganddynt i gael gwiriad ar sail y gwaith hwnnw, yn hytrach na'r teitl ymddiriedolwr, ond dylent nodi'r rôl "ymddiriedolwr" hefyd ar y ffurflen wirio'r panel.
4) **GWEITHGAREDD A REOLEIDDIR** – Gweler 2.3 yn y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus.
5) Mae **GWAITH** taladwy neu **WIRFODDOL** yn cael ei drin yr un fath at ddibenion cymhwysedd DBS.

## 2.5 Enghreifftiau o rolau cyffredin a'u cymhwysedd i gael gwiriad DBS

Nid yw'n bosibl llunio rhestr derfynol yn seiliedig ar deitl swydd yn unig gan fod y cymhwyster yn seiliedig ar y gwaith a wneir a pha mor aml y mae'n digwydd. Mae'r enghreifftiau canlynol ar gyfer canllawiau cyffredinol. Mae'r termau "gweithiwr" a "gweithio" hefyd yn cynnwys gwirfoddolwyr.

**Rolau yn gweithio gyda PHLANT: (gweler hefyd SIART 2)**

1) Mae athro **YSGOL SUL / GWEITHIWR IEUENCTID** sy'n gweithio'n **rheolaidd*** a heb oruchwyliaeth yn gwneud **gweithgaredd a reoleiddir*** a rhaid iddo/iddi gael gwiriad manwl (gan wirio'r rhestr wahardd). Mae'r un rôl yn gweithio'n rheolaidd ond o dan oruchwyliaeth* yn gymwys ar gyfer gwiriad manwl (heb wirio'r rhestr wahardd).
2) Dylai athro **YSGOL SUL / GWEITHIWR IEUENCTID** sy'n gweithio'n achlysurol (gyda neu heb oruchwyliaeth) gael gwiriad manwl (heb wirio'r rhestr wahardd).
3) Rhaid i unrhyw weithiwr sy'n helpu plant sy'n sâl neu'n anabl i fwyta neu yfed, neu blant ifanc, a rhai sy'n sâl neu'n anabl i ymolchi neu fynd i'r tŷ bach, hyd yn oed os yw hynny unwaith yn unig, neu'n achlysurol, gael DBS manwl (gan wirio'r rhestr wahardd).
4) Mae **YMDDIRIEDOLWR EGLWYS** mewn eglwys sy'n cynnal Ysgol Sul a/neu weithgareddau plant/pobl ifanc yn gymwys i gael gwiriad manwl heb wirio'r rhestr wahardd hyd yn oed os nad yw'n cymryd rhan yn bersonol. Os bydd eglwys yn cynnal gwasanaethau lle gall plant fod yn bresennol neu wasanaethau plant achlysurol, ond heb drefnu gweithgareddau eraill/ gwaith arall i blant, NID yw'r ymddiriedolwyr yn gymwys i gael gwiriad DBS.
5) Mae polisi diogelu **AGOR Y LLYFR** yn gofyn bod y gwirfoddolwyr yn cael gwiriad DBS trwy'r eglwys leol.
6) Mewn **CRÈCHE** neu **GRŴP PLANT BACH** neu **'LLAN LLANAST'** lle gall plant fod ar eu pen eu hunain neu lle gall gweithiwr fod yn gyfrifol am y plant, byddai'r gweithiwr yn gymwys i gael gwiriad manwl (gyda/heb wirio'r rhestr wahardd- yn dibynnu ar ffactorau eraill). Os yw'r rhieni/ gofalwyr bob amser yn bresennol ac â gofal am eu plant eu hunain yn barhaus, nid yw'r cynorthwywyr yn gymwys i gael gwiriad DBS. (Gweler 3 uchod am fynd i'r toiled / newid cewyn/clwt).

**Rolau yn gweithio gydag OEDOLION BREGUS (gweler y diffiniad SIART 3)**
**Mae amlder y gweithgaredd yn allweddol i gymhwysedd DBS ar gyfer y rhai sy'n gweithio gydag oedolion (gweler nodyn 2 ar y dudalen flaenorol).**

7) Mae **YMWELYDD BUGEILIOL** sy'n ymweld ag oedolion bregus, oedrannus neu anabl yn rheolaidd (tua phob wythnos – gweler nodyn 3) ac yn darparu gofal, cyngor, addysg neu gefnogaeth yn **gymwys** i gael gwiriad manwl. Nid yw'r rhai sy'n ymweld yn llai aml yn gymwys.
8) Mae'n rhaid i **YMWELYDD BUGEILIOL** sy'n helpu oedolyn gyda materion ariannol/biliau/arian parod/ siopa ar eu rhan (beth bynnag yw'r amlder) gwblhau gwiriad DBS gyda gwiriad rhestr gwahardd.
9) Nid yw **GWIRFODDOLWR CLWB CINIO** neu **FANC BWYD** sy'n dosbarthu bwyd a dim ond yn sgwrsio â'r ymwelwyr yn gymwys. Os yw'r rôl honno'n cynnwys **addysgu, arwain neu gynghori oedolion agored i niwed**[6] yn rheolaidd neu'n aml, y mae'n gymwys) (para 6 o Reoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) (Newidiwyd) 2013).
10) Mae'n rhaid i weithiwr **CLWB CINIO** neu **YMWELYDD BUGEILIOL** sy'n helpu oedolyn i fwyta neu i fynd i'r toiled gael gwiriad manwl, gan wirio'r rhestr wahardd.
11) Mae gwirfoddolwr sy'n **CLUDO** aelodau oedrannus a bregus o'r eglwys i'r cyfarfodydd yn rheolaidd/aml yn gymwys ar gyfer gwiriad manwl heb wirio'r rhestr wahardd. (Rhaid i hyn gael ei drefnu gan, neu ar ran yr eglwys, yn hytrach na bod yn drefniant preifat.) Nid yw cludo oedolion yn anaml yn gymwys oni bai bod hynny o gartref gofal neu i dderbyn gofal cymdeithasol neu ofal iechyd.
12) Mae'n rhaid i wirfoddolwr sy'n **CLUDO OEDOLION** er mwyn iddyn nhw dderbyn gofal meddygol neu sy'n mynd â rhywun o gartref gofal i'r eglwys gael gwiriad manwl (Dylai hyn gael ei drefnu gan yr eglwys, nid yn breifat).
13) Mae **YMDDIRIEDOLWR EGLWYS** mewn eglwys gyda gweithgareddau ar gyfer oedolion bregus, fel ymweld ag aelodau oedrannus a bregus yn rheolaidd, yn gymwys i gael gwiriad manwl (heb wirio'r rhestr wahardd). Os yw eglwys yn cynnal gwasanaethau lle mae oedolion bregus yn mynychu ond nad oes unrhyw weithgareddau eraill wedi'u trefnu'n benodol ar gyfer oedolion bregus, NID yw'r ymddiriedolwyr yn gymwys i gael gwiriad DBS.

**Rolau eraill**

14) Dylai **GWEINIDOGION** gwblhau gwiriad manwl, gyda gwiriad o'r rhestrau gwahardd ar gyfer plant ac oedolion. Mae hyn oherwydd y dyletswyddau arferol neu ddisgwyliedig. Fodd bynnag, mae'n bwysig cwblhau'r ffurflen gwirwyr yn gywir i gadarnhau a yw'r rôl yn cynnwys gweithgaredd a reoleiddir.
15) Nid yw rolau'r **YSGRIFENNYDD** neu'r **TRYSORYDD**, y **GOFALYDD** na'r **ORGANYDD** yn gymwys oni bai bod y rôl hefyd yn **YMDDIRIEDOLWR** (**gweler 4 ac 13 uchod**) a/neu'n bodloni'r meini prawf yn Siartiau 2 neu 3.

*Gweler hefyd nodiadau ar dudalennau blaenorol (2.4)

## 2.6 Proses gwneud cais am ddatgeliad i'r DBS

Dylid recriwtio pob gwirfoddolwr a gweithiwr yn ddiogel gan gynnwys ffurflen gais a thystlythyrau (gweler Adran 2.1).

Dylai'r eglwys asesu a oes angen gwiriad DBS (gan ddefnyddio'r siartiau yn adran 2.4) neu geisio cyngor gan swyddfa'r panel.

Mae ffurflenni a gwybodaeth ar gael gan y panel.

Mae'r gwirfoddolwr yn llenwi ffurflen cais DBS ac yn gwneud apwyntiad gyda gwiriwr y panel*
Bydd y gwiriwr angen gweld o leiaf 3 dogfen hunaniaeth ac yn cwblhau'r ffurflen wirio gyda'r ymgeisydd cyn ei dychwelyd i'r PDC i'w chydlofnodi a'i hanfon i'r DBS.

Mae'r ymgeisydd yn derbyn y Dystysgrif Datgeliad yn uniongyrchol gan y DBS a rhaid anfon y dystysgrif wreiddiol i swyddfa'r panel.

Nid yw'r gwiriad wedi ei gwblhau hyd nes y bydd hyn wedi ei wneud.

Mae'r panel yn nodi rhif y dystysgrif ac yn hysbysu'r eglwys neu'r corff sy'n gyfrifol am y penodiad fod y broses wedi'i chwblhau cyn dychwelyd y dystysgrif i'r ymgeisydd.

Gall gwirfoddolwr danysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru (dewisol) am ddim o fewn 30 diwrnod i ddyddiad y dystysgrif. (Gall hyn alluogi'r dystysgrif i gael ei defnyddio ar gyfer swyddi eraill (gydag eithriadau).

https://www.gov.uk/dbs-update-service

Bydd datgeliad aneglur (tystysgrif datgeliad sy'n dangos euogfarnau neu rybuddion) yn cael ei hasesu yn dilyn y broses a ddisgrifir yn Adran 2.7.

* Mae gan y Panel Diogelu Cydenwadol dîm o wirwyr ar draws Cymru sy'n gallu gwirio dogfennau hunaniaeth yn lleol i hwyluso'r broses DBS. Mae hyn yn cynnwys llawer o weinidogion a staff eglwysig. Bydd angen iddynt weld 3 dogfen a gofyn rhai cwestiynau syml am y rôl i gadarnhau cymhwysedd.

## 2.7 Datgeliad Aneglur

Mae datgeliad aneglur yn dystysgrif DBS sy'n cynnwys manylion am gollfarnau, rhybuddion, ceryddon a rhybuddion terfynol, neu wybodaeth gan yr Heddlu.

**Ni fydd datgeliad o drosedd, o reidrwydd, yn eich gwahardd rhag gweithio neu wirfoddoli.**

Bydd y panel yn sicrhau bod pob unigolyn a chanddo ddatgeliad 'aneglur' yn cael ei drin yn deg ac yn gyfrinachol.

Mae llawer o droseddau mân neu hen droseddau yn cael eu **hidlo**[7] ac ni fyddant yn ymddangos ar dystysgrif DBS. Diweddarwyd y rheolau hyn ym mis Tachwedd 2020 ac ers hynny ni fydd unrhyw rybuddion ieuenctid yn ymddangos ar dystysgrif DBS. Bydd rhybuddion oedolion yn cael eu hidlo ar ôl 6 blynedd, ac ni fydd mân droseddau a gafodd eu cyflawni tra'n oedolyn, yn ymddangos ar ôl 11 mlynedd (5.5 mlynedd am drosedd a gyflawnwyd pan o dan 18 oed). Fodd bynnag, ni fydd troseddau sy'n arwain at ddedfryd o garchar na rhai troseddau difrifol[8] **yn cael eu hidlo** o ddatgeliad manwl neu safonol, hyd yn oed os ydynt wedi eu treulio. Gweler y dolenni isod neu cysylltwch â'r swyddfa am fwy o wybodaeth.

Ar ôl derbyn datgeliad aneglur, bydd swyddfa'r panel yn cysylltu â'r ymgeisydd i gadarnhau'r manylion a'r wybodaeth a ddangosir ar y dystysgrif ac i ofyn am wybodaeth ychwanegol os oes angen. Bydd asesiad risg yn cael ei gwblhau cyn cyfeirio'r achos yn ddienw at banel cyfrinachol i ystyried a oes goblygiadau diogelu i'r wybodaeth a rennir.

Yn aml, mae'r panel yn cynghori nad oes unrhyw risg benodol o ran diogelu yn gysylltiedig â'r datgeliad a gall yr unigolyn fwrw ymlaen â'r gwaith. Mewn rhai achosion, gall y panel gynghori y gall yr unigolyn weithio neu wirfoddoli ond yn gwneud argymhellion neu bennu amodau. Mae natur rhai troseddau neu benderfyniadau gwahardd yn golygu ei bod yn anghyfreithlon i'r unigolyn weithio gyda phlant a / neu oedolion bregus a bydd y panel yn ysgrifennu at yr unigolyn i esbonio nad yw'n gyfreithiol iddynt barhau â'r rôl.

Os yw'r dystysgrif DBS aneglur yn un adnewyddiad a bod amgylchiadau a rôl yr ymgeisydd heb newid a chynnwys y dystysgrif wedi'i asesu o'r blaen gan y panel, byddai'r penderfyniad blaenorol ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd fel arfer yn parhau mewn grym.

Os penderfynir na ddylai'r ymgeisydd barhau yn y rôl, bydd y Panel Diogelu Cydenwadol yn cysylltu â'r eglwys i gynnig cyngor ac fel arfer hysbysir Ysgrifennydd Cyffredinol yr enwad o'r penderfyniad.

Bydd y panel yn ysgrifennu at yr unigolyn ym mhob achos i esbonio penderfyniad y panel.

Mae gan yr ymgeisydd hawl i apelio[9] yn erbyn penderfyniad y panel

[7] https://www.gov.uk/government/publications/dbs-filtering-guidance
[8] https://www.gov.uk/government/publications/dbs-list-of-offences-that-will-never-be-filtered-from-a-criminal-record-check
[9] See the policy page of our website for more on the process and how to appeal https://panel.cymru/en/policies-and-information

# 3. Plant a Phobl Ifanc

# Adran 3:
## Plant a Phobl Ifanc

Mae'r adran hon yn cynnwys:

**Datganiad polisi a gwerthoedd yr eglwys ynghylch plant a phobl ifanc**

**3.1 Arfer da wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc**

A. Egwyddorion arfer da

B. Canllawiau ymarferol cyffredinol:

1) Cynllunio gweithgareddau
2) Lleoliadau diogel
3) Goruchwyliaeth ddigonol
4) Dogfennau
5) Bwyd a diod
6) Blwch Cymorth Cyntaf
7) Cofnod Damweiniau a Digwyddiadau
8) Yswiriant

**3.2 Amddiffyn Plant**

A. Sut y gallai plentyn gael ei gam-drin

B. Pwy sy'n cam-drin plant?

C. Categoriau o gam-drin ac arwyddion posibl

CH. Ymateb cyntaf i bryder neu honiad o gam-drin

D. Sut i ymateb i blentyn sy'n datgelu achos o gam-drin

DD. Siart llif – beth i'w wneud os byddwch yn gweld, clywed neu'n amau rhywbeth

**3.3 Canllawiau ar gyfer gweithgareddau ac amgylchiadau penodol**

A. Ffilmio a thynnu lluniau

B. Diogelwch wrth gludo plant

C. Cyrsiau preswyl

CH. Defnyddio eiddo eglwysig fel llety

D. Diogelwch Ar-lein

## Cyflwyniad

Fel cymuned eglwysig rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnig amgylchedd diogel a gofalgar i'n plant a'n pobl ifanc. Mae'r eglwys gyfan yn dymuno gweld plant a phobl ifanc yn cymryd rhan lawn a gweithredol ym mywyd yr eglwys, mewn amgylchedd sy'n eu cynorthwyo i dyfu'n ysbrydol ac yn gofalu amdanynt yn gyfrifol.

> **'Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn yn datgan bod gan blant yr hawl i ddweud eu barn a chael gwrandawiad, i gael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod. Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.'**
>
> *CCUHP Erthyglau 12, 19 a 3*

## Datganiad polisi

Polisi Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru yw diogelu lles yr holl blant a phobl ifanc drwy eu hamddiffyn rhag esgeulustod a niwed corfforol, rhywiol ac emosiynol. Fel eglwysi, rydym yn gwbl ymrwymedig i ddiogelu lles ein haelodau a'r rheini a roddwyd yn ein gofal. Bydd aelodau'r eglwys, staff cyflogedig a gwirfoddolwyr yn dangos parch i hawliau plant a dealltwriaeth ohonynt, yn hybu ethos o wrando ar blant a sicrhau eu diogelwch, gan ymddwyn mewn modd sy'n adlewyrchu egwyddorion yr Eglwys Gristnogol.

Bydd yr eglwys yn gofalu am blant a phobl ifanc ac yn eu diogelu drwy ddilyn arferion da mewn perthynas â'r canlynol:-

- Recriwtio gweithwyr yn ddiogel (adran 2)
- Hybu arferion gwaith da wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc (adran 3.1)
- Hyfforddi a chefnogi eu gweithwyr yn eu swyddogaeth ac mewn amddiffyn plant (adran 3.2)

Dylai'r gweithdrefnau a'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon fod ar gael i bob gweithiwr, arweinydd ac aelod o fewn yr eglwys.

Er mwyn eglurder, mae unrhyw gyfeiriad at blentyn/plant yn cynnwys plant a phobl ifanc hyd at 18 oed.

## Gwerthoedd

Gwneir pob bod dynol gan Dduw yn ei ddelwedd ef. Delwedd Duw yw Ei rodd i ni fel plant yn ogystal ac fel oedolion.

Mae gennym Dduw gofalgar a thrugarog ac rydym ni hefyd yn cael ein galw i ddangos Ei gariad a'i drugaredd wrth i ni weithio gydag eraill, yn enwedig y rhai mwyaf bregus.

> *Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, y Tad sy'n trugarhau a'r Duw sy'n rhoi pob diddanwch. Y mae'n ein diddanu ym mhob gorthrymder, er mwyn i ninnau, trwy'r diddanwch a gawn ganddo ef, allu diddanu'r rhai sydd dan bob math o orthrymder.* (2 Corinthiaid 1:3-4)

Mae genedigaeth yr Iesu, ei dyfu a'i fagu o fewn teulu, ynghyd â'i ymddygiad tuag at blant yn ystod ei weinidogaeth, yn cadarnhau'r urddas a'r gwerth a gyflwynodd Duw i blant a phobl ifanc. Unigolyn cyflawn yw plentyn a chanddo hawliau ac anghenion, i'w hanrhydeddu a'u parchu gennym oll. Yn wir, mae gan blant rinweddau a ddengys i oedolion y ffordd i deyrnas Dduw (Mathew 18:3).

Felly, mae plant yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned Gristnogol, ond maent hefyd yn fregus ac mae arnynt angen ein gofal arbennig.  Cymerwn o ddifrif y siars a roddwyd gan yr Iesu i groesawu plant, i'w hamddiffyn ac i adael rhwydd hynt iddynt ddod ato.

> *Pwy bynnag sy'n derbyn y plentyn hwn yn fy enw i, y mae'n fy nerbyn i; a phwy bynnag sy'n fy nerbyn i, y mae'n derbyn yr hwn a'm hanfonodd i.* (*Luc 9:48*)

> *Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Duw yn perthyn … A chymerodd hwy yn ei freichiau a'u bendithio, gan roi ei ddwylo arnynt.* (*Marc 10:14 a 16*)

Mae gan eglwysi heddiw gyfle unigryw i weithredu'r gorchmynion hyn gan Iesu. Dylai pob eglwys, yn ei haddoliad, ei chymdeithas a'i chenhadaeth, geisio delweddu cymuned lle:-

- mae plant yn cael gwrandawiad ac ymdeimlad o berthyn, yn cael eu magu a'u diogelu;
- mae rhieni yn derbyn cymorth ac anogaeth;
- mae'r rheini sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn derbyn cymorth.

Mae'r eglwys yn cydnabod hawl plant a phobl ifanc i gael eu trin fel unigolion a'u hannog i gymryd rhan ym mywyd yr eglwys. Mae'n datgan nad yw ymddygiad bygythiol, treisgar neu ddiraddiol byth yn dderbyniol.

Mae'r eglwys yn dymuno hybu arferion gwaith da, a chreu amgylchedd diogel a chadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc yn ein heglwysi a'n cymunedau ac i'r rheini sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn ein plith.

## 3.1 Arfer da wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc

O fewn ein heglwysi mae gennym nifer o bobl fedrus a thrugarog sy'n rhannu eu hamser, doniau a'u ffydd wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Er bod llawer o'r wybodaeth yn yr adran hon yn ymddangos yn "synnwyr cyffredin", mae'n bwysig bod ein gwahanol dimau ac eglwysi yn gweithio tuag at yr un safonau uchel yn ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Mae hyn hefyd o gymorth wrth i ni rannu ein disgwyliadau ynghylch swyddogaethau gyda gweithwyr a gwirfoddolwyr newydd.

## A. EGWYDDORION ARFER DA

1. Dylid trin pob plentyn ac unigolyn ifanc ag urddas a pharch.
2. Dylid grymuso ein plant i ddiogelu eu hunain – trwy wrando arnynt, rhoi dewisiadau iddynt, eu credu a rhoi cyngor perthnasol a gwybodaeth iddynt (fel sy'n addas i'w hoedran a'u dealltwriaeth).
3. Dylid bod yn ymwybodol bob amser o'r iaith rydych yn ei defnyddio, goslef eich llais, ac iaith y corff.
4. Mae cyffyrddiad yn rhan hanfodol o fywyd bob dydd ac yn ffordd o gyfleu hoffter, cynhesrwydd a chysur. Dylai fod yn addas ar gyfer yr oedran ac, yn gyffredinol, dylai'r plentyn neu'r unigolyn ifanc gymryd y cam cyntaf, yn hytrach na'r gweithiwr. Dylai ymwneud ag anghenion y plentyn/unigolyn ifanc, nid anghenion y gweithiwr. Mae gafael yn llaw plentyn neu ei gofleidio pan fyddant yn ofidus yn ffordd dda o gysuro plentyn ond dylech ofyn bob amser "Wyt ti eisiau cwtsh?" yn hytrach na rhagdybio. Mae gennym oll ein ffiniau gwahanol a dylid eu parchu. Gwnewch bopeth yn llygad y cyhoedd. Mae cofleidio yng nghyd-destun grŵp yn wahanol i wneud hynny y tu ôl i ddrysau caeëdig.
5. Byddwch yn agored ac yn dryloyw fel tîm. Dylai aelodau'r tîm fonitro ei gilydd o safbwynt eu hymddygiad neu gyffyrddiad corfforol. Dylent roi rhwydd hynt i gynorthwyo ei gilydd drwy herio'n adeiladol unrhyw beth y gellid ei gamddehongli neu'u gamddeall.
6. Yn ogystal â bod yn ymwybodol o ddiogelwch y plentyn bob amser, dylech hefyd fod yn ymwybodol o'ch diogelwch eich hun ac amddiffyn eich hun rhag honiadau. Dylid ymddwyn yn agored, yn dryloyw ac atebol.
7. Dylid dysgu sut i reoli a disgyblu plant heb orfod troi at gosb gorfforol. PEIDIWCH BYTH â tharo unrhyw un, a pheidiwch â gweiddi. Dylech newid goslef eich llais os oes angen. Peidiwch â bod yn gyndyn o ofyn am gymorth arweinwyr eraill os nad ydych yn gallu ymdopi â sefyllfa.
8. Dewch i adnabod y plant rydych yn gweithio gyda hwy a darganfod beth sy'n gweithio iddynt fel unigolion ac fel grŵp. Ewch ati i lunio cytundebau â'r plant a phobl ifanc, yn addas ar gyfer eu hoedran (rheolau sylfaenol), o ran yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol (e.e.dim taro, gweiddi, galw enwau, ac ati) y gallwch eu hadolygu yn rheolaidd gyda'ch gilydd.
9. Ewch ati i gytuno ymysg eich gilydd fel gweithwyr ar rai canllawiau sylfaenol ar gyfer pob gweithgaredd gan sicrhau eich bod oll yn ymddwyn yn gyson a bod y disgwyliadau yn glir. Gallech ystyried llunio llyfryn yn nodi pwy sy'n gyfrifol am bob gweithgaredd a sut y byddwch yn ymdrin â disgyblaeth, er mwyn ei rannu gyda gweithwyr newydd neu rieni. (Gweler y ddogfen enghreifftiol yn atodiad 2)
10. Lle bo hynny'n bosibl, dylech osgoi gweithio ar eich pen eich hun gyda phlentyn neu grŵp. Yn adeiladau'r eglwys, gallai hyn olygu eich bod yn cadw drysau ar agor, neu'n trefnu bod dau grŵp yn gwneud gweithgareddau yn yr un ystafell. Bydd hyn yn eich galluogi i gefnogi eich gilydd ac aros yn atebol i'ch gilydd fel tîm. Bydd eithriadau neu amseroedd pan na fydd hyn yn bosibl a dyma pam rydym yn gweithredu proses recriwtio ddiogel.
11. Dylid parchu preifatrwydd y plant ond ni ddylech addo cadw cyfrinachau ac ni ddylech gael sgyrsiau preifat neu bersonol gyda phlant a phobl ifanc ar eich pen eich hun. Rydym eisiau cynnig gofal a chymorth priodol, felly, wrth wrando ar broblem unigolyn ifanc neu gynnig cyngor, byddwch yn ddoeth ynghylch lleoliad a chyd-destun y drafodaeth. Lle bo hynny'n bosibl, sicrhewch fod arweinwyr eraill yn ymwybodol o'r cyfarfod a bod pobl eraill gerllaw.

12. Peidiwch â chwarae gemau sy'n rhy gorfforol neu'n bryfoclyd yn rhywiol a pheidiwch byth â gwneud sylwadau rhywiol awgrymog am unigolyn neu iddo ef/hi, hyd yn oed wrth dynnu coes. Peidiwch â chael eich tynnu i mewn pan fydd unigolyn ifanc yn mynnu sylw trwy ddulliau sy'n amlwg yn rhywiol neu'n gorfforol eu natur.
13. Peidiwch â gwahodd plant neu unigolion ifanc i'ch cartref pan fyddwch ar eich pen eich hun; dylech wahodd grŵp, neu sicrhau bod oedolyn arall yn y tŷ. Dylech sicrhau bod rhiant/gofalwyr yn gwybod ym mha le mae'r plentyn/person ifanc.
14. Peidiwch â mynd i gartref plentyn/unigolyn ifanc os yw'r rhiant neu ofalwr yn absennol, oni bai fod y plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol pe na fyddwch yn gwneud.
15. Dylech osgoi cludo plentyn / unigolyn ifanc ar eich pen eich hun. Dylech geisio sicrhau bod arweinydd / cynorthwyydd arall hefyd yn y cerbyd, neu bod plant / unigolion ifanc eraill hefyd yn bresennol. Os bydd yn rhaid i chi, oherwydd amgylchiadau arbennig, gludo plentyn / unigolyn ifanc ar eich pen eich hun, dylech sicrhau bod arweinwyr / cynorthwywyr eraill yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd, a bod yr unigolyn yn eistedd yn sedd gefn y cerbyd.
16. Byddwch yn ddoeth wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a ffonau symudol gyda phlant a phobl ifanc (gweler y canllawiau yn adran 3.3 D).
17. Os ydych yn ansicr, peidiwch byth â bod ofn gofyn am gymorth neu gyngor gan eich arweinwyr neu staff mwy profiadol. Mae Swyddog Hyfforddiant a Diogelwch y Panel Diogelwch Cydenwadol hefyd ar gael i roi cyngor (gweler atodiad 1 am fwy o ffynonellau cefnogaeth).

## B. CANLLAWIAU YMARFEROL CYFFREDINOL

Gweler hefyd adran 3.3 Canllawiau ar gyfer gweithgareddau penodol

1) **Wrth gynllunio a pharatoi gweithgareddau dylech fod yn ymwybodol o'r canlynol:**

- Dylech sicrhau eich bod wedi derbyn caniatâd i bob plentyn neu unigolyn ifanc dan 18 gymryd rhan mewn gweithgaredd.
- Mae gan sefydliadau gyfrifoldeb i **asesu'r risg** sydd ynghlwm wrth y gweithgareddau a ddarperir. Mae templed asesiad risg (gweler Ffurflen 10) yn rhestr wirio ddefnyddiol i'ch cynorthwyo i ystyried y problemau a'r peryglon posibl sydd ynghlwm wrth y gweithgaredd. Rydym yn cynnal asesiadau risg anffurfiol drwy'r amser heb feddwl. Er enghraifft, byddwn yn dweud, "Mae'n rhy beryglus i ddringo ar ben y gadair – af i nôl ysgol". Weithiau bydd cynnal asesiad risg anffurfiol ar ddechrau sesiwn neu weithgaredd yn ddigonol, ond yn achos gweithgareddau a drefnir ar gyfer grwpiau mae'n arfer da i gadw copi papur ffurfiol y gellir ei rannu gydag aelodau'r tîm a'i adolygu. (Gweler canllawiau pellach yn Atodiad 4.)
- Lle bo hynny'n bosibl, dylai pob gweithgaredd gynnwys rhywun a chanddo gymhwyster **Cymorth Cyntaf**. Yn ddelfrydol, dylai rhiant neu warcheidwad y plentyn fod yn gyfrifol am roi **meddyginiaeth**. Os bydd yn hanfodol rhoi meddyginiaeth yn ystod gweithgaredd, dylid gofyn am ganiatâd a chyfarwyddyd ysgrifenedig gan riant/gwarcheidwad neu feddyg. Dylai'r feddyginiaeth gael ei labelu'n glir a'i chadw mewn lle diogel, allan o gyrraedd plant.
- Pan fyddwch yn chwarae gemau neu weithgareddau i 'dorri'r garw' (ice breakers), byddwch yn ymwybodol o beryglon anafiadau corfforol, a cheisiwch gymryd camau i'w hosgoi.
- Dylech sicrhau bod modd **ffonio am gymorth** os bydd argyfwng yn ystod gweithgaredd – naill ai ffôn symudol â derbyniad da neu fynediad at linell dir.

2) **Lleoliadau Diogel:**

- Dylid sicrhau bod yr holl safleoedd/lleoliadau a ddefnyddir gan yr eglwys yn ddiogel ar gyfer cynnal unrhyw weithgaredd.
- Dylai'r adeiladau a ddefnyddir gan grwpiau neu ar gyfer gweithgareddau gael eu cynnal a'u cadw'n gywir. Dylai adeiladwaith allanol yr adeilad, yn cynnwys yr holl osodiadau mewnol, ffitiadau, goleuadau, allanfeydd tân ac offer, gwrdd â'r safonau diogelwch gofynnol. Hefyd, dylid cynnal arolwg blynyddol, a lle bo'r angen, dylid cymryd y camau priodol. Dylai'r holl offer trydanol gael prawf diogelwch trydanol. Yn y Deyrnas Unedig, gelwir y profion hyn yn brofion dyfeisiadau cludadwy neu PAT (Portable Appliance Testing).
- Dylai ardaloedd chwarae y tu allan gael eu diogelu'n briodol gyda giatiau diogel a ffensys er mwyn atal plant bychan rhag crwydro.
- Dylech fod yn ymwybodol bob amser o'r peryglon neu risgiau posibl yn yr adeilad ac yn yr offer a'r gweithgareddau. Dylid cynnal asesiadau risg yn rheolaidd. Mewn adeilad, gellir ystyried y canlynol yn beryglus: carpedi rhydd, lloriau anwastad, cypyrddau gorlawn, silffoedd uchel iawn, allanfeydd tân sydd wedi'u rhwystro, drysau gwydr, goleuadau heb fylbiau ynddynt, pwyntiau pŵer sydd wedi'u gorlwytho, ceblau trydan yn hongian yn rhydd, bachau ffenestri rhydd.
- Dylech symud eitemau a allai achosi anaf yn ystod y gweithgaredd, neu dylech eu hosgoi.
- Dylai cynorthwyydd/arweinydd oruchwylio pobl ifanc bob amser mewn ceginau.
- Byddwch yn ymwybodol o leoliad yr allanfeydd tân, a sicrhewch nad ydynt wedi'u rhwystro. Dylech wybod ym mha le y mae'r diffoddwyr tân agosaf. Dylai unigolyn cymwys eu harchwilio'n rheolaidd. Dylid cynnal ymarferiad tân yn achlysurol er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc yn gyfarwydd â'r drefn o adael yr adeilad os bydd tân. Mae'n ddefnyddiol cadw cofnod o'r ymarferiadau.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw ardal pan fydd gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud, a rhowch 'sgrîn' o amgylch ardaloedd o'r fath, os yn bosibl.

3) **Goruchwyliaeth ddigonol**

Dylid goruchwylio plant bob amser. Ni ddylid gadael plant heb eu goruchwylio, un ai y tu mewn neu yn yr awyr agored. Dylai'r arweinydd sicrhau bod digon o aelodau staff i fodloni'r cymarebau a argymhellir (gweler isod), a hefyd bod goruchwyliaeth ddigonol ar gael ar gyfer offer ychwanegol neu beryglus. Yn achos rhai mathau o offer, e.e. cestyll bownsio, mae'n hanfodol sicrhau bod goruchwyliaeth ddigonol ar gael gan unigolion sydd wedi derbyn hyfforddiant addas. Efallai bydd angen yswiriant arbenigol / ychwanegol ar gyfer gweithgareddau risg uwch.

Dyma'r cymarebau a argymhellir gan yr NSPCC[11] o ran goruchwylio plant mewn sefydliadau gwirfoddol:-

| | |
|---|---|
| 0 - 2 oed | o leiaf 1 oedolyn i 3 o blant |
| 2 - 3 oed | o leiaf 1 oedolyn i 4 o blant |
| 4 - 8 oed | o leiaf 1 oedolyn i 6 o blant |
| 9 - 12 oed | o leiaf 1 oedolyn i 6 o blant |
| 13 -18 oed | o leiaf 1 oedolyn i 8 o blant |

Dyma isafswm y canllawiau cyffredinol ond dylid cynyddu'r niferoedd yn ôl yr angen; er enghraifft, er mwyn cynnig cymorth priodol i blentyn ag anghenion ychwanegol. Yn gyffredinol dylai gweithgareddau gael eu cynnal gan isafswm o ddau oedolyn.

4) **Dogfennau**

- Pan fydd plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n cael ei redeg gan sefydliad, mae'n bwysig bod ffurflen gwybodaeth gyffredinol a chaniatâd yn cael ei chwblhau yn y lle cyntaf gan y rhiant/ gwarcheidwad. Dylai'r ffurflen gynnwys gwybodaeth gyswllt, hawl i geisio gofal meddygol mewn

11 Cymarebau a argymhellir gan yr NSPCC
http://www.nspcc.org.uk/Inform/research/briefings/adult-child-ratios_wda95200.html

argyfwng a manylion am unrhyw alergeddau neu ymateb i fwydydd penodol. Dylid adolygu'r ffurflen hon yn flynyddol. (Ffurflen 5 neu 6: Ffurflen Ganiatâd a Gwybodaeth)

- Os ydych yn bwriadu defnyddio dulliau electronig neu rwydweithiau cymdeithasol i gysylltu gyda phobl ifanc, mae'n bwysig i gael caniatâd ysgrifenedig (gweler Ffurflen 6 a 3.3 D).
- Dylid gofyn am ganiatâd ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd sydd y tu hwnt i'r gweithgareddau arferol. Gall hyn fod yn weithgaredd achlysurol 'risg uchel'; er enghraifft, dringo neu drip neu gwrs preswyl (Ffurflen 7: Ffurflen Ganiatâd ar gyfer Gweithgaredd Arbennig)
- Hefyd, dylid cadw cofrestr o bresenoldeb yn y clwb neu weithgaredd, ynghyd â chofrestr o'r aelodau staff cyflogedig a gwirfoddolwyr ym mhob sesiwn. Mae'n arfer da hefyd i roi gwybod i rieni/gofalwyr am natur y gweithgareddau.

5) **Bwyd a diod**

Os bydd bwyd a diod yn cael eu darparu yn ystod gweithgaredd, dylid ystyried y canlynol:

- Dylai gweithwyr ddilyn egwyddorion golchi dwylo a hylendid da.
- Dylid storio bwyd a diod yn briodol.
- Ni ddylid cario diodydd poeth ar draws ardal y gweithgaredd ac ni ddylid eu rhoi o fewn cyrraedd i blant ifanc.
- Dylid sicrhau goruchwyliaeth briodol yn ystod amseroedd bwyd a byrbrydau.
- Dylid sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael bob amser.
- Bod systemau ar waith i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at fwydydd/diodydd y mae ganddynt alergedd iddynt. Ymhlith y bwydydd/diodydd mwyaf cyffredin mae cnau, llaeth, wyau, pysgod, pysgod cregyn a glwten.
- Os bydd prydau yn cael eu paratoi, dylai bod gan y sawl sy'n gyfrifol Dystysgrif Hylendid Bwyd Sylfaenol neu gymhwyster cyfatebol, a gwybodaeth am faterion megis paratoi, trin a storio bwyd, gwaredu gwastraff ac ati.

6) **Blwch Cymorth Cyntaf**
Dan y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf), mae'n ddyletswydd ar bob cyflogwr i ddarparu o leiaf un blwch Cymorth Cyntaf ym mhob lleoliad gwaith. Dylid cadw cynnwys y blwch mewn cynhwysydd sy'n dal dŵr a dylai'r gweithiwr penodedig archwilio'r cynnwys yn rheolaidd.

7) **Cofnod Damweiniau a Digwyddiadau**
Dylid cofnodi unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiad, gan nodi dyddiad y digwyddiad, manylion y tystion ac unrhyw gamau pellach y dylid eu cymryd. (Gweler Ffurflen 9: Ffurflen Damwain neu Ddigwyddiad)

8) **Yswiriant**
Dylech sicrhau bod unrhyw weithgaredd wedi'i gynnwys yn y Polisi Yswiriant sydd yn enw'r eglwys leol neu adran berthnasol yr enwad. Yn amlwg, mae arfer da yn lleihau'r risg, fodd bynnag, dylid hefyd sicrhau bod yswiriant digonol ar gyfer pob gweithgaredd. Os bydd damwain, digwyddiad, neu os amheuir bod cam-drin neu os caiff achos o gam-drin ei ddarganfod, mae'n bwysig rhoi gwybod i'r cwmni yswiriant ar unwaith, neu gellid effeithio'n andwyol ar yr yswiriant.

## 3.2 Amddiffyn Plant

**A. Sut y gallai plentyn gael ei gam-drin?**
Gall plentyn gael ei gam-drin pan fydd rhywun yn ei niweidio, pan fydd rhywun yn methu ag atal plentyn rhag cael ei niweidio neu ei esgeuluso.

Gall cam-drin ddigwydd o fewn teulu, mewn adeilad sefydliad, neu yn y gymuned ehangach. Gall plant gael eu cam-drin gan bobl y maent yn eu hadnabod neu, yn llai cyffredin, gan ddieithryn.

Mae'n bwysig bod y rheini sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn gallu adnabod arwyddion a symptomau o gam-drin oherwydd yn aml iawn nid yw plant a phobl ifanc yn gallu, neu'n fodlon, gofyn am gymorth yn uniongyrchol. Fodd bynnag, gall fod ffactorau eraill yn gyfrifol am ymddygiad y plentyn, felly ni ddylai'r unigolyn sy'n gweithio gyda'r plentyn gymryd y cyfrifoldeb i benderfynu os oes cam-driniaeth wedi digwydd.

**B. Pwy sy'n cam-drin plant?**

- Yn aml, rhywun y mae'r plentyn yn ei adnabod yw'r camdriniwr. Gall fod yn rhiant, brawd neu chwaer, perthynas arall, ffrind i'r teulu neu gymydog.
- Weithiau, gall y camdriniwr fod yn oedolyn sydd yn dal swydd o awdurdod neu gyfrifoldeb dros blant; gallai hyn fod yn wir o fewn yr eglwys.
- Gall y camdriniwr ddod o unrhyw gefndir.
- Gall camdriniwr fod yn wryw neu'n fenyw.
- Nid oes un ffordd sicr o adnabod rhywun a allai fod yn gamdriniwr; nid yw'n ymddangos yn wahanol i weddill cymdeithas.
- Gall rhai oedolion sy'n gamdrinwyr fod wedi cael eu cam-drin eu hunain pan yn blant.

C. Categorïau o gam-drin ac arwyddion posibl

| Math | Diffiniad | Arwyddion Posibl |
|---|---|---|
| **CAM-DRIN CORFFOROL** | Gall hyn olygu curo, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi â thân neu ddŵr, boddi, mygu neu fel arall achosi niwed corfforol i blentyn. Gall cam-drin corfforol hefyd ddigwydd pan fo rhiant neu ofalwr yn esgus bod gan y plentyn symptomau, neu'n achosi salwch mewn plentyn yn fwriadol. Disgrifir sefyllfa o'r fath yn aml trwy ddefnyddio termau megis salwch dychmygol trwy brocsi neu 'Syndrom Munchausen trwy brocsi'. | • Anafiadau nad ydynt yn gyson â'r esboniad a roddir<br>• Anafiadau mewn mannau o'r corff na fyddai fel arfer yn derbyn anaf yn dilyn cwymp neu chwarae ayb.<br>• Anafiadau nad ydynt wedi cael sylw meddygol<br>• Amharodrwydd i newid neu gymryd rhan mewn gemau neu nofio<br>• Heintiau wrinol yn gyson neu boenau bol anesboniadwy<br>• Cleisiau ar fabanod, brathiadau, llosgiadau, toriadau ac ati nad oes ganddynt esboniad damweiniol<br>• Toriadau / crafiadau / cam-drin sylwedd * |
| **CAM-DRIN RHYWIOL** | Gall hyn olygu gorfodi neu annog plentyn neu unigolyn ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, pa un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyffwrdd â phlentyn yn gorfforol, sy'n cynnwys gweithgareddau treiddiol neu'r rheiny nad ydynt yn dreiddiol.<br>Gallant gynnwys gweithgareddau digyffyrddiad, megis cynnwys plant yn y cynhyrchiad o ddeunydd pornograffig, neu eu hannog i wylio pornograffi neu wylio gweithgareddau rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffordd sy'n amhriodol i blant. | • Unrhyw honiadau a wneir ynghylch cam-drin rhywiol<br>• Pwyslais gormodol ar faterion rhywiol a gwybodaeth fanwl o ymddygiad rhywiol oedolion<br>• Gweithgaredd rhywiol amhriodol: siarad, chwarae neu dynnu lluniau<br>• Plentyn sy'n bryfoclyd yn rhywiol neu'n fflyrtio gydag oedolion<br>• Trefniadau rhannu gwely amhriodol yn y cartref<br>• Ofnau, ffobiâu, breuddwydion neu hunllefau byw<br>• Anhwylderau bwyta - anorecsia, bwlimia * |

| | | |
|---|---|---|
| **CAM-DRIN EMOSIYNOL** | Mae hyn yn gallu achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus o ran datblygiad emosiynol y plentyn. Gall olygu cyfleu i blant eu bod yn ddiwerth neu nad oes neb yn eu caru, eu bod yn annigonol, neu mai eu hunig werth yw diwallu anghenion unigolyn arall. Gall olygu disgwyl gormod gan blentyn o'i oed a'i ddatblygiad. Gall olygu achosi i blant deimlo'n ofnus neu feddwl eu bod mewn perygl, neu ddefnyddio neu lygru plant.<br>Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol ym mhob math o gam-drin plant, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun. | • Newidiadau neu ymgiliad mewn hwyliau neu ymddygiad<br>• Iselder, ymddygiad ymosodol, nerfusrwydd, obsesiynau neu ffobiâu<br>• Tangyflawni neu ddiffyg canolbwyntio annisgwyl<br>• Perthynas amhriodol gyda chyfoedion a/neu oedolion<br>• Ymddygiad sy'n ceisio sylw<br>• Blinder parhaus<br>• Rhedeg i ffwrdd / dwyn/ dweud celwyddau |
| **ESGEULUS-TOD** | Methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at amharu ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn yn ddifrifol.<br>Gall olygu bod rhiant neu ofalwr yn methu â darparu bwyd, llety a dillad digonol, yn methu â diogelu plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu'n methu sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso anghenion emosiynol sylfaenol plentyn neu beidio ag ymateb iddynt. | • Diffyg maeth, diffyg ffynniant, llwgu yn gyson, dwyn neu slaffio bwyd<br>• Salwch heb ei drin<br>• Gofal annigonol<br>• Gwisgo'n amhriodol ar gyfer y tywydd yn gyson |

* Gall y rhain hefyd ddangos y posibilrwydd bod plentyn neu berson ifanc yn hunan-niweidio. Mae tua 20,000 yn cael eu trin mewn adrannau damweiniau ysbytai yn y DU bob blwyddyn.

**CH. Ymateb Cyntaf i Bryder neu Honiad o Gam-drin**

Os bydd pryder bod plentyn neu unigolyn ifanc wedi cael ei gam-drin, neu os gwneir honiad uniongyrchol o gam-drin, mae'n bwysig bod yr unigolyn sy'n derbyn yr wybodaeth hon yn dilyn y camau canlynol:

1) **Gwnewch nodiadau cyn gynted â phosibl :**

- Gwnewch gofnod ysgrifenedig o'r union eiriau a ddywedwyd, pryd y dywedwyd hyn, beth a ddywedwyd mewn ymateb, a beth oedd yn digwydd yn union cyn hyn (e.e. disgrifiad o'r gweithgaredd). Glynwch at y ffeithiau a pheidiwch â mynegi eich barn. Gallai eich adroddiad/nodiadau gael eu defnyddio yn y dyfodol mewn llys barn. (Gallwch ddefnyddio Ffurflen 11 yn adran 7 os ydych yn dymuno).
- Disgrifiwch unrhyw anaf: ei faint a darlun o'i leoliad a siâp ar gorff y plentyn.
- Gwnewch gofnod ysgrifenedig o ddyddiadau ac amseroedd y digwyddiadau hyn a phryd y gwnaed y cofnod.
- Gwnewch gofnod ysgrifenedig o unrhyw gamau a gymerwyd a chadwch unrhyw nodiadau mewn llawysgrifen hyd yn oed os byddant yn cael eu teipio'n ddiweddarach.
- Dylid rhoi'r nodiadau hyn i gydlynydd diogelwch yr eglwys i'w gynorthwyo petai angen cyfeirio'r mater i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant neu'r Heddlu. Dylid cadarnhau unrhyw atgyfeiriad yn ysgrifenedig o fewn 48 awr a dylech gael cydnabyddiaeth o'ch atgyfeiriad ysgrifenedig o fewn un diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd ei dderbyn.
- Os nad oes cydlynydd diogelwch yn eich eglwys neu os nad oes modd cysylltu â'r cydlynydd diogelwch, neu'r dirprwy, neu os mai hwy yw testun y pryderon, dylid cysylltu â'r asiantaethau statudol ar unwaith.

2) **Ceisiwch gyngor:**

- Os nad oes cydlynydd diogelwch yn eich eglwys gallwch gysylltu â swyddog diogelu y PDC[12] neu Ysgrifennydd Cyffredinol yr enwad i gael cyngor.
- Gall 'The Churches Child Protection Advisory Service (CCPAS)'[13] hefyd roi cyngor annibynnol ac mae'n gweithredu llinell gymorth gyfrinachol 24 awr a gwefan gynhwysfawr.

3) **Mewn achosion brys:**

- Os bydd lle i bryderu y gallai'r plentyn fod wedi'i niweidio'n fwriadol, ei fod mewn perygl o 'niwed sylweddol' neu yn ofni dychwelyd adref, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant lleol neu'r Heddlu ar unwaith. Peidiwch â dweud wrth y rhieni/gofalwyr mewn amgylchiadau o'r fath.
- Os bydd y plentyn angen gofal meddygol brys, dylid galw ambiwlans neu dylid cludo'r plentyn i'r ysbyty, gan roi gwybod i'r rhieni/gofalwyr yn ddiweddarach. Dylid hysbysu staff yr ysbyty am unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant. Mae ganddynt gyfrifoldeb i drosglwyddo'r pryderon hyn i'r awdurdodau statudol.

4) **NI DDYLID:** Ymchwilio i unrhyw amgylchiadau, honiadau neu ddatgeliadau ar eich pen eich hun. Nid eich lle chi, na lle'r eglwys, yw penderfynu a ddigwyddodd yr achos o gam-drin ai peidio. Eich cyfrifoldeb yw adrodd am y mater i'r unigolyn priodol.

---

12 Panel Diogelwch Cydnewadol 01745 817584

13 CCPAS (The Churches' Child Protection Advisory Service) yw'r unig elusen ddiogelu Gristnogol annibynnol 0845120 45 50 http://www.ccpas.co.uk/About.html

**5) Pryderon ynghylch gofal gwael gan rieni neu esgeulustod**

- Os bydd y pryderon ynghylch y plentyn yn ymwneud â gofal gwael gan y rhieni, gall fod yn briodol i siarad â'r rhiant/gofalwr. Gallwch gynnig gofal domestig ymarferol ac awgrymu, er enghraifft, y dylid cael sgwrs gyda'r ymwelydd iechyd, meddyg neu'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant.
- Os bydd rhiant/gofalwr yn anfodlon neu'n ofni gofyn am gymorth, yna dylid cynnig mynd yn gwmni iddynt. Os nad ydynt yn cydnabod yr angen i weithredu, gellir trafod y sefyllfa yn anffurfiol â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant heb ddatgelu manylion personol (megis enwau a chyfeiriadau) oni bai, wrth gwrs, y bydd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn ystyried bod y sefyllfa yn un digon difrifol i chi wneud hynny. Dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bwysig sylweddoli y gallai'r darlun fod yn llawer ehangach. Efallai bod yr wybodaeth a ddaeth i law yn ddarn hanfodol o'r jig-sô.

**D. Sut i ymateb i blentyn sy'n datgelu achos o gam-drin**

- Byddwch yn amyneddgar, gan ddangos cydymdeimlad.
- Gwrandewch yn ofalus – cymerwch sylw ac edrychwch ar y plentyn.
- Os bydd y plentyn yn rhannu gwybodaeth â chi, dylech ystyried yr wybodaeth o ddifrif. Dangoswch eich bod yn derbyn yr hyn mae'n ei ddweud (ni waeth pa mor anhebygol yw'r stori) drwy ailadrodd geiriau neu ymadroddion byr a ddefnyddiwyd ganddo.
- Peidiwch â holi'r plentyn ynghylch yr hyn a ddigwyddodd na phwyso arno i ddatgelu mwy o wybodaeth.
- Dylech bwysleisio nad yw'r plentyn ar fai.
- Dylech sicrhau'r plentyn ei fod yn gwneud y peth iawn trwy ddatgelu'r wybodaeth i chi, a'ch bod yn ystyried yr wybodaeth o ddifrif.
- Os ydych o'r farn bod y plentyn mewn perygl difrifol neu ddybryd, cysylltwch â'r Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar unwaith.


**Dylech:**

- ddweud wrth y plentyn beth rydych yn bwriadu ei wneud, a gyda phwy y byddwch yn rhannu'r wybodaeth a pham, ac – yn syml iawn – beth fydd yn digwydd nesaf.
- gadw nodiadau manwl cyn gynted â phosibl wedi'r datgeliad, eu dyddio a'u llofnodi. Glynwch at y ffeithiau a pheidiwch â mynegi eich barn.

**Ni ddylech:**

- addo cadw unrhyw achos o gam-drin y byddwch yn clywed amdano yn gyfrinach. Er enghraifft, peidiwch â dweud, "Ni fydd hyn byth yn digwydd i chi eto" neu "Wna i ddim sôn am hyn wrth unrhyw un arall".
- fynegi eich sioc neu anghrediniaeth i'r plentyn.
- drafod y mater gyda'r unigolyn a gyhuddir neu a amheuir o gam-drin.
- holi neu herio unrhyw un a enwyd fel camdriniwr posibl. Eich cyfrifoldeb yw adrodd am y mater i'r unigolyn priodol.

## DD. SUT I YMATEB OS BYDDWCH YN: CLYWED GWELD neu AMAU RHYWBETH?



Rydych wedi CLYWED, GWELD neu AMAU bod plentyn wedi dioddef camdriniaeth neu esgeulustod

↓

Gwnewch nodiadau manwl o'r hyn a ddywedwyd wrthych neu'r hyn a welsoch neu'r hyn rydych yn ei amau (gweler Ffurflen 11).

↓

**A YDYNT MEWN PERYGL DYBRYD?**

**Ydyn**

↓

Cysylltwch â'r gwasanaethau brys neu'r tîm Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddyletswydd yn syth

↓

Gallwch gysylltu â swyddog diogelu y panel i gael cymorth neu gyngor
01745 817584
07957 510346
*neu*
cysylltwch ag ysgrifennydd cyffredinol eich enwad

**Nac ydyn**

↓

Ceisiwch gyngor gan swyddog diogelu eich eglwys / swyddog diogelu y panel

*neu*

cysylltwch â'r tîm gwasanaethau cymdeithasol lleol

Mae rhifau ffôn ar gael ar wefan yr awdurdod lleol

OS YDYCH YN AMAU NEU YN ANSICR FFONIWCH AM GYNGOR

## 3.3 Canllawiau ar gyfer gweithgareddau ac amgylchiadau penodol

**A.Ffilmio a Thynnu Lluniau**

Mae ffilmio neu dynnu lluniau plant yn ddull da o gofnodi digwyddiad positif, neu i hysbysebu clwb, ond mae'n rhaid dilyn trefn benodol er mwyn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data, ac i ddiogelu plant ac/neu bobl ifanc.  Mae'n ofynnol eich bod yn cydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data 1998, ac yn ystyried yn ofalus sut i ddefnyddio a storio'r delweddau.

- Mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig rhiant/gwarcheidwad y plentyn cyn tynnu llun neu ei ffilmio yn ystod gweithgareddau'r eglwys. Dylai'r ffurflen egluro diben gwneud y ffilm/tynnu'r llun e.e. ar gyfer gwefan yr eglwys, hysbysfwrdd, y wasg etc. Mae'n dderbyniol gofyn i riant/gwarcheidwad hysbysu'r sefydliad os NAD YDYNT yn dymuno i rywun dynnu llun neu ffilmio eu plentyn. (Gweler Ffurflen 8)
- Gofalwch rhag rhoi ffilm/llun plentyn ar wefan heb gael caniatâd ysgrifenedig rhiant/gwarcheidwad o flaen llaw.
- O ran dogfennau cyhoeddusrwydd, peidiwch ddefnyddio enwau neu wybodaeth a fydd yn datgelu pwy yw'r plant. Mae'r un peth yn berthnasol pan fyddwch yn anfon lluniau i'r wasg. Mae rhai eithriadau, e.e. pan fyddwch yn clodfori ennill gwobr, ond gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael caniatâd o flaen llaw.
- Dylid cadw lluniau plant mewn lle diogel a benderfynwyd gan ymddiriedolwyr yr eglwys. Dylid hefyd cofnodi'r penderfyniad hwnnw.
- Ni ddylai gweithwyr gadw delweddau plant/pobl ifanc ar eu ffôn symudol nac ar gyfrifiadur.
- Mae'n drosedd i gadw, rhannu neu ddangos delwedd anweddus o blant.

**B. Diogelwch wrth gludo plant**

Bydd pob gwaith ieuenctid rywbryd neu'i gilydd yn golygu cludo pobl ifanc, boed ar noson y clwb, neu yn ôl ac ymlaen i gwrs preswyl. Bydd y canllawiau arfer da isod o gymorth i ddiogelu'r bobl ifanc a'u harweinwyr. Dylai unrhyw yrrwr fod wedi dilyn y drefn wirio arferol.

**a) Ceir Preifat**

- Dylai gyrwyr fod yn ymwybodol o gyfyngiadau yswiriant trydydd parti o ran cludo pobl ifanc. Gellid defnyddio ceir preifat, ond nid i'w hurio na chludo teithwyr am gydnabyddiaeth.
- Dylai gyrwyr holi eu cwmni yswiriant i sicrhau bod eu hatebolrwydd o ran teithwyr yn ddigonol. Dylai gweinidogion a gweithwyr cyflogedig yn arbennig wneud yn siŵr bod eu polisi'n yswirio gyrru fel rhan o'u galwedigaeth neu waith yn hytrach nag at ddibenion cymdeithasol a domestig a theithio i'r gwaith yn unig.
- Ceisiwch osgoi cludo plentyn neu unigolyn ifanc ar eich pen eich hun lle bo'n bosib. Ceisiwch sicrhau bod arweinydd/cynorthwywr arall yn bresennol gyda chi yn y cerbyd, neu fod plant / pobl ifainc eraill gyda chi. Os digwydd sefyllfa lle bo rhaid ichi gludo plentyn ar eich pen eich hun, sicrhewch fod arweinwyr/cynorthwywyr eraill yn gwybod fod hyn yn digwydd, a bod y plentyn yn y sedd cefn.
- Dylid ar bob cyfrif osgoi gorlenwi'r cerbyd, gan y bydd hyn yn dirymu unrhyw yswiriant sydd gennych.
- Mae'n rhaid gwisgo gwregysau diogelwch.

**b) Bysiau Mini**

Mae'n rhaid cydymffurfio gyda'r rheoliadau cyfredol. Cewch yrru bws mini os ydych yn meddu ar drwydded car ac yn dilyn amodau penodol – fel arall, bydd arnoch angen gwneud cais am drwydded bws mini.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael gan y DVLA. Gall y rheoliadau a ganlyn newid unrhyw adeg.[14]

Efallai y cewch yrru bws mini ac ynddo hyd at 16 sedd i deithwyr gan ddefnyddio'ch trwydded car cyfredol, ar yr amod nad yw 'i'w hurio na chludo teithwyr am gydnabyddiaeth', h.y. nid yw'r teithwyr – nag unrhyw un ar eu rhan – yn talu am y cludiant. Os gofynnir i'r teithwyr dalu bydd arnoch angen trwydded PCV (Passenger Carrying Vehicle).

**Os oeddech yn meddu ar drwydded yrru cyn 1 Ionawr 1997**
Cewch yrru bws mini yn y Deyrnas Gyfunol ac ar ymweliadau tramor dros dro. Pan gyrhaeddwch 70 oed a'ch trwydded yn cael ei hadnewyddu, bydd rhaid ichi wneud cais arbennig sydd yn golygu bodloni safonau meddygol uwch.

**Os cawsoch eich trwydded yrru ar ôl 1 Ionawr 1997**
Cewch yrru bws mini ac ynddo hyd at 16 sedd i deithwyr ar yr amod:

- eich bod yn 21 oed neu'n hŷn
- eich bod yn gyrru'r bws i ddibenion cymdeithasol ac ar ran corff nad yw'n gorff masnachol
- eich bod wedi dal trwydded car ers o leiaf 2 flynedd
- eich bod yn gyrru'r bws yn wirfoddol, i ddibenion cymdeithasol ac ar ran corff nad yw'n gorff masnachol
- nad yw'r bws mini'n pwyso mwy na 3.5 tunnell (neu 4.25 tunnell gan gynnwys offer arbenigol ar gyfer teithwyr anabl, e.e. ramp ar gyfer cadair olwyn)
- nad ydych yn tynnu trelar/cart y tu ôl i'r bws

(O wefan y DVLA, Hydref 2013)

**Os ydych yn ansicr, neu angen rhagor o wybodaeth ynghylch gyrru bws mini cysylltwch â'r DVLA, neu edrychwch ar eu gwefan.**

- Pan fo rhywun yn gyrru bws mini o eiddo'r eglwys, mae'n rhaid iddi/iddo gael ei h/enwi ar bolisi yswiriant yr eglwys.
- Yn ôl y gyfraith, cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau, cyn defnyddio cerbyd, fod y cerbyd hwnnw'n addas ar gyfer y ffordd fawr. Gall peidio â gwneud hynny olygu y bydd y gyrrwr yn atebol yn ôl y gyfraith os digwydd unrhyw ddamwain.

**OS YDYCH YN AMHEUS, PEIDIWCH Â GYRRU'R CERBYD.**

Pan fyddwch yn hurio bws mini neu fws mwy, cyfrifoldeb y rhai a fydd yn ei ddefnyddio yw gwneud yn siŵr fod y perchennog yn gweithredu'n gyfreithlon a chanddo yswiriant dilys cyn defnyddio'r cerbyd. Os ydych yn amheus, gofynnwch am gael gweld copi o bolisi yswiriant y gweithredwr a'i drwydded weithredu.

- Mae'n rhaid gwisgo gwregys diogelwch ar gyfer pob taith, waeth pa mor fer ac, unwaith eto, cyfrifoldeb y gyrrwr/arweinydd yw gorfodi hyn.
- Lle bo modd, dylai arweinwyr/cynorthwywyr sydd yn cyd-deithio mewn bws mini gyda phobl ifanc eistedd yn eu plith. O ddewis, dylai arweinydd/cynorthwywr eistedd yn agos i allanfeydd y cerbyd.

14 https://www.gov.uk/driving-a-minibus

- Dylid cadw 'llyfr cofnodi damweiniau / trafferth gyda'r cerbyd' mewn bws mini o eiddo'r eglwys, a'i ddiweddaru'n gyson.
- Sicrhewch fod Pecyn Cymorth Cyntaf a Diffoddwr Tân yn y cerbyd, a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod sut i'w defnyddio.
- Nodwch mai 50 m.y.a. yw'r cyflymdra cyfreithiol uchaf ar ffordd un llain, 60 m.y.a. ar ffordd ddeuol, a 70 m.y.a. ar drafffordd.

## C. Cyrsiau Preswyl

Wrth drefnu cwrs preswyl, dylai'r arweinydd sydd â gofal nodi'r hyn a ganlyn:

### 1) Y Ganolfan Breswyl

- Mae'n rhaid bod gan y Ganolfan yswiriant digonol ar gyfer eich grŵp, a thrwydded ar gyfer y gweithgareddau y byddwch yn eu gwneud. Yn arbennig, dylai'r yswiriant fod yn addas ar gyfer gweithgareddau risg uchel, megis canwio, dringo creigiau, ayb.
- Dylai'r adeiladau gydymffurfio gyda gofynion y ddeddfwriaeth gyfredol o ran Iechyd a Diogelwch.
- Dylai'r Ganolfan eich hysbysu ynghylch ei rheoliadau. Gwnewch bob ymdrech i fod yn ymwybodol o'i hamserlen, e.e. a oes ganddi awr benodol ar gyfer diffodd goleuadau, adegau bwyd, a faint o'r gloch y disgwylir i'ch grŵp gyrraedd a gadael.
- Mae'n rhaid i'r Ganolfan fedru darparu Cymorth Cyntaf / gwasanaeth Meddyg Teulu mewn argyfwng.
- Mae'n rhaid i'r Ganolfan ddarparu llefydd cysgu ar wahân i fechgyn a merched.
- Dylid llunio strategaeth ar gyfer rhoi gwybod i rieni / warcheidwaid mewn argyfwng, neu os bydd newidiadau annisgwyl i'r rhaglen neu'r lleoliad. Gwnewch yn siŵr bod ffôn ar gael.

### 2) Rhieni

Mae'n rhaid cael caniatâd rhieni/gwarcheidwaid wrth fynd ag unigolyn ifanc oddi cartref ar gyfer profiad preswyl. Rhaid i ffurflen gofrestru gael ei llenwi a'i harwyddo ganddynt, a dylai'r ffurflen hefyd roi unrhyw wybodaeth feddygol berthnasol megis alergeddau, deiet arbennig ayb.

Cyn mynd i ffwrdd gyda grŵp, gwnewch yn siŵr fod y rhieni/gwarcheidwaid yn ymwybodol o'r hyn a ganlyn:

- Y rhaglen/gweithgareddau y bydd eu plentyn yn cymryd rhan ynddynt;
- Enwau a niferoedd yr arweinwyr/cynorthwywyr a fydd yn mynd gyda'r grŵp. Lle bo modd, peth da yw trefnu sesiwn o flaen llaw ar gyfer y rhieni, gan roi gwybodaeth a chyfle i rieni gyfarfod yr arweinwyr/cynorthwywyr;
- Cyfeiriad a rhif ffôn y Ganolfan;
- 'Cytundeb' y grŵp, sef y rheolau y gofynnir i'r bobl ifanc eu parchu, a'r hyn a all ddigwydd pe baent yn torri'r rheolau;
- Y dillad ac eitemau eraill y bydd angen i'r bobl ifanc ddod gyda hwy;
- Faint o arian poced sy'n debygol o fod yn ddigon (mae'n syniad da gosod uchafswm y dylai'r bobl ifanc ddod gyda hwy).

### 3) Y Bobl Ifanc

- Mae'n rhaid iddynt gael caniatâd rhiant/gwarcheidwad cyn cymryd rhan mewn cwrs preswyl a'i weithgareddau.
- Dylid rhoi iddynt wybodaeth lawn o ran natur y cwrs, a'r hyn y disgwylir ganddynt.

- Ni ddylid byth eu gorfodi i gymryd rhan mewn gweithgaredd nad ydynt yn gysurus yn ei gylch.
- Dylid caniatáu iddynt gyd-drafod y rheolau a'r 'cytundeb ymddygiad', a gwybod beth yw'r gosb os digwydd iddynt eu torri.
- Dylai bod modd i blant a phobl ifanc ddefnyddio Teleffôn. Dylid arddangos rhifau Teleffôn Childline a'r NSPCC.

### CH. Defnyddio eiddo eglwysig fel llety

Ni ddylid defnyddio eiddo eglwysig fel llety oni bai eu bod yn bodloni rheoliadau iechyd a diogelwch, tân a bwyd. Os defnyddir eiddo eglwys fel llety, mae angen ystyried rhai ffactorau:

- Ceisiwch ddefnyddio'r llawr isaf yn unig fel man cysgu.
- Dylai bechgyn a merched gael llefydd cysgu ar wahân, a goruchwyliaeth addas.
- Dylai fod o leiaf dau lwybr gwahanol yn arwain o'r llefydd cysgu ac allan o'r adeilad.
- Dylid sicrhau y byddai drysau'n agor yn hawdd mewn argyfwng. Dylid sicrhau bod yr allanfeydd wedi'u marcio'n eglur, a symud unrhyw rwystrau. Dylid rhoi cyfarwyddiadau eglur i'r bobl ifanc a'r arweinwyr/cynorthwywyr beth i'w wneud pe bai tân.
- Dylid sicrhau nad yw offer gwresogi cludadwy yn rhwystro allanfeydd, a dylid eu diffodd yn ystod oriau cwsg.
- Dylai fod gan arweinwyr/gynorthwywyr flachlamp rhag ofn i'r trydan fethu.
- Gwnewch yn siŵr bod modd galw am gymorth – gwnewch yn siŵr o flaen llaw fod ffonau symudol yn effeithiol yn yr ardal honno. Os oes ffôn yn yr eglwys, dylai fod modd i'r arweinwyr/cynorthwywyr ei ddefnyddio.
- Dylai llefydd cysgu'r arweinwyr/cynorthwywyr a'r bobl ifanc fod ar wahân, lle bo modd, ond dylai llefydd cysgu'r bobl ifanc fod yn hawdd cyrraedd atynt.

### D. DIOGELWCH 'AR-LEIN'

Yn y gorffennol mae cyfrifoldeb eglwysi dros ddiogelu ac amddiffyn plant ac ieuenctid wedi golygu llunio gweithdrefnau yn ymwneud â gweithgarwch/adeiladau diogel, ac arfer da o ran gweithwyr. Heddiw mae'n rhaid dwyn i ystyriaeth diogelwch 'ar-lein' hefyd.

Mae modd i'r eglwys chwarae ei rhan wrth geisio lleihau'r risg sydd ynghlwm wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth, ffonau symudol ayb fel a ganlyn:

**Cynorthwyo plant a'u teuluoedd** i ddefnyddio cyfryngau 'ar-lein' yn ddiogel, trwy ddwyn i'w sylw rhai o'r peryglon, a sut i ddefnyddio TG mewn modd diogel.

**Canllawiau i'n gweithwyr a gwirfoddolwyr** o ran arddel egwyddorion ac arferion diogel wrth ddefnyddio TG o fewn i'r eglwys, ac fel modd i gyfathrebu gyda phobl ifanc.

### 1. CYNORTHWYO PLANT A'U TEULUOEDD

Mae'r Rhyngrwyd yn adnodd ardderchog, ac yn rhan annatod bellach o'n bywyd dyddiol, ond dyma rai o'r problemau a all godi:

- Seiber-fwlio ac 'ymladd' ar-lein, bygythiadau, secstio.
- Cyfarfod â rhywun ar-lein, a'r perygl bod unigolyn yn meithrin perthynas amhriodol (grooming).

- Methu â diogelu gwybodaeth ddigidol, yn arwain at dramgwyddo preifatrwydd, dwyn hunaniaeth unigolyn, camddefnyddio gwybodaeth a thwyll.
- Rhannu ffeiliau a thorri deddfwriaeth hawlfraint, diffyg diogelwch cyfrifiadurol (firysau ayb).
- Mynediad at ddeunydd peryglus megis pornograffi, gwefannau sy'n hyrwyddo casineb, a gwefannau sy'n annog hunan-niweidio, cyffuriau, hunan-laddiad neu gamblo.
- Gor-ddefnydd y Rhyngrwyd, negeseuon testun, ffônau symudol, gemau fideo – dibyniaeth ar dechnoleg, neu fod yn gaeth iddo.

Er nad yw'r eglwys yn arbenigo yn y maes hwn, gall annog a chynorthwyo plant a'u teuluoedd i fod yn effro i'r peryglon ar-lein. Mae hyn yn cynnwys annog teuluoedd i drafod y peryglon gyda'u plant, gosod amddiffynfeydd ar gyfrifiaduron y cartref, a sicrhau bod eu plant yn cymryd y camau priodol i ddiogelu eu hunain.

Gyda chymorth arbenigwyr lleol, gall eglwysi drefnu sesiynau i gynorthwyo rhieni a gofalyddion i ddeall y maes yn well. Gallai gweithwyr ieuenctid yr eglwys ddefnyddio dulliau hawdd o ledaenu'r neges, e.e. hysbysu plant a'u teuluoedd am gynlluniau megis:

**Y Cynllun 'Click Clever Click Safe'**

Y sefydliad UKCCIS (UK Council for Child Internet Safety) sy'n gyfrifol am y cynllun hwn, sy'n annog plant/pobl ifanc i:



**'Zip it':** Addysgu plant i gadw'u cyfrinair yn gyfrinachol. Parchwch gyfrinachedd gwybodaeth bersonol, a phwyswch a mesur yn ofalus pa wybodaeth y mae'n briodol ei rannu gydag eraill ar-lein. Peidiwch â rhannu'r wybodaeth a ganlyn: enw llawn yr unigolyn, lluniau, cyfeiriad cartref a manylion e-bost, rhifau ffôn, manylion y llefydd y mae pobl ifanc yn hoff o gyfarfod â'i gilydd ayb.



**'Block It':** Gwneud yn siŵr fod plant yn gwybod sut i flocio'r rhai sy'n achosi pryder iddynt. Trefnwch rwystrau ar gyfer y rhai sy'n anfon 'negeseuon casineb', dilëwch negeseuon e-bost amheus, a pheidiwch agor atodiadau a chysylltiadau anhysbys. Mae'r cynllun yn annog pobl ifanc i osod 'meddalwedd amddiffyn' addas.



**'Flag It':** Holwch eich plant yn gyson a ydynt wedi gweld rhywbeth neu wedi gwneud rhywbeth ar-lein sy'n peri pryder iddynt. Rhowch wybod i unigolyn priodol os yw rhywun yn gofyn ar-lein i berson ifanc gyfarfod â nhw, neu os ydych yn pryderu ynghylch gweithgaredd ar-lein o unrhyw fath.

Mae cyngor manwl a hyfforddiant 'diogelwch y Rhyngrwyd' i'w cael gan nifer o fudiadau:

| | |
|---|---|
| **CEOP**<br>Child Exploitation & Online Protection Centre – diogelwch y Rhyngrwyd.<br>Cyngor ac addysg<br>Adrodd am ymddygiad amhriodol 'arlein' | http://www.ceop.police.uk/safety-centre<br>http://www.thinkuknow.co.uk/ |
| **WISEKIDS**<br>Hybu defnydd diogel y Rhyngrwyd | www.wisekids.org.uk<br>40 Wood Crescent, Casnewydd NP10 0AL<br>E-bost: info @ wisekids.org.uk.<br>Ffôn: 01633 673339 / 07540 707258 |
| **Gwefan y BBC – cyngor i rieni**<br>**CBBC Stay Safe (ar gyfer plant)** | http://www.bbc.co.uk/webwise/topics/safety-and-privacy/internet-safety-for-kids<br>http://www.bbc.co.uk/cbbc/topics/stay-safe |
| **Cynllun 'Net Smart' Action for Children**<br>Rheolau sy'n eich cynorthwyo i ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn ddiogel | http://www.actionforchildren.org.uk/our-services/family-support/parenting-support/netsmart |

**2. CANLLAWIAU I'N GWEITHWYR A GWIRFODDOLWYR** i arddel egwyddorion ac arferion Technoleg Gwybodaeth ddiogel o fewn i'r eglwys, ac wrth gyfathrebu gyda phobl ifanc.

a) **Cyfrifiaduron yr eglwys:**

- Os yw'r eglwys yn caniatáu i blant ac eraill ddefnyddio cyfrifiaduron yr eglwys mae'n rhaid wrth ganiatád ysgrifenedig gan rieni/gwarcheidwaid i ddefnyddio'r Rhyngrwyd.
- Gwnewch yn siŵr fod cyfyngiadau priodol (e.e. goruchwyliaeth rhieni neu systemau chwilio diogel) wedi eu gosod ar gyfrifiaduron yr eglwys cyn i'r plant/bobl ifanc eu defnyddio.
- Rhaid osgoi unrhyw weithgaredd ar-lein, neu ddefnydd o raglenni personol a all beryglu'r cyfrifiadur gyda firysau ayb.

b) **Gwefannau:**

- Cyfrifoldeb yr eglwys yw gwneud yn siŵr fod eu gwefannau'n ddiogel ac addas. Dylid penodi oedolyn cymwys/profiadol i arolygu'r wefan.
- Yr eglwys sy'n gyfrifol am holl gynnwys ei gwefan, fforymau, blogiau, trydar neu safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Gall diffyg arolygu arwain at lesteirio enw da'r eglwys, a hyd yn oed goblygiadau ariannol. Ystyriwch yn ofalus beth yw manteision/anfanteision ehangu gwefan i gynnwys byrddau neges/fforymau / blogiau ayb.
- Os ydych am gynnwys enwau swyddogion, a'u rhifau ffôn, rhaid cael eu caniatâd o flaen llaw.
- Mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig rhieni/gwarcheidwaid cyn gosod llun plentyn ar wefan. Cofiwch fod modd i droseddwyr rhyw ddefnyddio'r Rhyngrwyd i adnabod plant neu i gyfathrebu gyda hwy.
- Gosodwch yr 'app' - 'Report Abuse' – a baratowyd gan CEOP (Child Exploitation and Online Protection) ar wefan eich eglwys.

c) **Cysylltu gyda phlant a phobl ifanc trwy ddulliau electronig:**

Nid chwiw mo rhwydweithio cymdeithasol ar-lein. Mae'n newid sylfaenol yn y modd yr ydym yn cyfathrebu gyda'n gilydd.

Facebook, Twitter, Beebo, e-bostio, negeseuon testun, MySpace, Piczo a Skype – maent i gyd yn gyfryngau i ni gysylltu gyda'n gilydd. Mae modd i eglwysi, gweinidogion a gweithwyr yr eglwys ddefnyddio'r cyfryngau hyn yn effeithiol, ond rhaid wrth ymarfer da a gofal priodol.

**Dylai pob eglwys drafod, cytuno a chofnodi sut y maent am gyfathrebu'n electronig gyda phlant a phobl ifanc, a sut i ddefnyddio cyfryngau 'rhwydweithio cymdeithasol' ar-lein gyda hwy.** Bydd rhaid penderfynu a yw'n caniatáu i aelodau grwpiau'r eglwys fod yn 'ffrind electronig' i weithiwr neu wirfoddolwr. **Dylid cofnodi'r penderfyniad hwnnw.**

*Manteision* – creu cysylltiadau cyfoes a chyflym.

***Anfanteision*** – cymylu'r ffin rhwng gweithiwr a'i rôl fel mentor/rhywun mewn awdurdod.

**Dyma rai 'egwyddorion arfer da' o ran gweithgarwch a chyfathrebu ar-lein:**

- Dim ond aelodau staff/unigolion sydd wedi eu recriwtio yn ddiogel a ddylai gyfathrebu'n electronig ar ran yr eglwys.
- Rhaid ymddwyn yn gyfrifol a chwrtais ar-lein. Rhaid bod yn wyliadwrus o'r iaith a ddefnyddir wrth gyfathrebu'n electronig, er mwyn osgoi camddealltwriaeth a chamddehongli.

- Ni ddylid cysylltu'n electronig gyda phlant heb gael caniatâd priodol. (Gellir gwneud hynny trwy ddefnyddio ffurflen ar wahân, neu ei gynnwys ar ffurflen wybodaeth a chaniatâd gyffredinol - gweler Ffurflen 6).
- Ni ddylid rhoi pwysau ar blentyn i ddatgelu manylion personol, e.e. cyfeiriad e-bost, rhif ffôn symudol ayb.
- Rhaid parchu rheolau **isafswm oedran** a osodir gan wahanol safleoedd rhwydweithio. Er enghraifft, ni chaniateir i blant dan 13 oed ddefnyddio Facebook, a dylid sicrhau caniatâd ysgrifenedig rhieni/gwarcheidwaid i hyn ddigwydd o ran pobl ifanc dros 13 oed.
- **Nid yw'n briodol cyfathrebu gyda phlentyn oedran ysgol gynradd – cyfathrebwch gyda'u rhieni / gwarcheidwaid.**
- Arfer da yw trefnu **'trefn atebolrwydd'**, gan ofyn i gydweithiwr fonitro unrhyw gyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn hynod bwysig o ran dulliau cyfathrebu personol megis negeseuon testun neu alwadau ffôn symudol. Ystyriwch yn ofalus a yw'r dulliau cyfathrebu hynny'n briodol. Os ydynt, defnyddiwch negeseuon byr, a hynny er mwyn gwneud trefniadau'n unig.
- Os yw eglwys yn caniatáu i weithiwr gynnwys plant o'r eglwys fel 'ffrindiau', dylai ystyried creu rhestr/categori ffrindiau ar wahân ar gyfer pob grŵp eglwysig. Golygai hyn mai gwybodaeth gyfyngedig yn unig sy'n weladwy i'r rhai sydd ar y rhestrau unigol hynny. Dewis arall yw creu 'Fan Page' sy'n caniatáu trosglwyddo gwybodaeth, ond nad yw'n cynnwys adnodd 'sgwrsio'.
- Dylai unrhyw weithiwr sy'n defnyddio safleoedd cymdeithasol fel modd i gysylltu yn eu gwaith adolygu **gosodiadau preifatrwydd eu proffil**. Rhaid gwneud yn siŵr bod cynnwys y safle'n addas ar gyfer plant, gan gynnwys unrhyw luniau. Cofiwch fod modd i blant weld lluniau/negeseuon/gwybodaeth pobl eraill sydd wedi eu cysylltu â'r safle (e.e ffrindiau 'Facebook').
- Ni ddylai gweithiwr rannu gwybodaeth bersonol gyda phlant a phobl ifanc, nac ychwaith ymateb i, na gofyn am wybodaeth bersonol mwy nag sy'n angenrheidiol a phriodol o ran eu gwaith.
- Yn gyffredinol, dylid defnyddio dulliau electronig er mwyn rhannu gwybodaeth, nid ar gyfer sgwrsio neu er mwyn rhwydweithio cymdeithasol.
- Dylai pob gohebiaeth gyda phlant a phobl ifanc fod yn 'gyhoeddus agored' er mwyn osgoi sefyllfaoedd amheus. Y perygl mwyaf o ran Facebook yw'r gweithgarwch preifat; dim ond chi a'r sawl yr ydych yn gohebu gyda hwy sy'n gweld y negeseuon, felly gofalwch rhag anfon negeseuon. Os yw'n hollol angenrheidiol anfon neges Facebook, anfonwch y neges at nifer o bobl, gan gynnwys arweinwyr eraill eich eglwys. Os yw testun eich 'sgwrs' yn rhy breifat ar gyfer hynny, trefnwch i gyfarfod yr unigolyn, gan ddilyn y canllawiau diogelu arferol sydd wedi'u cynnwys yn y llyfryn hwn.
- Peidiwch â thrafod plant / gweithwyr eraill wrth ddefnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.
- Os bydd plentyn yn cysylltu trwy ddull electronig tra'n wynebu argyfwng neu pan mewn angen, argymhellwn eich bod yn safio'r wybodaeth ac yn mynd ymlaen fel pe baech yn delio gyda phryder amddiffyn plant (gweler Adran 3.2 uchod). Pan fyddwch yn cynorthwyo person ifanc sydd mewn angen, gwell yw trefnu cyfarfod 'wyneb yn wyneb' yn unol â gweithdrefnau arfer da a diogelwch.
- Dylid cyfyngu unrhyw gyfathrebu electronig i'r oriau rhwng 8.00am - 10.00pm
- Pan fyddwch yn anfon e-bost ar ran yr eglwys, defnyddiwch logo'r eglwys os yn bosib.
- Ni ddylai gweithwyr gadw lluniau plant ar eu ffôn symudol.

# 4. Oedolion Bregus

# Adran 4:
## Oedolion Bregus

**Mae'r adran hon yn cynnwys:**

**Datganiad polisi a gwerthoedd yr eglwys ynghylch oedolion bregus**

**4.1 Arfer da wrth weithio gydag oedolion bregus**

A. Egwyddorion arfer da

B. Canllawiau ymarferol cyffredinol:

1) Cynllunio gweithgareddau
2) Lleoliadau diogel
3) Staffio
4) Cymorth Cyntaf
5) Bwyd a diod
6) Cofnod Damweiniau a Digwyddiadau
7) Yswiriant

**4.2 Amddiffyn Oedolion Bregus**

A. Sut all oedolyn gael ei gam-drin?

B. Pwy sy'n cam-drin pobl fregus?

C. Categorïau o gam-drin ac arwyddion posibl

CH. Ymateb cyntaf i bryder neu honiad o gam-drin

D. Sut i ymateb os bydd oedolyn yn dweud wrthych eu bod yn cael eu cam-drin

DD. Siart llif – beth i'w wneud os byddwch yn clywed, gweld neu'n amau rhywbeth

## Cyflwyniad

Fel cymuned eglwys rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnig amgylchedd diogel a gofalgar. Mae gan yr eglwys ymrwymiad i ddilyn arferion da ac egwyddorion mewn perthynas â gofalu am oedolion bregus ac i gyfrannu at y gwaith o wneud ein cymunedau yn fwy diogel ac yn rhydd rhag rhagfarn.

Mae'r eglwys gyfan yn dymuno gweld pawb, yn cynnwys grwpiau bregus yn ein cymdeithas, yn cymryd rhan ym mywyd yr eglwys mewn amgylchedd sy'n eu cynorthwyo i dyfu'n ysbrydol ac yn gofalu amdanynt yn gyfrifol.

Mae pobl fregus yn rhan amlwg o'n cymunedau. Gall anghenion unigolion newid; gall fod angen gofal a chymorth arnynt i fyw gartref neu mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion.

Mae'n rhaid i aelodau eglwysi sy'n ymweld â chartrefi pobl ac ysbytai neu'n trefnu gweithgareddau o fewn yr eglwys fod yn effro i arwyddion o ofal gwael a diffyg cefnogaeth. Gall hyn gynnwys aelodau o'r teulu estynedig, a gall gynnwys gwrando ar y rheini sy'n pryderu ynghylch oedolion bregus.

**Datganiad polisi**

Polisi Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru yw diogelu lles yr holl oedolion bregus yr ydym yn gweithio gyda hwy. Fel eglwysi, rydym yn gwbl ymrwymedig i ddiogelu lles ein haelodau a'r rheini a roddwyd yn ein gofal. Bydd aelodau'r eglwys, aelodau staff cyflogedig a gwirfoddolwyr yn dangos parch i eraill bob amser, yn hybu ethos o wrando ar bobl fregus a sicrhau eu diogelwch, gan ymddwyn mewn modd sy'n adlewyrchu egwyddorion yr Eglwys Gristnogol.

Bydd yr eglwys yn gofalu am oedolion bregus, ac yn eu diogelu trwy ddilyn arferion da mewn perthynas â'r canlynol:-

**Recriwtio gweithwyr yn ddiogel** (adran 2)
**Hybu arferion gwaith da gydag oedolion bregus** (adran 4.1)
**Hyfforddi a chefnogi eu gweithwyr yn eu swyddogaeth ac mewn amddiffyn oedolion bregus** (adran 4.2)

Dylai'r gweithdrefnau a'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon fod ar gael i bob gweithiwr, arweinydd ac aelod o fewn yr eglwys.

**Pwy sy'n 'oedolyn bregus'?**

Ystyr oedolyn bregus yw rhywun 18 oed a throsodd sydd o bosibl:

- angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd, oedran neu salwch, ac nad yw'n gallu gofalu amdano ei hun, neu
- yn methu amddiffyn ei hun rhag niwed neu gamfantais gan eraill.

Gall oedolyn bregus fod ag anabledd dysgu, anghenion iechyd meddwl, nam corfforol neu ar y synhwyrau, neu'n oedrannus ac eiddil.

Eto i gyd, yng nghyd-destun gweithgaredd a reoleiddir gydag oedolion, mae'n bwysig nodi bod y diffiniad yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a ddarperir; golyga hyn y bydd oedolyn yn cael ei ystyried yn fregus *ar yr adeg benodol honno*. Er enghraifft, bydd yr unigolyn yn cael ei ystyried yn fregus ar yr adeg pan fydd yn derbyn cymorth gyda gofal personol. Nid yw oedolion yn cael eu labelu'n 'fregus' yn rhinwedd eu nodweddion personol neu leoliad.

**Gwerthoedd**
Gwneir pob bod dynol gan Dduw yn ei ddelwedd ef. Delwedd Duw yw Ei rodd i ni. Roedd Iesu yn trin pawb â thrugaredd a pharch, yn enwedig y rheini a oedd yn fwyaf bregus.

Mae gennym Dduw gofalgar a thrugarog ac rydym ni hefyd yn cael ein galw i ddangos Ei gariad a'i drugaredd wrth i ni weithio gydag eraill, yn enwedig y rhai mwyaf bregus.

*Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, y Tad sy'n trugarhau a rhoi pob diddanwch, y mae'n ein diddanu ym mhob gorthrymder, er mwyn i ninnau, trwy'r diddanwch a gawn ganddo ef, allu diddanu'r rhai sydd dan bob math o orthrymder.* (2 Corinthiaid 1:3-4)

Mae gan eglwysi heddiw gyfle unigryw i ddangos cariad, gofal a thrugaredd Iesu. Dylai pob eglwys, yn ei haddoliad, ei chymdeithas a'i chenhadaeth, geisio delweddu cymuned lle:-

- mae pawb yn cael gwrandawiad ac ymdeimlad o berthyn, yn cael eu magu a'u diogelu;
- mae gofalwyr yn cael eu cefnogi a'u hannog;
- mae'r rheini sy'n gweithio gyda phobl fregus yn cael eu cefnogi.

Mae'r eglwys yn cydnabod hawl pob un i gael eu trin fel unigolion yn gyntaf, ni waeth beth yw eu hamgylchiadau, ac i'w hannog a'u cynorthwyo i gymryd rhan ym mywyd yr eglwys.  Mae'n datgan nad yw ymddygiad bygythiol, treisgar neu ddiraddiol byth yn dderbyniol.

Mae'r eglwys yn cydnabod fod gan bawb hawl i breifatrwydd, i fyw mor annibynnol â phosibl ac i benderfynu sut i fyw eu bywydau. Mae gan bawb hawl i ddinasyddiaeth lawn, ni waeth beth yw eu hil, rhywioldeb, anabledd, oedran neu grefydd.

Mae'r eglwys yn dymuno hybu arferion gwaith da, a chreu amgylchedd diogel a chadarnhaol ar gyfer pobl fregus yn ein heglwysi a'u cymunedau ac i'r rheini sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn ein plith.

## 4.1 Arfer da wrth weithio gydag oedolion bregus

O fewn ein heglwysi mae gennym nifer o bobl fedrus a thrugarog sy'n rhannu eu hamser, doniau a'u ffydd wrth weithio gyda phobl fregus o fewn ein cymunedau eglwysig.

Er bod llawer o'r wybodaeth yn yr adran hon yn ymddangos yn "synnwyr cyffredin", mae'n bwysig bod ein gwahanol dimau ac eglwysi yn gweithio tuag at yr un safonau uchel yn ein gwaith gydag oedolion bregus. Mae hyn hefyd o gymorth wrth i ni rannu ein disgwyliadau ynghylch swyddogaethau gyda gweithwyr a gwirfoddolwyr newydd

Nid bwriad arfer da a deddfwriaeth yw cyfyngu ar waith bugeiliol ein heglwysi mewn unrhyw ffordd, ond yn hytrach dangos ein hymrwymiad i ddiogelu a gweithredu'r arfer gorau.

**A. EGWYDDORION ARFER DA**

1. Gwrandewch er mwyn darganfod beth yw dymuniadau'r unigolyn.
2. Dylid sicrhau bod cyfle i bawb gymryd rhan neu beidio, yn ôl eu dymuniad. Peidiwch byth â gorfodi unrhyw un i gymryd rhan mewn gweithgaredd. Dylid sicrhau bod unigolion yn deall yn iawn y dewisiadau a gynigir iddynt.
3. Peidiwch â chymryd unrhyw beth yn ganiataol. Er enghraifft, gofynnwch a yw'r unigolyn yn fodlon i chi ddefnyddio ei enw cyntaf.
4. Defnyddiwch iaith gadarnhaol a phriodol, a gofynnwch am gyngor os bydd gan yr unigolyn rydych yn ymdrin ag ef/hi anghenion cyfathrebu penodol.
5. Parchwch annibyniaeth yr unigolyn.  Peidiwch ag annog yr unigolyn i ddod yn ddibynnol arnoch.
6. Dylech drin yr unigolyn ag urddas bob amser a pharchu ei breifatrwydd, yn enwedig wrth roi cymorth gydag anghenion gofal personol.
7. Pan fyddwch yn ymweld â phobl, cofiwch gnocio ar y drws cyn mynd i mewn i'r adeilad neu ystafell.
8. Byddwch yn ymwybodol o hyd yr ymweliadau.
9. Pan fyddwch yn ymweld ag ysbytai neu gartrefi gofal, dylech bob amser ddweud wrth aelod o staff eich bod yno.
10. Mae cyffyrddiad yn rhan hanfodol o fywyd pob dydd ac yn ffordd o gyfleu hoffter, cynhesrwydd a chysur. Dylech ystyried pa mor addas yw cyffyrddiad corfforol, ni waeth pa un ohonoch wnaeth gymryd y cam cyntaf. Mae gennym oll ein ffiniau gwahanol a dylid eu parchu. Mae gafael llaw neu gofleidio yn ffordd dda o gynnig cysur, ond gofynnwch yn gyntaf yn hytrach na rhagdybio.
11. Pan fyddwch yn ymdrin â materion ariannol unigolyn, mae'n hanfodol eich bod yn ymddwyn yn onest, diffuant a thryloyw.
12. Ni ddylech gymryd rhan mewn gwaith bugeiliol sydd y tu hwnt i'ch cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd.
13. Peidiwch â diystyru unrhyw bryderon sydd gennych ynghylch diogelwch rhywun. Ceisiwch gyngor neu cyfeiriwch y mater ar unwaith.
14. Yn ogystal â bod yn ymwybodol o ddiogelwch yr unigolion bregus, dylech hefyd fod yn ymwybodol o'ch diogelwch personol ac amddiffyn eich hun rhag honiadau. Dylid ymddwyn yn agored, tryloyw ac atebol.
15. Yn gyffredinol, peidiwch â derbyn rhoddion neu roddion ariannol. Os byddwch yn tramgwyddo neu'n pechu rhywun drwy wrthod y rhodd, dylech sicrhau eich bod yn dweud wrth flaenor/ diacon neu arweinydd cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn osgoi unrhyw gyhuddiad neu ddryswch yn y dyfodol.
16. Byddwch yn ddoeth wrth ymweld ag eraill ar eich pen eich hun.
17. Dylech osgoi ymweld â phobl fregus gyda'r nos ac eithrio mewn achosion brys.

## B. CANLLAWIAU YMARFEROL CYFFREDINOL

Wrth weithio gyda phobl fregus, efallai y byddwch yn gweithio mewn grwpiau neu un wrth un gydag unigolyn. Nid yw'r holl bwyntiau hyn yn berthnasol i bob sefyllfa. Mae'n bwysig nodi nad yw'r gweithdrefnau hyn yn gymwys pan fydd unigolion yn ymweld â phobl 'fel ffrindiau', yn hytrach nag fel rhan o 'weinidogaeth' ffurfiol yr eglwys, er y gall hyn fod yn anodd i'w ddiffinio.

**1) Wrth gynllunio a pharatoi gweithgareddau byddwch yn ymwybodol o'r trefniadau ymarferol canlynol:-**

- Dylech ofyn am ganiatâd yr unigolyn bob amser cyn gwneud unrhyw weithgareddau gyda hwy. Fel arfer, gellir gofyn am ganiatâd ar lafar.
- Mae gan sefydliadau gyfrifoldeb i asesu'r risg sydd ynghlwm wrth y gweithgareddau a ddarperir. Mae templed asesiad risg yn rhestr wirio ddefnyddiol i sicrhau eich bod wedi ystyried y problemau a'r peryglon posibl sydd ynghlwm wrth y gweithgaredd ac o gymorth i gynllunio camau neu weithredoedd priodol (gweler ffurflen 10). Rydym yn cynnal asesiadau risg anffurfiol drwy'r amser heb feddwl. Er enghraifft, byddwn yn dweud, "Mae'n rhy beryglus i ddringo ar ben y gadair, af i nôl ysgol... " Weithiau bydd cynnal asesiad risg anffurfiol cyn dechrau gweithgaredd yn ddigonol, ond yn achos gweithgareddau a drefnir ar gyfer grwpiau mae'n arfer da i gynnal asesiad risg ysgrifenedig o leiaf unwaith y flwyddyn. Gellir rhannu'r ddogfen hon gyda'r ymddiriedolwyr a'r rheini sy'n gweithio gyda'i gilydd yn ystod gweithgaredd. (Gweler canllawiau pellach yn Atodiad 4).
- Lle bo hynny'n bosibl, dylai pob gweithgaredd grŵp gynnwys rhywun gyda chymhwyster Cymorth Cyntaf.
- Dylech sicrhau bod ffôn wedi'i gosod yn yr adeilad neu bod ffôn symudol ar gael yn ystod pob gweithgaredd er mwyn galw am gymorth.

**2) Lleoliadau diogel**

- Dylid sicrhau bod yr holl safleoedd/lleoliadau a ddefnyddir gan yr eglwys yn ddiogel ar gyfer cynnal unrhyw weithgaredd.
- Dylai'r adeiladau a ddefnyddir gan grwpiau neu ar gyfer gweithgareddau gael eu cynnal a'u cadw'n gywir. Dylai adeiladwaith allanol yr adeilad, yn cynnwys yr holl osodiadau mewnol, ffitiadau, goleuadau, allanfeydd tân ac offer, gwrdd â'r safonau diogelwch gofynnol. Hefyd, dylid cynnal arolwg blynyddol, a lle bo'r angen, dylid cymryd y camau priodol. Dylai'r holl offer trydanol gael prawf diogelwch trydanol. Yn y Deyrnas Unedig, gelwir y profion hyn yn brofion dyfeisiadau cludadwy neu PAT (Portable Appliance Testing).
- Dylech fod yn ymwybodol bob amser o'r peryglon neu risgiau posibl yn yr eiddo / adeilad ac yn yr offer a'r gweithgareddau. Mewn adeilad, gellir ystyried y canlynol yn beryglus: carpedi rhydd, lloriau anwastad, cypyrddau gorlawn, silffoedd uchel iawn, allanfeydd tân sydd wedi'u rhwystro, drysau gwydr, goleuadau heb fylbiau ynddynt, pwyntiau pŵer sydd wedi'u gorlwytho, ceblau trydan yn hongian yn rhydd, bachau ffenestri rhydd. Byddwch yn ymwybodol o'r rhain yn adeilad yr eglwys a hefyd yn y mannau yr ydych yn ymweld â hwy er mwyn cadw eich hun yn ddiogel.
- Dylech symud eitemau a allai achosi anaf yn ystod gweithgaredd, neu dylech eu hosgoi.
- Byddwch yn ymwybodol o leoliad allanfeydd tân, a sicrhewch nad ydynt wedi'u rhwystro. Dylech wybod ym mha le mae'r diffoddwyr tân agosaf. Dylai unigolyn cymwys eu harchwilio'n rheolaidd. Dylid cynnal ymarferiad tân yn achlysurol er mwyn sicrhau bod pawb yn gyfarwydd â'r drefn o adael yr adeilad os bydd tân. Mae'n ddefnyddiol cadw cofnod o'r ymarferiadau.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw ardal pan fydd gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud, a rhowch 'sgrîn' o amgylch ardaloedd o'r fath os yn bosibl.

3) **Staffio**

- Dylid sicrhau bod digon o staff a gwirfoddolwyr i gwblhau'r holl dasgau yn ddiogel ac yn effeithiol ac i roi cymorth i'w gilydd.

4) **Bwyd a diod**

Os bydd bwyd a diod yn cael eu darparu yn ystod gweithgaredd, dylid ystyried y canlynol:

- Dylai gweithwyr ddilyn egwyddorion hylendid personol.
- Dylid glynu at reoliadau iechyd a hylendid sylfaenol.
- Dylid storio bwyd a diod yn briodol.
- Dylid bod yn ofalus iawn gyda diodydd poeth.
- Dylid sicrhau goruchwyliaeth briodol yn ystod amseroedd bwyd a byrbrydau.
- Dylid sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael bob amser.
- Bod systemau ar waith i sicrhau nad yw'r rheini sydd yn fregus yn cael mynediad at fwyd/diodydd y mae ganddynt alergedd iddynt. Ymhlith y bwydydd/diodydd mwyaf cyffredin mae cnau, llaeth, wyau, pysgod, pysgod cregyn a glwten.
- Os bydd prydau yn cael eu paratoi, dylai bod gan y sawl sy'n gyfrifol Dystysgrif Hylendid Bwyd Sylfaenol neu gymhwyster cyfatebol, a gwybodaeth am faterion megis paratoi, trin a storio bwyd, gwaredu gwastraff ac ati.

5) **Cymorth Cyntaf**

Dan y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf), mae'n ddyletswydd ar bob cyflogwr i ddarparu o leiaf un blwch Cymorth Cyntaf ym mhob lleoliad gwaith. Dylid cadw cynnwys y blwch mewn cynhwysydd sy'n dal dŵr a dylai'r gweithiwr penodedig archwilio'r cynnwys yn rheolaidd.

6) **Cofnod Damweiniau a Digwyddiadau**

Dylid cofnodi unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiad, gan nodi dyddiad y digwyddiad, manylion y tystion ac unrhyw gamau pellach y dylid eu cymryd. (Gweler Ffurflen 9: Ffurflen Damwain neu Ddigwyddiad)

7) **Yswiriant**

- Dylech sicrhau bod unrhyw weithgaredd wedi'i gynnwys yn y Polisi Yswiriant sydd yn enw'r eglwys leol neu adran berthnasol yr enwad.
- Yn amlwg, mae arfer da yn lleihau'r risg, fodd bynnag, dylid hefyd sicrhau bod yswiriant digonol ar gyfer pob gweithgaredd.
- Dylid cymryd camau priodol i atal unrhyw anaf, golled neu niwed o unrhyw fath, ac i adnabod unrhyw sefyllfa lle gallai pobl fregus gael eu niweidio yn ystod gweithgareddau'r eglwys.
- Os bydd damwain / damwain fu bron a digwydd, neu os amheuir bod cam-drin neu os caiff achos o gam-drin ei ddarganfod, mae'n hanfodol rhoi gwybod i'r cwmni yswiriant ar unwaith, neu gellid effeithio'n andwyol ar yr yswiriant.

## 4.2 Amddiffyn Oedolion Bregus

**A. Sut all oedolyn gael ei gam-drin?**
Mae'n bwysig bod y rheini sy'n gweithio gyda phobl fregus yn gallu adnabod arwyddion a symptomau o gam-drin, oherwydd yn aml iawn nid ydynt yn gallu neu'n fodlon gofyn am gymorth yn uniongyrchol.

Diffinnir cam-drin fel:

> *Amharu ar hawliau dynol a sifil unigol unigolyn gan berson neu bersonau eraill a hynny'n arwain at niwed sylweddol.* (*Mewn Dwylo Diogel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2000*)

Gall cam-drin fod :

- yn weithred unigol neu a ailadroddir, neu'n weithredoedd lluosog;
- yn ddiffyg gweithredu priodol;
- wedi'i gyflawni o ganlyniad i fwriad bwriadol;
- yn esgeulustod neu anwybodaeth; a/neu
- yn weithred o anwaith (methu â gweithredu) neu esgeuluso.

Gall cam-drin gynnwys dwyn perswâd neu orfodi oedolyn bregus i dderbyn trefniant ariannol neu rywiol nad ydyw wedi, neu na allai, gydsynio iddo. Gall cam-drin ddigwydd mewn unrhyw berthynas ac, yn y bôn, bradychu ymddiriedaeth ydyw, gan gynnwys methu â bodloni dyletswydd gofal.[15]

**B. Pwy sy'n cam-drin pobl fregus?**
Gall cam-drin ddigwydd o fewn y teulu, mewn adeilad sy'n perthyn i sefydliad, neu yn y gymuned yn ehangach. Gall pobl fregus gael eu cam-drin gan bobl y maent yn eu hadnabod neu, yn llai cyffredin, gan ddieithryn.

- Yn aml, rhywun y mae'r unigolyn bregus yn ei adnabod yw'r camdriniwr.
- Weithiau, gall y camdriniwr fod yn oedolyn sydd yn dal swydd o awdurdod a/neu ymddiriedaeth; gallai hyn fod yn wir o fewn yr eglwys.
- Gall y camdriniwr ddod o unrhyw gefndir.
- Gall camdriniwr fod yn wryw neu'n fenyw.
- Nid oes un ffordd sicr o adnabod rhywun a allai fod yn gamdriniwr; nid yw'n ymddangos yn wahanol i weddill cymdeithas.

15 (Tachwedd 2010) Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Bregus rhag cael eu Cam-drin

C. Categorïau o gam-drin ac arwyddion posibl

| Math | Diffiniad | Arwyddion Posibl |
|---|---|---|
| **CORFFOROL** | Gall fod yn weithred neu yn ddiffyg gweithredu, yn cynnwys taro, cicio, anafu bwriadol, llosg bwriadol, diffyg maeth, diffyg ymgeledd a gofal personol. Creu amgylchedd perygl yn fwriadol. Camddefnydd o feddyginiaeth. Gwrthod gweinyddu meddyginiaeth neu ddefnydd amhriodol o feddyginiaeth er mwyn cyfyngu rhywun. Cyfyngu cwsg. Gorfodi rhywun i weithio mewn sefyllfa anniogel. | • Hanes o anafiadau anesboniadwy.<br>• Cleisiau, yn benodol rhai mewn mannau cuddiedig neu â siâp amlwg.<br>• Dolur gwasgu.<br>• Hypothermia.<br>• Diffyg hylif.<br>• Glanweithdra personol gwael.<br>• Gor-gysglyd.<br>• Cofnodion meddygol gwallus. |
| **RHYWIOL** | Unrhyw weithred rywiol na fu cydsyniad iddi.<br>Gwadu mynegiant rhywiol neu wrthod diwallu anghenion o fewn terfynau derbyniol cymdeithas. | • arwyddion corfforol - gwaedu, doluriau a heintiau.<br>• Poen stumog.<br>• Ymddygiad sydd tu hwnt i ddealltwriaeth unigolyn bregus.<br>• Newid mewn ymddygiad.<br>• Hunan anafu, mewnblyg/allblyg. |
| **SEI-COLEGOL** | Bygythiadau, bwlio, aflonyddu, bychanu, gwadu hawliau dynol, gwadu preifatrwydd. Gwadu parch ac urddas, peidio cynnwys yr unigolyn wrth wneud penderfyniadau, gor-amddiffyn, gwadu hawl i gymryd risg, cywilyddio, hiliaeth, eithrio, caethiwo.<br>Defnydd amhriodol o gred. Cam-drin geiriol, achosi rhywun i deimlo'n ddiwerth. | • Aflonydd, anghyffyrddus, distaw yng nghwmni gofalydd.<br>• Cwyno am fychanu.<br>• Iselder.<br>• Ofn gwneud penderfyniadau.<br>• Newid patrwm bwyta a chysgu.<br>• Dagreuol, teimlo bod y byd ar ben.<br>• Gofalydd yn siarad yn amhriodol neu yn ddilornus |
| **ARIANNOL NEU FATEROL** | Dwyn, twyll, pwysau i newid ewyllys, camddefnydd o fudd-daliadau. | • Methiant anesboniadwy i dalu biliau, codi pres o gyfrif yn ddireswm.<br>• Anghysondeb rhwng asedau ac amodau byw.<br>• Amharod i dderbyn cymorth.<br>• Pethau'n mynd ar goll e.e. gemwaith a thlysau.<br>• Gofalwyr yn dangos diddordeb anarferol mewn arian ac asedau person bregus. |
| **ESGEULUS-TRA** | Diffyg gofal gan gynnwys diffyg mynediad/cyfyngu ar fynediad i ofal iechyd. Methiant i ddarparu gofal, yn cynnwys gofal meddygol. Methu asesu risg. Methu gweinyddu meddyginiaeth. Methiant o ran maeth, gwres neu ofal personol. | • Glanweithdra personol gwael.<br>• Unigrwydd ac iselder.<br>• Diffyg maeth, doluriau gwasgu, dim digon neu ormod o feddyginiaethau.<br>• Anarferol o flêr yr olwg.<br>• Diffyg gofal sylfaenol.<br>• Gosod mewn safle o risg yn fwriadol.<br>• Diffyg gwres. |

## CAMDRINIAETH SEFYDLIADOL

Mae camdriniaeth sefydliadol yn ddiffyg gofal a chynhaliaeth briodol sy'n deillio o ymarfer gwael ar draws y ddarpariaeth gofal.

Mae camdriniaeth sefydliadol yn cael lle i fagu pan fo dymuniadau a dyheadau unigolion yn cael eu haberthu i gynnal trefn sefydliad neu wasanaeth.

Gall gweithredu trefniadau, ymarfer, polisïau a chanllawiau yn haearnaidd gan ddarparwyr gofal gael effaith negyddol ar hawl unigolyn i barch, annibyniaeth, urddas a dewis.

**Dangosyddion posib o gamdriniaeth sefydliadol:**

- Staff heb hyfforddiant a goruchwyliaeth addas
- Diffyg rheolaeth sy'n tanseilio cydweithio, syniadau a datblygiadau newydd
- Gofal anhyblyg e.e. amser gwely penodol, amser toiled penodol i bawb
- Diffyg dillad a phethau personol
- Diffyg symbyliad a dewis o weithgareddau
- Diffyg dewis o ran addurn y sefydliad
- Diffyg dewis a chynllunio o ran bwydlenni
- Defnydd amhriodol o dechnegau meddygol
- Camddefnyddio pŵer a rheolaeth
- Diffyg parch ac urddas tuag at unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth
- Diffyg cydnabyddiaeth i unigrywiaeth unigolyn o ran gwisg, daliadau, cred, maeth neu ddiwylliant

## CH. Ymateb Cyntaf i Bryder neu Honiad o Gam-drin

Os bydd pryder bod oedolyn bregus wedi cael ei gam-drin, neu os gwneir honiad uniongyrchol o gam-drin, mae'n bwysig bod yr unigolyn sy'n derbyn yr wybodaeth hon yn dilyn y camau canlynol:

1) **Gwnewch nodiadau cyn gynted â phosibl:**

- Gwnewch gofnod ysgrifenedig o'r union eiriau a ddywedwyd, pryd y dywedwyd hyn, beth a ddywedwyd mewn ymateb, a beth oedd yn digwydd yn union cyn hyn (e.e. disgrifiad o'r gweithgaredd). (Gallwch ddefnyddio ffurflen 11 Adran 7 Ffurflen Nodi Pryder).
- Disgrifiwch unrhyw anaf, ei faint a darlun o'i leoliad a'i siâp. Gwnewch gofnod ysgrifenedig o ddyddiadau ac amseroedd y digwyddiadau hyn a phryd y gwnaed y cofnod.
- Gwnewch gofnod ysgrifenedig o unrhyw gamau a gymerwyd a chadwch unrhyw nodiadau mewn llawysgrifen hyd yn oed os byddant yn cael eu teipio'n ddiweddarach.
- Dylid rhoi'r nodiadau hyn i gydlynydd diogelwch yr eglwys i'w gynorthwyo petai angen cyfeirio'r mater i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion neu'r heddlu. Dylid cadarnhau unrhyw atgyfeiriad yn ysgrifenedig o fewn 48 awr a dylech gael cydnabyddiaeth o'ch atgyfeiriad ysgrifenedig o fewn un diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd ei dderbyn.
- Os nad oes cydlynydd diogelwch yn eich eglwys neu os nad oes modd cysylltu â'r cydlynydd diogelwch, neu'r dirprwy, neu os mai hwy yw testun y pryderon, dylid cysylltu â'r asiantaethau statudol ar unwaith.

2) **Ceisiwch gyngor:**

- Os nad oes cydlynydd diogelwch yn eich eglwys gallwch gysylltu â Swyddog Diogelwch y Panel Diogelwch Cydenwadol neu Ysgrifennydd Cyffredinol eich enwad.
- Gall 'The Churches Child Protection Advisory Service (CCPAS)'[16] hefyd gynnig cyngor annibynnol ac mae gan y gwasanaeth linell gymorth gyfrinachol 24 awr, a gwefan.

3) **Mewn achosion brys:**

- Os bydd pryderon bod rhywun wedi'i anafu'n fwriadol neu mewn perygl o ddioddef 'niwed sylweddol', cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion neu'r Heddlu ar unwaith.
- Os oes angen gofal meddygol brys dylid ffonio am ambiwlans neu dylid eu cludo i'r ysbyty.

4) **NI DDYLID:**

- Ymchwilio i unrhyw amgylchiadau, honiadau neu ddatgeliadau eich hun. Nid eich lle chi na'r eglwys yw penderfynu a ddigwyddodd yr achos o gam-drin ai peidio. Eich cyfrifoldeb yw adrodd am y mater i'r unigolyn priodol.

**D. Sut i ymateb os bydd oedolyn bregus yn datgelu achos o gam-drin**

- Byddwch yn amyneddgar, gan ddangos cydymdeimlad â'r achwynydd.
- Gwrandewch yn ofalus, ond peidiwch â holi'r unigolyn ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd na phwyso arnynt i ddatgelu mwy o wybodaeth.
- Dangoswch eich bod yn derbyn yr hyn mae'n ei ddweud drwy ailadrodd geiriau neu ymadroddion byr a ddefnyddir gan yr unigolyn.
- Dylech sicrhau'r unigolyn ei fod yn gwneud y peth iawn drwy ddatgelu'r wybodaeth i chi, a'ch bod yn ystyried yr wybodaeth o ddifrif.
- Os bydd yr achwynydd yn rhannu gwybodaeth â chi, cysurwch ef/hi, esboniwch eich bod yn ystyried yr wybodaeth yn ddilys, yna rhannwch yr wybodaeth ag unigolyn priodol.
- Os ydych o'r farn bod oedolyn bregus mewn perygl difrifol, cysylltwch â'r Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ar unwaith.

**Dylech:**

- ddweud wrth yr unigolyn beth rydych yn bwriadu ei wneud a gyda phwy y byddwch yn rhannu'r wybodaeth a pham, ac – yn syml iawn – beth fydd yn digwydd nesaf.
- gadw nodiadau manwl cyn gynted â phosibl wedi'r datgeliad, eu dyddio a'u llofnodi. Glynwch at y ffeithiau a pheidiwch â mynegi eich barn. Fe all eich adroddiad/nodiadau gael eu defnyddio yn y dyfodol mewn llys barn.


**Ni ddylech:**

- addo cadw unrhyw achos o gam-drin y byddwch yn clywed amdano yn gyfrinach. Er enghraifft, peidiwch â dweud. "Ni fydd hyn byth yn digwydd i chi eto" neu "Wna i ddim sôn am hyn wrth unrhyw un arall".
- fynegi sioc neu anghredinaeth.
- drafod y mater gyda'r unigolyn a gyhuddir neu a amheuir o gyflawni'r drosedd. Ni ddylech, ar unrhyw gyfrif, ymchwilio i unrhyw amgylchiadau, honiadau na datgeliadau. Nid eich lle chi na lle'r eglwys yw penderfynu a ddigwyddodd yr achos o gam-drin ai peidio. Eich cyfrifoldeb yw adrodd am y mater i'r unigolyn priodol.

---

16 CCPAS (The Churches' Child Protection Advisory Service) yw'r unig elusen ddiogelwch Gristnogol annibynnol 0845120 45 50 http://www.ccpas.co.uk/About.html

## DD. SUT I YMATEB OS BYDDWCH YN: CLYWED, GWELD neu AMAU RHYWBETH?



Rydych wedi CLYWED,GWELD neu AMAU bod oedolyn wedi dioddef camdriniaeth neu esgeulustod

↓

Gwnewch nodiadau manwl o’r hyn a ddywedwyd wrthych, neu’r hyn a welsoch, neu’r hyn rydych yn ei amau (gweler Ffurflen 11).

↓

**A YDYNT MEWN PERYGL DYBRYD?**

**Ydyn**

↓

Cysylltwch â’r gwasanaethau brys neu’r tîm gwasanaethau cymdeithasol ar ddyletswydd yn ddi-oed

↓

Gallwch gysylltu â swyddog diogelu y panel i gael cymorth neu gyngor
01745 817584
07957 510346
*neu*
cysylltwch ag ysgrifennydd cyffredinol eich enwad

**Nac ydyn**

↓

Ceisiwch gyngor gan swyddog diogelu eich eglwys / swyddog diogelu y panel

*neu*

cysylltwch â’r tîm gwasanaethau cymdeithasol lleol

Mae rhifau ffôn ar gael ar wefan yr awdurdod lleol

OS YDYCH YN AMAU NEU YN ANSICR FFONIWCH AM GYNGOR

# 5. Gofal Bugeiliol

# Adran 5:
## Gofal bugeiliol

**Yn yr adran hon, ceir gwybodaeth am y canlynol:**

5.1 Cefnogaeth i bobl a gafodd eu cam-drin yn y gorffennol

5.2 Cefnogaeth i'r rheini a effeithir gan honiadau o gam-drin a datgeliadau

5.3 Arfer da wrth ymdrin â phobl sy'n droseddwyr neu'n gamdrinwyr hysbys

5.4 Triniaeth i droseddwyr a ffynonellau cymorth

## Cyflwyniad

Dylai unrhyw sefydliad sydd yn ymwneud â phlant, pobl ifanc neu oedolion fod yn ymwybodol y gall y rheini sy'n dod drwy'r drysau fod wedi cael eu heffeithio gan gam-drin ar ryw adeg yn eu bywydau. Gall fod yn ddigwyddiad o'r presennol, y gorffennol pell neu agos, ond gall yr effeithiau fod yn ddinistriol nid yn unig i'r unigolyn a gafodd ei gam-drin ond hefyd i aelodau'r teulu, ffrindiau a grwpiau cymdeithasol.

Mae gan yr eglwys gyfle unigryw i gynnig gweinidogaeth fugeiliol sensitif i bawb a effeithir ond mae'n rhaid i ni hefyd fod yn gyfrifol a deall ein cyfyngiadau. Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o bobl angen cyngor arbenigol, ond gall y gymuned eglwysig gynnig amgylchedd cefnogol a gofalgar a chymorth i gael mynediad at y gefnogaeth a'r cymorth cywir.

Mae gwahaniaeth rhwng cwnsela a gwrando / gofal bugeiliol. Maent oll yn werthfawr ac yn aml yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd, ond mae'n bwysig bod y gwaith o gwnsela yn cael ei roi yn nwylo pobl a chanddynt gymwysterau priodol. Gall problemau godi pan na fydd ffiniau'n cael eu parchu, a bydd unigolion da eu bwriad ond amhrofiadol yn ymgymryd â gwaith cwnsela. Mae cwnsela yn waith cymhleth, yn enwedig mewn achosion o gam-drin rhywiol, ac yn gofyn am gryn fedrusrwydd a hyfforddiant.

## 5.1 Cefnogaeth i bobl a gafodd eu cam-drin yn y gorffennol

O fewn eich eglwys, mae'n bosibl bod oedolion a gafodd eu cam-drin yn ystod eu plentyndod ond sydd bellach yn aelodau o'r gymuned eglwysig. Efallai nad ydynt erioed wedi datgelu neu ddod i delerau â'r hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol. Gallai'r cam-drin fod wedi digwydd mewn lleoliad eglwysig neu beidio.

> *"Ceir tystiolaeth gadarn nad yw nifer y bobl o fewn yr eglwys sydd wedi cael eu cam-drin yn llai nag yng ngweddill y gymdeithas"*[17]

Gall derbyn hyfforddiant mewn perthynas â cham-drin hefyd ddeffro atgofion am ddigwyddiadau o orffennol y gweithiwr, gan achosi cryn drawma neu ofid.

Mae'r rheini sydd wedi cael eu cam-drin angen rhywun i wrando arnynt, ac i gredu'r hyn maent yn ei ddweud. Mae eu hadferiad yn debygol o fod yn broses hir sy'n gofyn am gymorth neu arweiniad arbenigol. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o sefyllfa fregus unigolion; gall rhai atgyfeiriadau a gweithredoedd, hyd yn oed o fewn yr eglwys, ddeffro atgofion poenus.

Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r canllawiau yr un fath â'r rheini ar gyfer y rhai sy'n datgelu achos o gam-drin cyfredol[18]; gwrandewch arnynt, credwch yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, a rhowch sicrwydd iddynt nad ydynt ar fai.  Dylech roi amgylchiadau'r unigolyn yn flaenaf, yn hytrach na'ch ofnau a'ch amheuon personol. Fel arfer, y dull priodol o gynorthwyo pobl sydd wedi goroesi yw eu hatgyfeirio at weithiwr proffesiynol a chanddo brofiad o ymdrin â materion o'r fath.

Gall oedolion a phlant sydd wedi cael eu cam-drin fod mewn perygl o ddioddef cam-drin pellach.

Mae nifer o sefydliadau yn arbenigo mewn cynnig cymorth i bobl sydd wedi goroesi cam-drin.

**The Survivors Trust** – asiantaeth ambarél ar gyfer dros 135 o asiantaethau arbenigol yn y sector gwirfoddol yn cynnig amryw o wasanaethau cwnsela, therapi a chymorth i ferched, dynion a phlant sydd wedi dioddef/goroesi ar ôl iddynt gael eu treisio, dioddef trais rhywiol, neu gael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod eu plentyndod.
http://www.thesurvivorstrust.org/find-support/

17 CTBI (2002) Rev K Galloway a Rev D Gamble, Time for Action: A Report of Sexual Abuse Issues.

18 Gwleler Adran 4.2 D

**MACSAS** (**Ministry and Clergy Sexual Abuse Survivors**) grŵp cymorth i ddynion a merched o gefndir Cristnogol a gafodd eu cam-drin yn rhywiol pan oeddynt yn blant neu oedolion gan Weinidogion neu Offeiriaid. Gall y grŵp gynnig cymorth i bobl sydd wedi goroesi pa un ai ydynt wedi aros o fewn eu cymunedau Cristnogol neu wedi gadael. http://www.macsas.org.uk/

**NAPAC – National Association for People Abused in Childhood** cymdeithas sy'n ymgyrchu ac yn cynnig cymorth. Mae llinell wybodaeth rhadffon ar gael - 0800 085 3330 a gwefan adnoddau. www.napac.org.uk

## 5.2 Cefnogaeth i'r rheini a effeithir gan honiadau o gam-drin a datgeliadau

Mae gan yr eglwys gyfle unigryw i gynnig gweinidogaeth fugeiliol sensitif i bawb sydd yn ymwneud â hi. Os amheuir bod achos o gam-drin, rhaid sicrhau diogelwch yr unigolyn yn y lle cyntaf, ond mae'n hanfodol hefyd bod yr eglwys yn llunio strwythurau er mwyn cynnig cwnsela a chymorth i weithwyr.

Gellir cynnig cymorth tebyg i bobl eraill sydd yn agos at y plentyn neu'r oedolyn bregus a allai gael eu heffeithio'n andwyol gan yr hyn sydd wedi digwydd. Gall hyn gynnwys y camdriniwr a'r bobl sy'n agos ato/ati, ond y flaenoriaeth bob amser yw diogelwch a lles y plentyn neu'r unigolyn bregus.

Mae gan y gymuned eglwysig ran bwysig i'w chwarae wrth gynnig amgylchedd cefnogol a gofalgar ond mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o bobl angen cyngor a chymorth arbenigol gan weithwyr proffesiynol profiadol neu gwnselwyr.

## 5.3 Arfer da wrth ymdrin â phobl sy'n droseddwyr neu'n gamdrinwyr hysbys

Pan fydd troseddwr hysbys yn ymaelodi ag eglwys, mae'n bwysig bod ef/hi yn cael ei groesawu/chroesawu mewn modd cyfeillgar; fodd bynnag, mae'r un mor bwysig cael sgwrs ddi-flewyn-ar-dafod gyda'r unigolyn. Mae gan yr eglwys gyfrifoldeb i ystyried ac ymateb i'r perygl, ond mae ganddi hefyd gyfle i gynnig cymorth a gofal i'r unigolyn.

Dylid cynnwys Swyddog Diogelwch y Panel Cydenwadol o'r cychwyn cyntaf wrth ymateb i'r sefyllfa, a bydd y swyddog yn cydweithio â'r eglwys ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol o'r asiantaethau statudol i roi cynllun ar waith. Bydd hwn yn gosod ffiniau pendant i amddiffyn y plant / pobl ifanc/oedolion bregus a hefyd i leihau'r posibilrwydd y bydd yr unigolyn yn cael ei gyhuddo ar gam o gam-drin unrhyw un.

Bydd rhan o'r cynllun ar ffurf cytundeb a lofnodir gan y troseddwr ac a fydd yn cael ei adolygu a'i orfodi. Gall gynnwys y datganiadau canlynol:

Dylai'r unigolyn ddilyn y canllawiau canlynol:

- mynychu rhai cyfarfodydd penodol yn unig
- eistedd ar wahân i unrhyw blant
- cadw draw o rannau o'r adeilad lle bydd plant yn bresennol
- mynychu 'grŵp tŷ' nad yw'n cynnwys plant
- gwrthod unrhyw letygarwch pan fydd plant yn bresennol
- peidio byth â bod ar ei ben ei hun gyda phlant
- peidio byth â gweithio gyda phlant

Hefyd

- Rhoddir ystyriaeth i briodoldeb hysbysu'r eglwys. Dim ond ar y cyd â chynllun ffurfiol i ddiogelu'r cyhoedd y dylid gwneud hyn.
- Sicrhau bod arweinwyr allweddol yn ymwybodol o'r sefyllfa a bod pobl ar gael i gynnig cymorth ac i fonitro'r sefyllfa yn lleol.
- Dylai'r troseddwr fod yn ymwybodol o'r canlyniadau petai ef/hi yn torri amodau'r cytundeb. Gall hyn gynnwys cael ei wahardd o'r eglwys ac eglwysi eraill, a rhoi gwybod i'r asiantaethau sydd ynghlwm wrth y cynllun i ddiogelu'r cyhoedd.

# 6. Atodiadau

## 5.4 Triniaeth i droseddwyr a ffynonellau cymorth

Dengys gwaith ymchwil bod y rheini sydd yn derbyn triniaeth yn llai tebygol o ffantasïo am blant neu wadu eu bod wedi niweidio'u dioddefwyr, ac yn dangos mwy o hunan-reolaeth. Felly, maent yn llai tebygol o ail-droseddu. Mae Sefydliad Lucy Faithfull / The Lucy Faithfull Foundation, arbenigwyr cydnabyddedig ym maes troseddu rhyw, yn cynnig cynlluniau asesu ac ymyrraeth yn y gymuned.

Mae'r Sefydliad hefyd yn gyfrifol am 'Stop It Now! UK & Ireland', sy'n darparu llinell gymorth gyfrinachol i oedolion sy'n poeni ynglŷn â'u tueddiadau rhywiol, ynghyd â'r rheini sy'n pryderu ynghylch ymddygiad rhywun arall, megis cymar, perthynas neu ffrind. Dengys y dystiolaeth bod troseddwyr posibl yn fwy tebygol o gysylltu â 'Stop It Now! UK & Ireland' pan fyddant angen cymorth.

**I gael gwybodaeth am atgyfeiriadau, hyfforddiant neu ymgynghori cysylltwch â:**

The Lucy Faithfull Foundation
2 Birch House
Harris Business Park Hanbury Road
Stoke Prior Bromsgrove
B60 4DJ
Tel: 01527 591922
https://www.lucyfaithfull.org.uk

**Stop It Now! UK and Ireland**

https://www.stopitnow.org.uk
llinell gymorth 08081000900

**Circles UK**

Circles of Support and Accountability yn gyfraniad cymunedol arloesol a llwyddiannus i leihau troseddu rhyw, gan weithio mewn partneriaeth agos ag asiantaethau cyfiawnder troseddol.
Abbey House, Abbey Square
Reading  RG1 3BE
0118 9500068
https://circles-uk.org.uk/

# Atodiadau

## Cynnwys

1. Ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth ychwanegol

2a. Côd ymddygiad

2. Canllawiau ac arferion gweithio diogel (dogfen enghreifftiol)

3. Deddfwriaeth berthnasol

4. Cynnal asesiad risg

5. Datganiad polisi ar storio, defnyddio, cadw, gwaredu ac ymdrin â datgeliadau a gwybodaeth datgelu

6. Datganiad polisi ar recriwtio cyn-droseddwyr

7. Ymddiriedolwyr elusen a diogelu

8. Defnyddio a rhannu delweddau o blant - gwybodaeth a pholisi enghreifftiol

9. Diffiniadau ychwanegol

10. Yr eglwys mwy dioglel - rhestr wirio diogelu a hunan-asesu

## Atodiad 1: ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth ychwanegol

| **LLINELLAU CYMORTH ARGYFWNG** gweler hefyd: panel.cymru/cy/rhifau-cyswllt-argyfwng | |
|---|---|
| **EICH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL LLEOL**<br><br>Mae'r rhifau lleol i'w gweld ar wefan eich Cyngor lleol | Nodwch y rhifau perthnasol yma:<br>Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant:<br>Gwasanaethau Cymdeithasoli Oedolion:<br>Y tîm tu allan i oriau Gwaith: |
| **HEDDLU** | Galwadau argyfwng 999<br>Galwadau Cyffredinol 101 |
| **NSPCC** www.nspcc.org.uk<br>Am gyngor a chefnogaeth os ydych chi'n poeni am blentyn neu i adrodd pryder | 0808 800 5000<br>Ebost: help@nspcc.org.uk<br>www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/ |
| **CHILDLINE** llinell gymorth gyfrinachol am ddim, 24/7<br>Sgwrsio ar-lein, e-bost a gwefan | 0800 1111 https://www.childline.org.uk/ |
| **HOURGLASS**<br>(Action on Elder Abuse yn flaenorol) | Llinell gymorth 0808 808 8141<br>www.wearehourglass.cymru/wales |

| **FFYNONELLAU CEFNOGAETH NEU WYBODAETH** | |
|---|---|
| **PANEL DIOGELU CYDENWADOL**<br>Rydym yma i gefnogi a chynghori'r "3 enwad" ynghylch materion diogelu: Hyfforddiant, polisi, hwyluso gwiriadau DBS cynnig cyngor ac ymdrin â phryderon a honiadau diogelu. | https://panel.cymru<br>post@panel.cymru<br>Uned 1, Vale Parc, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA<br>01745 817584 / 07957 510346 (dim 24 awr) |
| **THIRTY ONE: EIGHT** (**CCPAS yn flaenorol**)<br>Elusen gristnogol annibynnol sy'n cynnig cyngor, cefnogaeth, hyfforddiant ac adnoddau proffesiynol cynhwysfawr ar gyfer diogelu grwpiau bregus, ac i'r rhai sy'n dioddef oherwydd camdriniaeth. | https://thirtyoneeight.org<br>PO Box 133, Swanley, Kent. BR8 7UQ<br>0303 003 1111<br>info@thirtyoneeight.org |
| **KIDSCAPE**<br>Elusen Brydeinig wedi ei sefydlu'n benodol i atal bwlio. Cefnogaeth,cyngor a hyfforddiant. Llinell Gymorth ar gyfer rhieni sy'n bryderus ynghylch bwlio. | https://www.kidscape.org.uk/<br>8-10 South Street Epsom Surrey KT18 7PF<br>**Ebost:** parentsupport@kidscape.org.uk<br>Llinell gymort 0207823 5430 |
| **AROLYGIAETH GOFAL CYMRU** (**AGC**)<br>Pan fydd AGC yn derbyn cwyn neu adroddiad am bryder ynghylch rhywun sy'n darparu gwasanaeth, byddant yn ymchwilio a yw'r darparwr yn rhoi gwasanaeth diogel, ac a ydyw'n cydymffurfio gyda gofynion ac amodau eu cofrestriad.<br>Mae modd iddynt gynnal archwiliad, neu sicrhau bod yr hyn a achosodd y pryder yn cael ei archwilio adeg yr archwiliad swyddogol nesaf.<br>Nid asiantaeth cwynion mo AGC, ac nid oes modd iddynt ymateb i gwynion ynghylch amgylchiadau unigol. | **Ffôn:** 0300 7900 126<br><br>**Ebost:** CIW@gov.wales<br><br>**Ffacs:** 0872 437 7301<br><br>https://www.arolygiaethgofal.cymru |

| DIOGELU AR-LEIN | |
|---|---|
| **CEOP Child Exploitation & Online Protection Centre** diogelwch y Rhyngrwyd, Addysgu a chynghori Adrodd am ymddygiad amhriodol ar-lein | http://www.ceop.police.uk/safety-centre |
| **CEOP EDUCATION oddi wrth yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol(NCA):** gweithio i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cam-driniaeth | https://www.thinkuknow.co.uk/ |
| **CHILDNET** Elusen yn y DU sy'n grymuso plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n eu cefnogi yn eu bywydau ar-lein | https://www.childnet.com/ |
| **CEFNOGAETH AR GYFER DIODDEFWYR A'R RHAI SYDD WEDI GORESGYN CAMDRINIAETH** | |
| **The Survivors Trust** Asiantaeth warchodol ar gyfer mwy nag 135 o asiantaethau arbenigol yn y sector wirfoddol sy'n darparu ystod o wasanaethau cynghori, therapi a chefnogi. Mae hyn ar gyfer merched, dynion a phlant sydd wedi dioddef neu oresgyn trais neu gamdriniaeth rhywiol. | www.thesurvivorstrust.org/<br>Unit 2, Eastlands Court Business Centre, St Peter's Road, Rugby, Warwickshire. CV21 3QP<br>Ffôn: 01788 550554<br>Ebost: info@thesurvivorstrust.org |
| **MACSAS (Ministry and Clergy Sexual Abuse Survivors)** Grŵp sy'n cefnogi oedolion â chefndir Cristnogol a gafodd eu camdrin yn rhywiol gan weinidogion neu swyddogion eglwysig eraill pan yn blant neu'n oedolion. Maent yn cefnogi'r rhai sydd wedi aros yn eu cymunedau Cristnogol, a'r rhai a adawodd. | http://www.macsas.org.uk/<br><br>llinell gymorth rhan amser:<br>0808 801 0340 |
| **NAPAC – National Association for People Abused in Childhood** Corff sy'n ymgyrchu a chefnogi. | Gwefan adnoddau: https://napac.org.uk/<br>Llinell gwybodaeth Am Ddim: 0800 085 3330 |
| **TRINIAETH A CHEFNOGAETH I DROSEDDWYR (gweler hefyd Adran 5.4)** | |
| **The Lucy Faithfull Foundation (LFF)** Elusen ar gyfer diogleu plant, sy'n gweithioledled Prydain Fawr, yn canolbwyntio ar leihau'r perygl y bydd plant yn cael eu camdrin yn rhwyiol. Maent yn gweithio gyda theuluoedd cyfan sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin rhywiol gan gynnwys: oedolion sy'n cam -drin yn rhywiol; pobl ifanc ag ymddygiadau rhywiol amhriodol; dioddefwyr camdriniaeth ac aelodau eraill o'r teulu. | Am wybodaeth ynghylch cyfeirio, hyfforddiant neu ymgynghoriaeth<br>www.lucyfaithfull.org.uk/about.html<br>Ebost: contact@lucyfaithfull.org<br>2 Birch House, Harris Business Park Hanbury Road, Stoke Prior, Bromsgrove B60 4DJ<br>Ffôn: 01527 591922 Ffacs: 01527 591924 |
| **Stop it Now!** Llinell Gymorth sy'n galluogi'r rhai sy'n bryderus ynghylch unrhyw agwedd ar gamdrin plant yn rhywiol i drafod yn gyfrinachol. Ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y maes, teuluoedd a throseddwyr neu unigolion sy'n poeni am eu hymddygiad neu meddyliau eu hunain | https://www.stopitnow.org.uk/<br><br>0808 1000 900<br><br>help@stopitnow.org.uk |
| **LLINELLAU CYMORTH CAMDRIN DOMESTIG** | |
| **BYW HEB OFN:** llinell cymorth 24 awr galw / tecstio/ sgwrsio byw/ ebost am ddim | 0808 8010 800 Testun: 07860077333<br>Ebost: gwybodaeth@llinellgymorthbywhebofn.cymru<br>https:://llyw.cymru/byw-heb-ofn/cam-drin-domestig-yng-nghymru |
| **UK 24-HOUR NATIONAL DOMESTIC ABUSE HELPLINE** | 0808 2000 247<br>www.nationaldahelpline.org.uk |

## Atodiad 2a: Ein côd ymddygiad diogelu

Mae'r côd ymddygiad hwn yn gyfres o ganllawiau'n amlinellu prif gyfrifoldebau ac arferion y rhai sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli gyda grwpiau bregus. Mae'n seiliedig ar y datganiad o fwriad a'r canllawiau yn y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus.

**Fel ________________________(rôl) yn ________________________________ (eglwys)**

**sy'n gweithio gyda phlant* a/neu oedolion bregus* byddaf yn:**

1. Dilyn ein polisi, gweithdrefnau a chanllawiau arfer da mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion bregus.
2. Cydweithredu â'r prosesau recriwtio mwy diogel, yn cynnwys derbyn gwiriad DBS lle mae'r rôl yn gymwys.
3. Mynychu, ar gais yr arweinwyr, hyfforddiant diogelu ac unrhyw hyfforddiant arall sy'n berthnasol i'm rôl.
4. Ymdrechu i sicrhau bod y plant ac oedolion bregus mewn sefyllfaoedd a gweithgareddau sy'n perthyn i'r eglwys (gan gynnwys rhai ar-lein) wedi eu diogelu a'u hamddiffyn, a dilyn y mesurau a amlinellwyd mewn unrhyw asesiad risg.
5. Ymdrechu i adnabod sefyllfaoedd lle gallai plant, pobl ifanc ac oedolion bregus ddioddef niwed yn ystod gweithgareddau'r eglwys a cheisio cyngor gan arweinydd pan fydd angen.
6. Dilyn ein polisi a'n gweithdrefnau drwy ymateb ar unwaith i bob datgeliad, pryder, honiad, ac amheuaeth o gam-drin drwy eu hadrodd i swyddog diogelu'r panel, yr ysgrifennydd cyffredinol enwadol neu gydlynydd diogelu'r eglwys. Mewn argyfwng byddaf yn cysylltu'n syth â'r heddlu, y gwasanaeth ambiwlans neu'r gwasanaethau cymdeithasol.
7. Rhoi gwybod i swyddog diogelu'r panel neu'r ysgrifennydd cyffredinol ynghylch unrhyw achos o gamddefnyddio awdurdod.
8. Peidio byth â chytuno i gadw'n gyfrinachol unrhyw gam-drin neu bryderon yn ymwneud â diogelu.
9. Gwrando ar blant ac oedolion bregus, eu trin â pharch, ac ymateb yn sensitif ac yn unol â'n polisi a'n canllawiau.
10. Dilyn y cyngor ac arweiniad diogelu a ddarparwyd gan swyddog diogelu'r panel a/neu ysgrifennydd cyffredinol yr enwad, a chydweithredu'n llawn â'r gwasanaethau statudol os oes ymchwiliad neu ymyriad.

**Datganiad**

Rwy'n cytuno i weithredu'n unol â'r disgwyliadau a amlinellir uchod ac yn cadarnhau fy mod wedi darllen y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu sy'n berthnasol i'm rôl.

Enw ______________________________________ Llofnod ______________________

Dyddiad _______________________________

Ardystwyd gan ______________________ (llofnod) ___________________________ (enw a rôl)

[1] Rydym yn argymell bod eglwysi'n penodi cydlynydd diogelu lleol ond yn derbyn nad yw'r rôl hon yn bodoli ymhob eglwys. Os yw hyn yn wir am eich eglwys chi, cysylltwch yn ddi-oed â swyddog diogelu'r panel. Mae'n rhaid i'r cydlynydd diogelu lleol hysbysu swyddog diogelu'r panel ynghylch pob un achos a/neu bryder am fater yn ymwneud â diogelu, a hynny cyn gynted â bo modd.

*Dileer fel y bo'n briodol

## Atodiad 2: Canllawiau ac arferion gweithio diogel (dogfen enghreifftiol)

**Dogfen gryno enghreifftiol yw hon y dylid ei darllen ynghyd â'r Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus.**

Dogfen ymarferol yw hon, y gellid ei haddasu ar gyfer amgylchiadau lleol, ac y gellid ei rhannu gydag aelodau staff a gwirfoddolwyr er mwyn hyrwyddo cysondeb ac arfer gwaith da. Mae modd hefyd rhannu'r ddogfen gyda rhieni er gwybodaeth. Dylid ei hadolygu'n rheolaidd (pob blwyddyn, o leiaf), ac ar unwaith pan fo gweithgareddau newydd yn cael eu datblygu.

Bydd pob gwirfoddolwr yn cael copi o'r ddogfen hon, a phob diweddariad iddi.

**Canllawiau Cyffredinol ar gyfer pob gweithgaredd**

1. Pan fo hynny'n bosib, gofalwch bod dau oedolyn neu fwy gyda phob grŵp. Gwnewch yn siŵr nad ydych ar eich pen eich hun gyda phlentyn (mae rhai eithriadau wrth gwrs, e.e. cymryd plentyn i'r toiled).
2. Gofalwch rhag cludo plentyn adref ar ei b/phen ei hun – gwell yw cael oedolyn arall gyda chi neu drefnu bod y plant olaf yn cael eu gollwng gyda'i gilydd. Os bydd argyfwng, gwnewch yn siŵr eich bod yn hysbysu'r arweinydd cyn gynted â phosib.
3. Byddwch yn ddoeth wrth gyffwrdd â phlentyn. Mae gafael yn llaw plentyn neu ei gofleidio pan fyddant yn ofidus yn ffordd dda o gysuro plentyn ond dylech ofyn bob amser "Wyt ti eisiau cwtsh?" yn hytrach na rhagdybio. Mae gennym oll ein ffiniau gwahanol a dylid eu parchu. Gwnewch bopeth yn llygad y cyhoedd. Mae cofleidio yng nghyd-destun grŵp yn wahanol i wneud hynny y tu ôl i ddrysau caeëdig.
4. Peidiwch byth â tharo plentyn, na'i ddisgyblu'n gorfforol.
5. Dylid ymdrin â phlant a phobl ifanc gydag urddas a pharch o ran agwedd, gweithredoedd a'r iaith a ddefnyddir.
6. Parchwch y ffaith bod gan blant yr hawl i breifatrwydd, ond heb addo cadw cyfrinachau, a gofalwch – yn gyffredinol – rhag cynnal sgwrs breifat neu agos iawn ar eich pen eich hun gyda phlant a phobl ifanc (gweler hefyd 9 isod).
7. Pan fydd rhywbeth yn eich pryderu, siaradwch ar unwaith gyda'r Cydlynydd Diogelwch, yr arweinydd neu'r goruchwyliwr.
8. Peidiwch ymddwyn neu siarad mewn modd y gellid ei gamddehongli, e.e. gemau rhy gorfforol, neu sylwadau pryfoclyd. Os tybiwch fod plentyn yn datblygu teimladau amhriodol tuag atoch, ceisiwch gyngor gan arweinydd.
9. Ein nod yw cefnogi pobl ifanc yn briodol. Byddwch yn ofalus wrth wrando ar bobl ifanc yn adrodd eu pryderon, ac wrth eu cynghori a'u cefnogi. Gwnewch yn siŵr bod oedolyn arall yn ymwybodol o'r hyn yr ydych yn ei wneud, neu bod oedolyn arall yn y cyffiniau.
10. Byddwch yn ymwybodol o ddiogelwch plant a phobl ifanc bob amser.
11. Byddwch yn ymwybodol o'ch diogelwch chi eich hun hefyd, gan warchod eich hun rhag unrhyw gyhuddiad (dylai popeth yr ydych yn ei wneud fod yn dryloyw a chyfrifol).
12. Gwrandewch ar unrhyw gyngor neu sylwadau a wneir gan arweinydd y gweithgaredd neu'r cydlynwyr diogelwch plant.
13. Pan welwch weithiwr arall yn ymddwyn mewn modd sy'n achosi pryder, neu y gellir ei gamddehongli, dylid dwyn y mater i sylw'r unigolyn ac arweinydd y gweithgaredd.
14. Dylai arweinwyr a chynorthwywyr gweithgareddau gyfarfod yn rheolaidd i drafod y grŵp / rhannu gwybodaeth / gweddïo dros y bobl ifanc.
15. Dylai pob gweithgaredd a chysylltiad fod yn hollol agored.
16. Dylid trefnu'n rheolaidd (pob blwyddyn o leiaf) i adolygu gweithdrefnau, diweddaru hyfforddiant, rhannu pryderon a thrafod unrhyw beth arall sydd angen eglurhad neu arweiniad.

**PEIDIWCH Â CHADW PRYDERON A CHWESTIYNAU'N GYFRINACHOL.
HOLWCH ERAILL PAN FYDDWCH YN ANSICR!**

**Ysgol Sul**

**Arweinydd:** ______________________

**Aelod(au) Staff:** ______________________________
Bydd trefn recriwtio ddiogel wedi ei chynnal ar gyfer pob aelod staff, a phob unigolyn yn meddu ar wiriad DBS yn ôl y gofyn.

Cymhareb Plentyn / Oedolyn : 3 mlwydd oed 1: 4. 4 i 8 oed 1: 6 (o leiaf 2 oedolyn)

**Oed y plant:** Mae'r Ysgol Sul ar gyfer plant dros 3 oed

**Lleoliad:** Cynhelir yr Ysgol Sul fel arfer yn __________________________

Gofal Personol (Newid clytiau / mynd i'r toiled) Dylid gwneud hyn yn briodol, yn unol ag oedran a gallu'r plentyn. Os yw rhiant / gofalydd yn bresennol, medrwch ofyn am eu cymorth mewn amgylchiadau o'r fath.

**Cofnodi Presenoldeb:** Cofnodwch pwy sydd yn dod i'r Ysgol Sul ar gofrestr bresenoldeb.

**Caniatâd:** Fel arfer, bydd oedolyn yn dod i'r capel gyda'r plant, ac yn aros yn yr adeilad (yn mynd i'r prif wasanaeth) tra cynhelir yr Ysgol Sul. Pan fo plant yn dod ar eu pen eu hunain yn rheolaidd, dylai arweinwyr yr Ysgol Sul geisio ymweld â'r teulu er mwyn cael eu caniatâd, a manylion cyswllt.

Disgyblaeth / Ymddygiad: Dylid trin y plant yn gwrtais a pharchus, a'u hannog i ymddwyn yr un fath gyda'u cyfoedion ac arweinwyr. Pan fo plentyn yn camymddwyn neu'n aflonyddu'r sesiwn dylid ymateb fel a ganlyn:

- Gofyn i'r plentyn wrando, ymddwyn yn dderbyniol, cymryd rhan ac ymddiheuro (os yn briodol)
- Gofyn iddo/iddi eistedd mewn rhan arall o'r ystafell i synfyfyrio a thawelu.
- Ceisio cymorth rhiant / gofalydd, neu fynd â'r plentyn atynt.
- Pan fo patrwm ymddygiad yn datblygu, bydd y staff yn trafod y peth gyda'r rhieni / gofalyddion, a chytuno sut i ymateb iddo.

**Rhan y Rhieni:** Pan fo rhiant / gofalydd yn mynychu sesiwn yn rheolaidd, gallai'r arweinydd ofyn iddynt fod yn gynorthwywyr swyddogol, gan ddilyn y drefn recriwtio / DBS. Dylai rhieni / gofalyddion ddod i nôl eu plant yn brydlon ar derfyn yr Ysgol Sul. (Cedwir rhestr yn yr Ysgol Sul o enwau'r plant y mae eu rhieni'n fodlon iddyn nhw fynd adre yn annibynnol.)

**Cofnodi Damweiniau / Digwyddiadau:** Nodir unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad yn y 'Cofnod Damwain neu Ddigwyddiad', a thrafod y peth gyda'r rhiant / gofalydd yn dilyn y sesiwn.

**<u>Clwb Ieuenctid</u>**

**Arweinwyr:** ________________________________________

**Aelodau Staff:** ______________________________________________________

Bydd trefn recriwtio ddiogel wedi ei chynnal ar gyfer pob aelod staff, a phob unigolyn yn meddu ar wiriad DBS yn ôl y gofyn.

Cymhareb Plentyn / Oedolyn :  1 neu 2 aelod staff ar gyfer hyd at 8 plentyn.

**Oed y bobl ifanc:** disgyblion ysgol uwchradd.

**Lleoliad:** ______________________________

**Caniatâd:** Dylai pob aelod o'r Clwb gyflwyno ffurflen ganiatâd a gwybodaeth. Dylid cadw'r ffurflenni yn lleoliad y Clwb.

Y rhieni / gofalyddion sy'n gyfrifol am gludo'r bobl ifanc, ond gall yr arweinwyr eu cludo mewn argyfwng.

Dylid sicrhau caniatâd ychwanegol ar gyfer mynychu digwyddiadau.

**Disgyblaeth / Ymddygiad:** Dylid trin pobl ifanc yn gwrtais a pharchus, a'u hannog i ymddwyn yr un fath gyda'u cyfoedion ac arweinwyr. Pan fo plentyn yn camymddwyn neu'n aflonyddu'r sesiwn dylid ymateb fel a ganlyn:

- Gofyn iddo/iddi wrando, ymddwyn yn dderbyniol, cymryd rhan ac ymddiheuro (os yn briodol)
- Os yw'r ymddygiad yn parhau i aflonyddu ar y Clwb, dylid gofyn i riant / gofalydd ddod i'w nôl.
- Pan fo'r ymddygiad yn parhau'n anodd ei reoli, bydd y staff yn trafod y peth gyda'r rhieni / gofalyddion, ac yn llunio cynllun er mwyn ymateb iddo.
- Bydd yr aelodau staff yn parhau i wrando ar yr unigolyn, a chynnig cymorth a chefnogaeth yn ôl y gofyn.

**Cofnodi Damweiniau a Digwyddiadau:** Pan ddigwydd damwain neu ddigwyddiad dylid ei nodi yn y 'Cofnod Damwain neu Ddigwyddiad', a thrafod y peth gyda'r rhiant / gofalydd cyn gynted ag y bo modd.

## Atodiad 3: Deddfwriaeth berthnasol

Dyma restr o brif ddeddfwriaeth a fframwaith arfer da ar gyfer gweithio gyda grwpiau bregus yng Nghymru. Nid yw'n cynnwys pob deddfwriaeth ac arfer da perthnasol.

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014**
  Mae gan y Ddeddf 11 rhan. Mae Rhan 7 o'r Ddeddf yn ymwneud â diogelu. Dylid darllen Rhan 7 yng nghyd-destun y Ddeddf yn ei chyfanrwydd https://llyw.cymru/diogelu-pobl-cyflwyniad
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019** Mae'r rhain yn disodli Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru-gyfan 2008 a Pholisi a Gweithdrefnau Dros Dro Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Bregus rhag Camdriniaeth 2010 https://diogelu.cymru/
- **Deddf Plant 1989** Darn pwysig iawn o ddeddfwriaeth ynghylch diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'n rhoi'r hawl i bob plentyn gael ei amddiffyn rhag cam-drin a chamfanteisio creu'r hawl i gynnal ymchwiliadau sydd â'r amcan o ddiogelu eu lles.
- **Deddf Plant 2004** Datblygiad o Ddeddf 1989. Mae'n pwysleisio bod cyfrifoldeb ar bawb a phob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant i helpu eu diogelu ac i hyrwyddo eu lles.
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 (CCUHP / UNCRC)**
  Y cytundeb rhyngwladol sy'n gosod allan 42 o hawliau y mae eu hangen ar blant a phobl ifanc i fyw bywyd hapus, iach a diogel wrth dyfu i fyny. Yn 2011 Cymru oedd y cyntaf o wledydd y DU i wneud y Confensiwn yn rhan o'i chyfraith gwlad.
- **Deddf Hawliau Dynol 1998** Deddf sy'n nodi'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol sy'n hawl i bawb yn y DU.
- **Deddf Cydraddoldeb 201**0 Y ddeddf sy'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas yn gyffredinol. Mae'n disodli'r deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol drwy ddod â'u mesurau at ei gilydd mewn un Ddeddf.
- **Deddf Diogelu Data 2018** Mae hon yn ddeddf Deyrnas Unedig sy'n gosod allan fframwaith y gyfraith diogelu data. Daeth i rym ar y 25ain o Fai 2018 ac mae'n diweddaru ac yn disodli Deddf Diogelu Data 1998. Mae'n eistedd ochr yn ochr â'r UK-GDPR, ac yn teilwra sut mae'r GDPR yn gweithredu yn y DU.
- **Deddf Elusennau 2011** Deddf sy'n dwyn ynghyd darpariaethau Deddf Elusennau Hamdden 1958, Deddf Elusennau 1993 a llawer rhan o Ddeddf Elusennau 2006, ynghyd â'r addasiadau a wnaed ers eu mabwysiadu. Mae'n diweddaru'r testun ac yn symleiddio strwythur y ddeddfwriaeth, ond nid yw'n newid unrhyw gyfraith nac yn cyflwyno polisi newydd.
- **Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 a Rheoliadau (Gweithgarwch Rheoledig) (Cymru) 2010** Mae hon yn nodi hyd a lled yr hyn ydi 'gweithgarwch rheoledig'. Mae'n nodi hefyd sut mae elfen wahardd y DBS yn cael ei weithredu - gwaith a wnaethpwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA).
- **Deddf Diogelu Rhyddid 2012** Lluniwyd y ddeddf hon er mwyn sefydlu'r DBS, y corff sy'n cymryd lle ISA a'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB). Y DBS, sef y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sy'n gyfrifol am ddarparu datgeliadau cofnod troseddol, am ystyried achosion pobl sydd wedi eu cyfeirio i'w gwahardd, ac am gynnal y rhestr o unigolion gwaharddedig. Mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn ymwneud â chyfyngu'r diffiniad o'r hyn ydi gweithgarwch rheoledig, ac hefyd â gwasanaethau newydd y DBS ac â diystyru collfarnau a rhybuddion a gafwyd yn sgîl rhyw hoyw cydsyniol.
- **Deddf Adsefydlu Troseddwyr (ROA) 1974** Deddfwriaeth sy'n nodi cyfnodau adsefydlu troseddwyr, a'r egwyddor nad oes rhaid i unigolion ddatgelu euogfarnau sydd wedi eu hysbyddu oni bai eu bod yn destun Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 sy'n nodi pryd y gellir gofyn i unigolyn am gollfarnau sydd wedi eu hysbyddu - yr hyn a elwir yn 'gofyn cwestiwn wedi ei eithrio'.
- **Deddf yr Heddlu 1997** Rhan V Dyma a ganiataodd drefnu'r system Cofnodion Troseddol ac a arweiniodd yn ei sgîl at ffurfio Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) i Gymru a Lloegr yn 2002. Fe'i diweddarwyd wedyn gan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012.
- **Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000** Deddf a greodd Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru a Lloegr, y Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Llysoedd Plant a Theuluoedd (CAFCASS), a threfn statudol integredig i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant.
- **Deddf Troseddau Rhyw 2003** Mae'n darparu mwy ynghylch troseddau rhyw, a mesurau newydd i amddiffyn y cyhoedd rhag niwed rhywiol.

## Atodiad 4: Cwblhau asesiad risg

Mae asesiad risg yn ffordd ddefnyddiol o feddwl am y risgiau a'r problemau posibl a all godi mewn unrhyw weithgaredd. Mae'n fodd i ganfod atebion, yn dangos eich bod wedi cynllunio'n ofalus, ac yn gymorth i sefydlu'r camau rhesymol hynny sy'n angenrheidiol i gadw pawb yn ddiogel gan gynnwys enw da'r sefydliad. Mae hefyd yn ffordd dda i rannu gwybodaeth bwysig gydag aelodau eraill eich tîm a thrwy hynny sicrhau bod pawb yn dilyn yr arfer gorau posibl o ran gweithredu mewn modd diogel ac atebol.

Yn y lle cyntaf, defnyddiwch ffurflen asesiad risg fel rhestr wirio - bydd yn help i feddwl trwy'r risg a'r problemau posibl a thrwy hynny i ganfod atebion a mesurau rheoli priodol. Mae'r canllaw cam wrth gam isod yn seiliedig ar Ffurflen 10 y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus. Mae nifer o ffurflenni asesiad risg addas i wahanol sefyllfaoedd ar gael, felly cysylltwch â swyddfa'r panel os hoffech gael cyngor yn eu cylch neu i'w derbyn mewn fformat arall.

# Canllaw asesu risg cam wrth gam

**Cam 1 - Disgrifiwch y gweithgaredd, digwyddiad neu leoliad sy'n cael ei asesu.**

Cofiwch nad yw asesiadau risg yn ymwneud ag adeiladau yn unig. Er enghraifft, ydych chi wedi cynnal asesiad risg ar weithgareddau megis Clwb Cinio oedolion bregus, neu wibdaith Clwb Plant, neu Glwb Gwaith Cartref? Mae asesiad risg yn rhoi trefn ar sut i feddwl yn ofalus am ddiogelwch gweithgareddau eich eglwys.

**Cam 2 - Gofynnwch beth yw'r risg sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd neu leoliad.**

Mae 'risg' yn fesur o ba mor debygol yw hi y caiff rhywun ei niweidio gan berygl o ryw fath. Meddyliwch am eich gweithgareddau a'r lle y byddwch yn eu cynnal (e.e. Clwb Ieuenctid, Grŵp Plant Bach). Cofiwch na fydd y risg o anghenraid yr un peth i bob grŵp.
Mae 'peryglon' yn unrhyw beth all achosi niwed (e.e. llithro / baglu, ceblau, lloriau). Ewch o gwmpas y man cyfarfod a nodwch unrhyw berygl, bach neu fawr, a all achosi niwed i bobl.

*O edrych ar yr enghreifftiau uchod yng **Ngham 1** uchod, gallai'r risg fod yn rhywbeth fel: oedolyn bregus mewn Clwb Cinio'n cael adwaith alergaidd i fwyd neu ddiod; plentyn yn mynd ar goll yn ystod gwibdaith; a phlentyn yn canfod deunydd amhriodol ar lein yn ystod Clwb Gwaith Cartref.*

**Cam 3 - Gwerthuswch y risg a phenderfynu a yw'n risg isel, ganolig neu uchel.**

Pa mor debygol yw bydd pob perygl a nodwyd yn achosi niwed?
Pa mor ddifrifol fyddai'r canlyniadau? Bydd y canllaw isod yn help i chi wrth asesu:

a) Asesu tebygolrwydd y risg neu broblem:
1 = Annhebygol, 2 = Posibl, 3 = Tebygol, 4 = Tebygol iawn, 5 = Pendant

b) Asesu difrifoldeb y canlyniadau:
1 = Bychan iawn (e.e. crafiad, llid anghyfforddus), 2 = Bychan (clwyfau a briwiau bychain),
3 = Drwg (torri asgwrn), 4 = Sylweddol, 5 = Angheuol.

Nawr lluoswch 'tebygolrwydd y risg' gyda 'difrifoldeb y canlyniad' i gael cyfanswm. **Mae cyfanswm o 1-4 yn awgrymu risg isel, 5-7 risg gymedrol ac 8+ risg uchel.** Mae hyn yn help i fesur y risg ac i flaenoriaethu'r camau diogelwch sydd eu hangen.

**Cam 4 - Gofynnwch i bwy mae'r risg?**

Ai i blant, oedolion bregus, aelodau'r staff, y cyhoedd, rhywun arall a.y.y.b.?

**Cam 5 - Nodwch y mesurau y byddwch yn eu rhoi ar waith i reoli'r risg.**

Fe all y mesurau rheoli gynnwys sicrhau digon o staff wedi'u hyfforddi i oruchwylio plant, a bod un neu fwy wedi eu hyfforddi mewn cymorth cyntaf. Fe allent gynnwys sicrhau bod ffurflen ganiatâd wedi ei chwblhau ar gyfer pob plentyn yn y Clwb, un sy'n rhoi caniatâd i roi cymorth meddygol a thynnu lluniau ffotograffiaeth, neu fe all fod yn rhywbeth mor syml â glynu cebl rhydd yn sownd i'r llawr gyda thâp.

Yn ôl at yr enghreifftiau.  Sut mae lleihau risg yr hyn a nodwyd yn **Cam 2**?

a) *Aelodau'r Clwb Cinio - defnyddio ffurflen syml i ofyn a oes gan yr aelodau alergedd o unrhyw fath, ac yn sgîl hynny osgoi unrhyw beth a fyddai'n peri perygl iddynt.*

b) *Gwibdaith y Clwb Plant - sicrhau goruchwyliaeth ddigonol drwy drefnu digon o wirfoddolwyr.*

c) *Y Clwb Gwaith Cartref - rheoli'r mynediad i safleoedd rhyngrwyd ac addysgu ynghylch defnydd o'r we.*

Nodwch y mesuriadau rheoli a sicrhewch eich bod yn eu rhoi ar waith. Peidiwch â gwneud hyn yn ymarfer ar bapur yn unig. Gwnewch eich asesiad risg yn gynllun gweithredu.

**Cam 6 – Gofynnwch - a yw'r mesurau rheoli'n ddigonol?**

A oes angen mesurau neu gamau pellach i leihau risg i lefel dderbyniol, neu a oes angen camau pellach i roi'r mesurau ar waith?

NAWR llofnodwch eich asesiad, rhowch ddyddiad arno, a rhannwch o gyda phawb sy'n berthnasol.

**Cam 7 - Adolygwch eich asesiad a'i ddiwygio yn ôl yr angen.**

Mae'n arfer da i adolygu eich asesiad o bryd i'w gilydd (o leiaf unwaith y flwyddyn) er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol. Nodwch ddyddiad ar gyfer yr adolygiad a chadwch ato. Cofiwch, os oes offer newydd neu newid yn y ffordd rydych yn gweithio, bydd angen i chi fynd drwy'r proses i gyd eto - yr adnabod peryglon, yr asesu risg, y cymryd camau. Ychwanegwch unrhyw ganfyddiadau newydd i'r cofnod wreiddiol er mwyn ei gadw'n gyfoes.

**Cyflogwyr, gweithwyr cyflogedig, gwirfoddolwyr ac eraill** www.hse.gov.uk

Pan fydd corff neu sefydliad – yn cynnwys grŵpiau elusennol neu wirfoddol – yn cyflogi o leiaf un gweithiwr gyda Chytundeb Cyflogaeth, bydd yn cael ei ystyried yn 'gyflogwr' i ddibenion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974, a'r rheoliadau a ddaeth yn ei sgîl.

Mae gan pob cyflogwyr, dan adran 3 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974, ddyletswydd 'i gyflawni ei weithgaredd mewn modd sy'n sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, nad yw personau nad ydynt yn ei gyflogaeth, ond y gallai hynny effeithio arnynt, fod yn agored i risgiau i'w hiechyd neu eu diogelwch.'

Yn gyffredinol, golyga hyn bod corff/sefydliad sydd â gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr yn gweithio iddynt yn meddu ar gyfrifoldeb statudol i beidio â pheri niwed trwy eu gweithgareddau i iechyd a diogelwch y gwirfoddolwyr.

Mae'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch yn gweithredu ymhob rhan o'r Deyrnas Unedig.
Am ragor o wybodaeth Iechyd a Diogelwch ewch i wefan y Gweithgor.

## Atodiad 5: Datganiad polisi ar storio, defnyddio, cadw, gwaredu ac ymdrin â datgeliadau a gwybodaeth datgelu

**Egwyddorion cyffredinol**

Fel sefydliad sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Datgeliad a Gwahardd (DBS) mae'r Panel Diogelu Cydenwadol yn banel a benodwyd gan **Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru** i gynorthwyo gydag asesu addasrwydd ymgeiswyr am swyddi cyfrifol. Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol yn cydymffurfio'n llwyr gyda Chod Ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) mewn perthynas â chadw, trin, defnyddio, dal a chael gwared â datgeliadau a gwybodaeth datgeliad yn gywir. Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol hefyd yn cydymffurfio'n llawn gyda'i ymrwymiadau o dan y Ddeddf Diogelu Data a phob deddfwriaeth berthnasol arall ynglŷn â thrin, defnyddio, storio, cadw a chael gwared â gwybodaeth Datgeliad yn ddiogel ac mae gennym bolisi ysgrifenedig ar y materion hyn, sydd ar gael i unrhyw un sydd am ei weld ac yn gofyn am hynny.

**Storio a mynediad**

Nid yw gwybodaeth datgeliad yn cael ei chadw ar ffeil personél yr ymgeisydd ar unrhyw adeg ac mae'n cael ei chadw ar wahân ac yn saff bob amser, mewn cynhwysydd â chlo, anghludadwy, a rheolir y rhai sydd yn cael ei gweld yn llym, gan gyfyngu'r caniatâd hwn i'r Blaen Lofnodwr, y Swyddog Diogelwch a Swyddog Gweinyddol y Panel Diogelu Cydenwadol, a'r rhai sydd â hawl i'w gweld fel rhan o'u dyletswyddau yn unol â pholisi cytunedig y Panel Diogelu Cydenwadol.

**Ymdrin**

Yn unol ag adran 124 Deddf yr Heddlu 1997, caiff gwybodaeth Datgeliad ei throsglwyddo dim ond i'r rheini sydd â'r hawl i'w gweld fel rhan o'u dyletswyddau. Rydym yn cadw cofnod o bawb sydd wedi derbyn Datgeliadau neu wybodaeth Datgeliad, ac rydym yn cydnabod ei bod yn drosedd i basio'r wybodaeth hon i unrhyw un nad oes ganddo/ganddi'r hawl i'w gweld.

**Defnydd**

Caiff gwybodaeth Datgeliad ei ddefnyddio dim ond at y diben penodol y gofynnwyd amdano, a dim ond ar ôl cael caniatâd llawn yr ymgeisydd.

**Cadw**

Unwaith bod penderfyniad recriwtio (neu benderfyniad perthnasol arall) wedi cael ei wneud, nid ydym yn cadw gwybodaeth Datgeliad yn hwy nag sydd ei angen. Fel arfer, mae hwn yn gyfnod o hyd at 6 mis, i adael digon o amser i ystyried a datrys unrhyw anghydfod neu gwynion. Os y'i hystyrir yn angenrheidiol (a byddai hynny o dan amgylchiadau eithriadol iawn) i gadw gwybodaeth Datgeliad am gyfnod am fwy na chwe mis, byddwn yn ymgynghori â'r Gwasanaeth Datgeliad a Gwahardd am hyn ac yn ystyried yn llawn hawliau diogelu data a hawliau dynol gwrthrych unigol y Datgeliad cyn gwneud hyn. Yn ystod yr amser hwn, cedwir at yr amodau arferol mewn perthynas â chadw'r wybodaeth yn ddiogel a rheoli pwy fydd yn cael ei weld.

**Cael gwared â gwybodaeth**

Unwaith y bydd y cyfnod cadw wedi darfod, byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw wybodaeth Datgeliad yn cael ei ddinistrio mewn modd diogel, h.y. trwy ei ddarnio, mathru neu losgi. Wrth aros i ddinistrio gwybodaeth Datgeliad, ni chaiff yr wybodaeth ei gadw mewn unrhyw gynhwysydd nad yw'n ddiogel (e.e. bin ysbwriel neu sach gwastraff cyfrinachol). Ni fyddwn yn cadw unrhyw lungopi neu ddelwedd arall o'r Datgeliad neu unrhyw gopi neu gynrychioliad o gynnwys Datgeliad. Fodd bynnag, er gwaethaf yr uchod, mae'n bosibl i ni gadw cofnod o'r dyddiad y rhoddwyd Datgeliad, enw'r gwrthrych a'i god post ar adeg y cais, natur y Datgeliad y gofynnwyd amdano, y swydd y ceisiwyd Datgeliad amdani, cyfeirnod unigryw'r Datgeliad a manylion y penderfyniad recriwtio a wnaethpwyd.

**Gweithredu fel corff cysgodol**

Fel Corff Cysgodol (sef, Corff sydd yn cydarwyddo ceisiadau ac sydd yn derbyn gwybodaeth Datgeliad ar ran cyflogwyr neu sefydliadau recriwtio eraill) byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i'n bodloni ein hunain y byddant hwy yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Byddwn hefyd yn cymryd pob cam rhesymol i fodloni ein hunain y byddant yn trin, defnyddio, storio, cadw a chael gwared â gwybodaeth Datgeliad yn hollol unol â Chod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac yn gwbl unol â'r polisi hwnnw. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gan unrhyw gorff neu unigolyn sydd yn gofyn i ni gydarwyddo ceisiadau Datgeliad ar ei ran, bolisi ysgrifenedig o'r fath, a lle bo angen, byddwn yn darparu polisi enghreifftiol i'r corff neu'r unigolyn hwn ei ddefnyddio neu'i addasu at y diben hwn.

# Atodiad 6: Datganiad polisi ar recriwtio cyn-droseddwyr

Fel sefydliad sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) mae'r Panel Diogelu Cydenwadol, sy'n banel a benodwyd gan **Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru** i gynorthwyo gydag asesu addasrwydd ymgeiswyr am swyddi cyfrifol, yn cydymffurfio'n llwyr gyda Chod Ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac yr ydym yn ymrwymo i drin pob ymgeisydd am swydd yn deg. Rydym yn ymrwymo i beidio â gwahaniaethu'n annheg yn erbyn unrhyw wrthrych Datgeliad ar sail euogfarn neu unrhyw wybodaeth a ddatgelwyd gan hwnnw.

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol yn ymroddedig i drin yn deg ei staff, ei ddarpar staff, neu ddefnyddwyr ei wasanaeth, beth bynnag eu hil, rhyw, crefydd, tueddfryd rhywiol, cyfrifoldebau am bobl ddibynnol, oedran, anabledd corfforol/feddyliol neu gefndir troseddol.

Mae gennym bolisi ysgrifenedig ar recriwtio cyn-droseddwyr, sydd ar gael i bob ymgeisydd am Ddatgeliad ar gychwyn y broses recriwtio.

Rydym yn hybu'n cyfleoedd cyfartal i bawb sydd â'r cymysgedd iawn o ddoniau, medrau a photensial ac rydym yn croesawu ceisiadau oddi wrth amrywiaeth eang o ymgeiswyr yn cynnwys pobl gyda chofnodion troseddol. Rydym yn dewis pob gweithiwr a gwirfoddolwr potensial ar sail eu medrau, cymwysterau a phrofiad ac yn annog ein defnyddwyr gwasanaeth i weithredu yn yr un modd.

Gofynnir am Ddatgeliad ond ar gyfer swyddi cymwys fel y diffinnir gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 ac a gynhwysir yn y Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr (ROA) 1974 (Eithriadau) 1975 Gorchymyn a'r Ddeddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol). Ar gyfer y swyddi hynny sy'n gofyn am Ddatgeliad, bydd pob ffurflen gais, hysbyseb swydd, a chyfarwyddyd recriwtio yn cynnwys datganiad y gofynnir am Ddatgeliad os caiff y swydd ei chynnig i ymgeisydd.

Lle bydd Datgeliad yn rhan o'r broses recriwtio, rydym yn annog pob ymgeisydd sydd yn cael cyfweliad i roi manylion ei gofnodion troseddol yn gynnar yn y broses ymgeisio. Rydym yn gofyn i bob ymgeisydd lofnodi hunan-ddatganiad, a'n hysbysu o unrhyw wybodaeth bellach drwy anfon honno'n gyfrinachol mewn amlen ar wahân at y cyflogwr neu i'r Flaen Lofnodwr y Panel Diogelu Cydenwadol. Rydym yn gwarantu y caiff yr wybodaeth hon ei gweld gan y rhai sydd angen ei gweld fel rhan o'r broses recriwtio yn unig.

Oni bai fod natur y swydd yn caniatáu i'r Panel Diogelu Cydenwadol ofyn cwestiynau am eich cofnod troseddol llawn, byddwn yn gofyn dim ond am gollfarnau sydd heb eu treulio yn unol â'r diffiniad yn Neddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974.

Rydym yn sicrhau fod pawb sydd yn cymryd rhan yn y broses recriwtio wedi cael hyfforddiant addas ar sut i ganfod ac asesu perthnasedd troseddau a'u hamgylchiadau. Rydym yn sicrhau hefyd eu bod wedi derbyn cyfarwyddyd a hyfforddiant addas yn y ddeddfwriaeth ynglŷn â chyflogi cyn-droseddwyr e.e. Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974.

Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol wedi mabwysiadu'r broses recriwtio mwy diogel a amlinellir yn ei Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus a byddwn yn hyfforddi pawb sy'n ymwneud â thrin gwybodaeth Datgeliadau a'r Broses Recriwtio am ei chynnwys a'i defnydd.

Mewn cyfweliad, neu mewn trafodaeth ar wahân, rydym yn sicrhau y ceir trafodaeth agored a phwyllog am unrhyw droseddau neu faterion eraill a allant fod yn berthnasol i'r swydd. Byddai peidio â datgelu gwybodaeth sydd yn uniongyrchol berthnasol i'r swydd y gwneir cais amdani yn arwain at dynnu'r cynnig o swydd yn ôl. Rydym yn tynnu sylw pob ymgeisydd am wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) at fodolaeth cod ymarfer Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac mae copi ar gael, os gofynnir amdano.

Rydym yn ymrwymo i drafod unrhyw fater a ddatgelir mewn Datgeliad gyda'r ymgeisydd cyn tynnu cynnig amodol o'r swydd yn ei ôl.

Ni fydd y ffaith bod gennych gofnod troseddol o reidrwydd yn eich rhwystro rhag gweithio o fewn yr eglwys. Mae hyn yn dibynnu ar natur y swydd ac amgylchiadau a chefndir eich trosedd(au).

## Atodiad 7: Ymddiriedolwyr elusen a diogelu

Mae llawer o swyddogion ein heglwysi lleol hefyd yn ymddiriedolwyr elusen. Fel ymddiriedolwyr mae ganddynt ddyletswyddau gofal ynghyd â'r cyfrifoldeb i sicrhau bod yr elusen yn cael ei rhedeg yn ddiogel ac yn effeithiol, sy'n cynnwys cymryd y camau hynny sy'n angenrheidiol i ddiogelu grwpiau bregus. Mae angen iddynt sicrhau bod gwarchod pobl rhag niwed yn ganolog i ddiwylliant yr elusen. Mae elusen i fod yn amgylchedd ddiogel y gall pawb ymddiried ynddo.

*Dylai diogelu fod yn flaenoriaeth yn llywodraethiant pob elusen, waeth beth yw ei maint, math neu incwm - ac nid yn unig i'r elusennau hynny sy'n gweithio gyda grwpiau a ystyrir yn draddodiadol fel rhai agored i niwed. Mae'n ddyletswydd hanfodol ar yr ymddiriedolwyr i gymryd y camau rhesymol hynny sydd eu hangen i ddiogelu eu buddiolwyr ac i'w gwarchod rhag camdriniaeth.*[1]

Canllaw cryno yn unig yw'r atodiad hwn. Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan y Comisiwn Elusennau sydd â llawer o wybodaeth ddefnyddiol i helpu ymddiriedolwyr ddeall eu cyfrifoldebau diogelu. www.gov.uk/guidance/safeguarding-duties-for-charity-trustees

**Dyma rai o'r cyfrifoldebau allweddol:**

1. **Polisïau:** Dylai fod gennych bolisïau a gweithdrefnau diogelu y mae pob ymddiriedolwr, aelod o staff a gwirfoddolwr yn ymwybodol ohonynt ac yn eu dilyn. Dylech benodi cydlynydd diogelu lleol.
   *Ydych chi a phobl priodol eraill yn gyfarwydd â'r Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus ac a ydych chi'n sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol yn eich eglwys? Ydych chi'n arddangos y ddogfen bolisi eglwys unigol yn yr adeilad, a ydych chi wedi penodi cydlynydd/cyswllt diogelu, ac a ydych chi'n trafod diogelu yn rheolaidd yn eich cyfarfodydd eglwysig? https://panel.cymru/cy/polisiau-a-gwybodaeth*

2. **Recriwtio mwy diogel a Gwiriadau DBS:** Dylech sicrhau bod y rhai sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda grwpiau bregus yn addas ac yn ddiogel. Dylech ddilyn y weithdrefn recriwtio fwy diogel, sy'n cynnwys cynnal gwiriadau DBS. Dylid ailadrodd y gwiriadau hyn yn rheolaidd (bob pedair blynedd yn ôl ein polisi cyfredol). Mae'r ymddiriedolwyr eu hunain yn gymwys i wneud gwiriad DBS os yw'r elusen yn gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau bregus, hyd yn oed os nad ydyn nhw eu hunain yn gwneud y gwaith hwn yn bersonol.
   *A yw'ch gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac a oes gennych wiriadau DBS ar gyfer pob rôl cymwys? Gweler Adran 2 yn y llawlyfr am ragor o wybodaeth neu edrychwch ar wefan y panel am wybodaeth recriwtio mwy diogel a gwybodaeth DBS. https://panel.cymru/images/siart_llif_DBS_Gorff2020_min.pdf https://panel.cymru/cy/recriwtio-mwy-diogel*

3. **Ymateb i bryderon:** Dylech wybod sut i adnabod ac ymateb mewn modd priodol i bryderon diogelu, i honiadau ac i gwynion.
   *Ydych chi a phawb sy'n gweithio gyda grwpiau bregus yn ymwybodol o sut i adrodd am bryderon diogelu i swyddog diogelu'r panel ac i sefydliadau statudol perthnasol megis yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol cyn gynted ag y bydd sefyllfa neu ddigwyddiad bryderus yn cael ei amau neu ganfod? https://panel.cymru/images/YMATEB_I_GONSYRN_CYM.pdf*

4. **Adrodd ynghylch digwyddiadau difrifol i'r Comisiwn Elusennau:** Mae'n ofynnol bod ymddiriedolwyr yn adrodd am ddigwyddiadau priodol i'r Comisiwn Elusennau. Mae'r math hwn o ddigwyddiad yn cynnwys, er enghraifft, honiad o gam-drin cysylltiedig â'r elusen. Mae gan ymddiriedolwyr elusen sydd wedi ei heithrio yr un cyfrifoldeb ag sydd gan elusen gofrestredig yn hyn o beth. I ddeall y mater yn well cysylltwch â llinell gymorth y Comisiwn Elusennau neu ewch i'w gwefa *www.gov.uk/guidance/how-to-report-a-serious-incident-in-your-charity*

5. **Hyfforddiant:** Dylech sicrhau bod holl staff a gwirfoddolwyr yr elusen yn derbyn hyfforddiant diogelu grwpiau bregus yn rheolaidd.
   *A yw'r holl ymddiriedolwyr a'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ac oedolion bregus wedi mynychu hyfforddiant yn y 4 blynedd ddiwethaf? Mae'r hyfforddiant yn gymorth i ddeall llawer o'r cyfrifoldebau a nodwyd uchod https://panel.cymru/cy/hyfforddiant*

**Bydd dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu a luniwyd ar eich cyfer gan y Panel Diogelu Cydenwadol, ynghyd â mynychu'r hyfforddiant diogelu a sicrhau bod gwiriadau DBS yn cael eu cwblhau ar gyfer pawb sy'n gymwys, yn eich helpu i gyflawni eich cyfrifoldebau diogelu fel ymddiriedolwyr.**

[1] Comisiwn Elusenau 2022

## Atodiad 8: Defnyddio a rhannu delweddau o blant - gwybodaeth a pholisi enghreifftiol

Yn seiliedig ar ganllawiau o wefan NSPCC Learning a defnyddiwyd gyda chaniatâd. Am fwy o wybodaeth ewch i https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/briefings/photography-sharing-images-guidance

Defnyddiwch y polisi enghreifftiol hwn i ysgrifennu dogfen sy'n adlewyrchu anghenion diogelu'r plant a phobl ifanc rydych yn gweithio â nhw. Mae'n arfer da i rannu eich polisi ffotograffiaeth gyda phlant a rhieni a gofyn am eu caniatâd ar ddechrau'r flwyddyn. Efallai y bydd angen i chi hefyd gael caniatâd ychwanegol mewn amgylchiadau penodol (os ydych, er enghraifft, am ddefnyddio ffotograffydd proffesiynol neu os yw'r lluniau'n debygol o ymddangos yn y cyfryngau lleol neu genedlaethol).

**Polisi enghreifftiol: DEFNYDDIO A RHANNU DELWEDDAU O BLANT**

**Credwn na ddylai plant a phobl ifanc gael eu cam-drin mewn unrhyw fodd ar unrhyw adeg a bod arnom gyfrifoldeb i hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc ac felly i ddiogelu pob delwedd ohonynt.**

**Diben a chwmpas y datganiad polisi hwn yw:**
- amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn ein gwasanaethau, digwyddiadau a gweithgareddau, yn benodol y rhai lle gellir tynnu lluniau a gwneud fideos
- nodi'r egwyddorion cyffredinol sy'n rheoli ein dull o dynnu lluniau/gwneud fideos o blant a phobl ifanc yn ystod ein digwyddiadau a'n gweithgareddau
- sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol â'n gwerthoedd ac o fewn y gyfraith wrth greu, defnyddio a rhannu delweddau o blant a phobl ifanc. Mae'r datganiad polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff, gwirfoddolwyr ac oedolion eraill sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau

**Rydym yn cydnabod:**
- bod rhannu ffotograffau a ffilmiau o'n gweithgareddau yn gallu ein helpu i ddathlu llwyddiannau ein plant a'n pobl ifanc, darparu cofnod o'n gweithgareddau a chodi ymwybyddiaeth o'n sefydliad
- bod lles y plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau yn hollbwysig
- bod gan blant, eu rhieni a'u gofalwyr yr hawl i benderfynu a yw delweddau i'w creu o'u plant a sut y mae rhain i'w defnyddio
- mae caniatâd i dynnu delweddau o blant ond yn ystyrlon pan fydd plant, eu rhieni a'u gofalwyr yn deall sut y caiff y delweddau eu defnyddio a'u storio, a phan fyddant yn gwbl ymwybodol o'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio a dosbarthu'r delweddau
- bod yna risgiau'n gysylltiedig â rhannu delweddau o blant ar-lein

**Byddwn yn ceisio cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel trwy:**
- ofyn am ganiatâd ysgrifenedig[i] gan blentyn a'i rieni neu ofalwyr cyn creu delwedd o blentyn a'i defnyddio
- esbonio'r defnydd sydd i'w wneud o'r delweddau
- egluro, os yw plentyn neu ei deulu'n tynnu'n ôl eu caniatâd i rannu delwedd, ei bod yn bosibl na fydd modd dileu delweddau sydd eisoes wedi eu rhannu neu eu cyhoeddi
- newid enwau plant y mae eu delweddau'n cael eu defnyddio yn ein deunydd cyhoeddedig, pryd bynnag y bo modd (a dim ond defnyddio enwau cyntaf os oes angen adnabod y plant)
- peidio byth â chyhoeddi gwybodaeth bersonol am blant unigol a chelu neu guddio unrhyw wybodaeth adnabod (er enghraifft enw eu hysgol neu logo ar wisg ysgol)
- lleihau'r risg o ddelweddau'n cael eu copïo a'u defnyddio'n amhriodol drwy ddefnyddio delweddau o blant mewn dillad priodol yn unig (hyn i gynnwys dillad diogelwch lle bo'r angen)
- osgoi defnyddio lluniau wyneb a chorff llawn o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis nofio lle mae risg y bydd delweddau'n cael eu camddefnyddio
- defnyddio delweddau sy'n rhoi darlun cadarnhaol o'r bobl ifanc a'u gweithgareddau

- Os byddwn yn dod i wybod am unrhyw gamddefnydd o ddelweddau o blant a phobl ifanc byddwn yn adrodd ynghylch y camddefnydd yn unol â'n gweithdrefnau amddiffyn plant

**Ffotograffiaeth a/neu ffilmio at ddefnydd personol**

Pan fydd y plant neu bobl ifanc eu hunain, eu rhieni, gofalwyr neu wylwyr am dynnu lluniau neu ffilmio yn ein digwyddiadau a bod y delweddau at ddefnydd personol, byddwn yn eu cyfeirio at ein polisi ffotograffiaeth cyn dechrau'r digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys:

- atgoffa rhieni, gofalwyr a phlant bod angen iddynt roi caniatâd i ni gymryd delweddau a'u defnyddio
- gofyn i bobl gael caniatâd y plant, eu rhieni /gofalwyr cyn rhannu ffotograffau a fideos a gymerwyd
- argymell bod pobl yn gwirio gosodiadau preifatrwydd eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i ddeall pwy arall fydd yn gallu gweld unrhyw ddelweddau y maent yn eu rhannu
- atgoffa plant, rhieni a gofalwyr o bwy y gallant siarad â nhw os oes ganddynt unrhyw bryderon am ddelweddau sydd i'w rhannu

**Ffotograffiaeth a/neu ffilmio at ddefnydd ein eglwys/ grŵp**

Rydym yn cydnabod y gall arweinwyr ein grwpiau ddefnyddio ffotograffau a ffilmiau i ategu gweithgareddau ac i ddathlu neu arddangos digwyddiadau a llwyddiannau. Os yw ffotograffiaeth a ffilmio'n rhan o'r rhaglen mae'n rhaid sicrhau bod plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o hynny ac yn rhoi caniatâd ysgrifenedig. Os byddwn yn llogi ffotograffydd ar gyfer un o'n digwyddiadau, byddwn yn ceisio cadw plant yn ddiogel drwy:

- rhoi briff clir i'r ffotograffydd am yr hyn sydd yn gynnwys ac yn ymddygiad priodol, a gofyn iddynt bob amser arddangos ID e.e. bathodyn adnabod
- rhoi gwybod i blant, eu rhieni a'u gofalwyr y bydd ffotograffydd yn bresennol a sicrhau eu bod yn rhoi caniatâd ysgrifenedig i unryw rannu o ddelweddau sy'n cynnwys eu plentyn
- peidio â chaniatáu i'r ffotograffydd fod heb ei oruchwylio pan fydd gyda phlant a phobl ifanc
- peidio â chaniatáu i'r ffotograffydd gynnal sesiynau ar wahân i'r digwyddiad neu yng nghartref plentyn
- adrodd yn unol â'n gweithdrefnau amddiffyn plant am bryderon ynghylch ffotograffiaeth amhriodol neu ymwthiol

**Ffotograffau a/neu ffilmiau sydd i'w defnyddio'n ehangach**

Os yw pobl megis newyddiadurwyr lleol neu ffotograffwyr proffesiynol yn dymuno cofnodi un o'n digwyddiadau a rhannu'r delweddau'n broffesiynol neu yn y byd ehangach, mae'n rhaid iddynt ofyn am ganiatâd ymlaen llaw. Dylent ddarparu:

- enw a chyfeiriad y person(au) sy'n defnyddio'r camera
- enwau'r plant y maent yn dymuno creu delweddau ohonynt (os yw'n bosibl)
- y rheswm dros gymryd y delweddau a/neu y defnydd y bwriedir ei wneud o'r delweddau
- datganiad wedi ei lofnodi bod y wybodaeth hwn yn ddilys ac mai dim ond am y rhesymau a roddwyd y bydd y delweddau'n cael eu defnyddio.

Bydd yr eglwys/sefydliad yn gwirio'r manylion hyn ac yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd i dynnu lluniau/ffilmio. Byddwn yn gofyn am ganiatâd gan y plant a'u rhieni ac yn rhoi gwybod i'r ffotograffydd am unrhyw un nad yw'n rhoi caniatâd. Yn y digwyddiad byddwn yn hysbysu pawb bod ffotograffydd o'r tu allan yn bresennol ac yn sicrhau bod y ffotograffydd yn hawdd ei adnabod drwy, er enghraifft, roi bathodyn adnabod iddo ei wisgo. Os yw'r eglwys yn pryderu bod rhywun anhysbys yn tynnu lluniau neu'n ffilmio yn y digwyddiad, byddwn yn gofyn iddynt adael gan ddilyn y gweithdrefnau amddiffyn plant fel y bo'n briodol.

**Os na roddir caniatâd i dynnu lluniau**

Byddwn yn parchu'r dymuniad hwnnw. Byddwn yn cytuno ymlaen llaw ar sut i adnabod y plant neu bobl ifanc hynny fel bod y ffotograffydd yn gwybod i beidio â thynnu lluniau ohonynt, ac i sicrhau hefyd bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd nad yw'n tynnu sylw at y plant hynny na'n gwneud iddynt deimlo'n annifyr ac wedi eu hynysu. <u>Ni fyddwn byth yn gwahardd plentyn o weithgaredd oherwydd bod caniatâd i dynnu ei lun wedi ei wrthod.</u>

---

[i] Gweler Ffurflen 8: Ffurflen ganiatâd i dynnu lluniau https://panel.cymru/cy/ffurfleni-defnyddiol

## Atodiad 9: Diffiniadau ychwanegol  a mathau o gam-drin

Mae prif gategorïau camdriniaeth wedi eu nodi yn adrannau 3 a 4 o'r llawlyfr ond mae yna rai diffiniadau newydd a phenodol yn cael eu defnyddio hefyd erbyn hyn. Rydym yn nodi yma rai o'r rhai mwyaf cyffredin ynghyd â dolenni sy'n cysylltu â ffynonellau'r diffiniadau a gwybodaeth bellach.

**CAMFANTEISIO'N  RHYWIOL AR BLANT**[i]
Ffurf o gamdriniaeth rywiol sy'n cynnwys y weithred rywiol ei hun neu unrhyw fath arall o weithgarwch rhywiol gyda phlentyn (unrhyw un sy'n iau na 18 oed). Hefyd creu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall sy'n cynnwys plant

- Mae cyfnewid yn rhan ohono ac fe all gynnwys gweithred o roi (er enghraifft - bygwth cam-drin) neu o ddal yn ôl (er enghraifft - peidio â chyflawni gweithred dreisgar).
- Fe all fod hwylusydd, sef rhywun sy'n derbyn rhywbeth ynghyd â, neu yn lle, y plentyn sy'n cael ei gamdrin.
- Mae'n bosibl na fydd plentyn yn adnabod natur gamddefnyddiol y berthynas neu'r cyfnewid. Fe all plentyn deimlo ei fod wedi rhoi ei ganiatâd iddo.

**MEITHRIN PERTHYNAS AMHRIODOL (GROOMING)**[ii] Mae hyn pan fydd rhywun (yn aml oedolyn neu berson ifanc hŷn) yn creu perthynas, ymddiriedaeth a chysylltiad emosiynol gyda phlentyn neu berson ifanc gyda'r bwriad o ddylanwadu a manteisio arnynt a'u cam-drin. Mae'n risg bosibl i unrhyw blentyn. Fe all ddigwydd ar-lein neu oddiar-lein a bydd yr oedolyn yn aml yn creu perthynas lle mae'r plentyn yn teimlo ei fod wedi ei ddeall neu'n bwysig. Gallai meithrin perthnasau amhriodol gynnwys rhoddion o nwyddau materol neu brofiadau. Mae pobl sy'n meithrin perthnasau amhriodol yn gweithio i ddatblygu sefyllfa lle mae'r plentyn yn ymddiried ynddynt a/neu'n teimlo y gall gael ganddynt rywbeth na all ei gael gan neb arall. Gall hyn fod yn gyfeillgarwch, yn berthynas y mae'r plentyn yn credu ei fod yn berthynas rhamantus, neu'n deimlad o berthyn neu o bwysigrwydd lle bydd y plentyn yn cael statws neu nwyddau sy'n creu argraff ar ei gyfoedion.

**CAMFANTEISIO'N DROSEDDOL AR BLANT**[i] Mae hyn pan fydd plentyn dan 18 oed yn rhan o weithgaredd droseddol, er enghraifft cludo cyffuriau neu arian sy'n dod ag elw personol i unigolyn, grŵp neu gang droseddol. Mae'n cynnwys elfen o gyfnewid ac yn gallu bod yn gamddefnydd o'r plentyn hyd yn oed os yw'n ymddangos yn gydsyniol. Mae'n cynnwys gorfodi a/neu ddenu i gydymffurfio, a bydd yn aml yn mynd law yn llaw â bygythiad o drais. Un agwedd nodweddiadol yw'r anghydbwysedd pŵer sy'n ffafrio'r rheiny sy'n camfanteisio.

Mae **BWLIO**[iii] yn ymddygiad sy'n brifo rhywun arall. Mae'n cynnwys galw enwau, taro, gwthio, lledaenu clecs, bygwth neu danseilio hyder. Fe all ddigwydd yn unrhyw le – yn yr ysgol, yn y cartref neu ar-lein. Bydd fel arfer yn digwydd dro ar ôl tro dros gyfnod hir. Mae sawl ffurf ar fwlio, er enghraifft:

- bwlio corfforol (taro, slapio, gwthio)
- bwlio llafar (galw enwau, clepian, bygwth)
- cam-drin aneiriol (arwyddion llaw, negeseuon testun)
- cam-drin emosiynol (bygwth, bychanu)
- eithrio (anwybyddu, ynysu)
- tanseilio hyder, beirniadu cyson, lledaenu clecs
- llech-drin (manipulation), gorfodi
- galwadau ffôn distaw, ffug neu sarhaus

Mae'r mathau canlynol o fwlio yn cael eu cyfrif hefyd yn DROSEDDAU CASINEB: bwlio hiliol, bwlio rhywiol, bwlio homoffobig neu drawsffobig, a bwlio rhywun oherwydd eu hanabledd.

**SEIBERFWLIO / CAM-DRIN AR-LEIN**[ii] Bwlio sy'n digwydd ar-lein. Yn wahanol i fwlio oddiar-lein, gall bwlio ar-lein ddilyn y plentyn i ble bynnag y bydd yn mynd, drwy ei rwydweithiau cymdeithasol, ei gemau ar-lein a'i ffôn symudol. Gall seiberfwlio gynnwys:

- anfon negeseuon testun bygythiol / ddifrïol
- creu a rhannu delweddau neu fideos
- trolling – the sending of menacing or upsetting messages on social networks, chat rooms or online game
- 'trolio' – anfon negeseuon bygythiol neu ofidus drwy rwydweithiau cymdeithasol, neu gemau ar-lein
- eithrio plant o gemau, gweithgareddau neu grwpiau cyfeillgarwch ar-lein
- cywilyddio ar-lein

- sefydlu safleoedd neu grwpiau casineb am blentyn penodol
- annog hunan-niweidio
- pleidleisio o blaid neu yn erbyn rhywun mewn pôl difrïol
- creu cyfrifon ffug, dwyn hunaniaethau ar-lein plentyn neu berson ifanc er mwyn codi cywilydd neu greu trafferth
- anfon negeseuon rhywiol h.y. secstio
- pwyso ar blant i anfon delweddau rhywiol neu gymryd rhan mewn sgyrsiau rhywiol

**CAM-DRIN NEU DRAIS DOMESTIG**[iv] Mae hyn yn ymddygiad oddi mewn i berthynas lle bydd un person yn cam-drin y llall er mwyn ennill neu gadw grym drosto neu drosti. Mae'n cynnwys cam-drin corfforol, rhywiol, emosiynol, seicolegol ac ariannol. Mae **RHEOLAETH ORFODOL** yn batrwm o ddigwyddiadau pwrpasol dros amser sy'n galluogi unigolyn i ennill rheolaeth, neu'r gallu i orfodi, neu rym dros un arall. Mae Adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 yn ymdrin â rheoli ymddygiad a gorfodaeth droseddol lle mae cysylltiad personol rhwng yr un sy'n cyflawni'r drosedd a'r un sy'n ei ddioddef. Mae'n ei gwneud yn bosibl i erlyn troseddwr lle nad yw'r dioddefwr wedi dioddef trais corfforol difrifol, ond lle mae o neu hi wedi dioddef cam-drin seicolegol ac emosiynol eithafol.

**CAM-DRIN YSBRYDOL**[v] Nodwedd benodol cam-drin ysbrydol yw patrwm parhaus, systematig o reolaeth orfodol mewn cyd-destun crefyddol (Oakley, 2017). Ei elfennau allweddol yw llech-drin (manipulation), manteisio a rheoli drwy'r camddefnydd o'r ysgrythurau neu safbwynt diwinyddol, sensro penderfyniadau, rhoi pwysau i gydymffurfio, gorfodi atebolrwydd, mynnu ufudd-dod, a chosbi drwy eithrio neu ynysu... a hyn wedi ei nodweddu gan batrwm parhaus o ymddygiad yn cynnwys beio, cywilyddio, bygwth a rheoli ymddygiad. (Oakley 2009, Oakley a Kinmond 2013). Fel gyda phob math arall o gamdriniaeth, bydd cam-drin ysbrydol weithiau'n cael ei ddefnyddio i gyfiawnhau mathau eraill o gam-driniaeth, ac yn cydfodoli â nhw a diwylliannau niweidiol eraill. Fel a nodwyd eisoes, mae iddo bob amser elfen emosiynol neu seicolegol ac mae modd felly ei ystyried yn is-gategori o gam-drin seicolegol. Mewn ambell achos mwy eithafol, fe all fod cam-drin ysbrydol yn cyd-fynd â cham-drin corfforol a rhywiol.

**CAM-DRIN PLANT ANNIWEDDAR / HANESYDDOL**[vi] Hwn yw'r term ar gyfer camdriniaeth a ddigwyddodd pan oedd oedolyn yn blentyn neu'n berson ifanc dan 18 oed. Bydd oedolion a gafodd eu cam-drin yn ystod eu plentyndod weithiau'n beio eu hunain, neu wedi eu gwneud i deimlo mai y nhw sydd ar fai am yr hyn a ddigwyddodd.

**CAETHWASIAETH FODERN**[vii] Manteisio ar bobl mewn modd anghyfreithlon er budd personol neu fasnachol. Mae'n ymdrin ag ystod eang o gamdriniaeth a chamfanteisio gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol, caethwasanaeth domestig, llafurio dan orfodaeth, camfanteisio troseddol a chynaeafu organau. Gall dioddefwyr caethwasiaeth fodern fod o unrhyw oedran, rhyw, cenedl neu ethnigrwydd. Maent yn dod yn gaethwieision drwy dwyll neu ar ôl eu bygwth, ac oherwydd ofn neu fygythiadau fe allen deimlo nad oes modd gadael nac ychwaith adrodd i'r awdurdodau yghylch y troseddu. Mae'n bosibl na fyddant yn deall eu bod yn dioddef trosedd.

**RADICALEIDDIO**[viii] Mae hwn yn broses sy'n cael ei ddefnyddio i gymell pobl i gefnogi terfysgaeth ac eithafiaeth ac, mewn rhai achosion, i ymaelodi â grwpiau terfysgol.

**ANFFURFIO ORGANAU RHYWIOL MERCH (FGM)**[ix] Y term ar gyfer y weithred o newid neu ddileu organau rhywiol merch yn fwriadol ac am resymau nad ydynt yn rhesymau meddygol. Termau eraill amdano yw 'enwaedu benywaidd' neu'n 'dorri ar fenyw'. Mae FGM yn ffurf o gam-drin. Mae FGM yn beryglus ac yn drosedd yn y DU.

**Mae'r diffiniadau hyn yn seiliedig ar wybodaeth o'r gwefannau canlynol ac mae'r panel yn cydnabod nad ein diffiniadau gwreiddiol yw'r rhain er bod rhai wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg gennym. Ymwelwyd â'r dolenni 07/2022**

---

i Camddefnyddio plant yn rhywiol a manteisio troseddol ar blant https://diogelu.cymru
ii Meithrin perthynas amhriodoI (GROOMING) https://cymunedaumwydiogel.cymru/ https://diogelu.cymru/
iii Bwlio a seiberfwlio www.nspcc.org.uk/what-is-child-abuse/types-of-abuse/bullying-and-cyberbullying/
iv Cam-drin domestig a rheolaeth orfodol https://diogelu.cymru Domestic Abuse Bill 2020: factsheets - GOV.UK
v Camdrin ysbrydol spiritual-abuse-position-statement.pdf (thirtyoneeight.org)
vi Cam-drin hanesyddol www.nspcc.org.uk/what-is-child-abuse/types-of-abuse/non-recent-abuse/
vii Caethwasiaeth Fodern https://cymunedaumwydiogel.cymru/caethwasiaeth-fodern-a-chamfanteisio/
viii Radicaleiddio https://learning.nspcc.org.uk/safeguarding-child-protection/radicalisation
ix FGM https://www.nspcc.org.uk/what-is-child-abuse/types-of-abuse/female-genital-mutilation-fgm/

## Atodiad 10: Yr eglwys mwy diogel - rhestr wirio diogelu[1]

### Diogelu

1. A yw pawb yn gwybod am y polisi a gweithdrefnau diogelu[i] eich eglwys a lle i gael hyd iddo?
2. Ydych chi o'r farn fod eich eglwys yn deall beth yw diogelu?[ii]

### Atal

3. Oes gennych chi gyd-lynydd diogelu?[iii]
4. A yw eich ymddiriedolwyr a'ch arweinwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu?[iv]
5. Ydych chi'n dilyn y canllawiau recriwtio mwy diogel – gan gynnwys gwiriadau DBS - wrth ganfod a chyflogi gwirfoddolwyr a staff?[v]
6. Ydych chi'n hyderus bod arweinwyr, staff a gwirfoddolwyr eich eglwys yn gwybod am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau diogelu? Ydyn nhw wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ac, os yn berthnasol, hyfforddiant gloywi/atgoffa?[vi]
7. Ydyn nhw'n gwybod bod diogelu'n golygu gweithredu mewn modd ataliol a rhagweithiol? Ydych chi wedi ystyried pwy o gynulleidfa eich eglwys allai fod mewn perygl ac wedi cymryd camau priodol i'w diogelu?

### Adnabod, adrodd a chofnodi

8. Ydych chi'n hyderus y byddai eich gwirfoddolwyr a staff yn adnabod ac yn ymateb yn briodol i amheuon, i gyhuddiadau, ac i ddatgeliadau o gamdriniaeth ac esgeulustod? Ydyn nhw'n cydnabod bod camdriniaeth yn rywbeth "allai ddigwydd yma"?
9. Ydych chi'n hyderus y byddai eich gwirfoddolwyr a staff hefyd yn adrodd ar arfer gwael yn ogystal â chamdriniaeth?
10. Lle cafodd pryderon eu hadnabod a'u hadrodd, allwch chi ddangos bod eich sefydliad wedi ymateb yn brydlon ac mewn modd priodol?
11. A yw pob mater neu bryder diogelu wedi ei adrodd i swyddog diogelu'r panel?
12. A yw eich ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i adrodd ynghylch materion diogelu i'r Comisiwn Elusennau?[iv]

### Adolygu

13. Ydych chi'n adolygu eich trefniadau diogelu'n rheolaidd? (h.y. o leiaf yn flynyddol ac yn dilyn pob digwyddiad neu achos pryderus).
14. Ydych chi'n sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a'u rhannu yn sgîl digwyddiad neu achos pryderus?
15. Os oes asesiadau risg ynglŷn â diogelu neu gytundebau ymddygiad gennych chi mewn lle, - ydych chi'n adolygu'r rhain yn yn unol â'r cytundebneu neu'n flynyddol?

### Gweithredu

16. Gwnewch restr o bopeth sydd ag angen ei wneud yn sgîl eich asesiad gan nodi dyddiadau ar gyfer adolygu'r cynnydd.
17. Os hoffech chi drafod canlyniadau eich asesiad neu ofyn am gyngor ar unrhyw fater yn ymwneud â diogelu, cysylltwch â swyddog diogelu'r panel.

[1] Mae'r ddogfen hon wedi wedi ei defnyddio â chaniatâd yr Ann Craft Trust a'i seilio ar ei restr wirio ryngweithiol: https://www.anncrafttrust.org/checklist-overview/

[i] Y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus https://panel.cymru/cy/llawlyfr-diogelu-grwpiau
[ii] Ydych chi wedi arddangos polisi eich eglwys ac ystyried cynnal gwasanaeth Sul Diogelu?
[iii] Am fwy o fanylion gweler tudalen 3 o'r datganiad polisi diogelu'r eglwys unigol https://panel.cymru/cy/polisiau-a-gwybodaeth
[iv] Gweler atodiad 7 o'r llawlyfr 2022
[v] Gweler adran 2 o'r llawllyfr neu https://panel.cymru/cy/recriwtio-mwy-diogel
[vi] Gweler tudalen hyfforddiant ein gwefan https://panel.cymru/cy/hyfforddiant

# 7. Ffurflenni

# Adran 7:
## Ffurflenni

GDPR y DU a ffurflenni'r panel

1. Ffurflen gais gwirfoddolwyr
2. Ffurflen hunan-ddatganiad
3. Rhestr wirio ar gyfer penodi
4. Llythyr a ffurflen geirda

5. Gwybodaeth gyffredinol a ffurflen ganiatâd dan 11 oed
6. Gwybodaeth gyffredinol a ffurflen ganiatâd dros 11 oed (yn gynnwys caniatâd ar gyfer cyfathrebu'n electronig)
7. Ffurflen ganiatâd - gweithgaredd arbennig
8. Ffurflen ganiatâd - tynnu lluniau

9. Ffurflen damwain neu ddigwyddiad
10. Ffurflen asesiad risg
11. Ffurflen nodi pryder

## Adran 7: Rheoliad cyffredinol ar ddiogelu data (GDPR) y DU a ffurflenni'r panel

**Mae'r ffurflenni diweddaraf i'w cael ar wefan y panel: panel.cymru/cy/ffurfleni-defnyddiol**

Mae angen rhoi sylw i'r canlynol wrth ddefnyddio ffurflenni o'r Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus:

*Daeth y **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data** i rym ar 25 Mai 2018. Canlyniad hyn yn y DU oedd creu Deddf Diogelu Data (2018), a ddisodlodd Ddeddf Diogelu Data 1998. Ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, fe gyfeirir atynt fel Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (UK GDPR). Yn y ddogfen hon byddwn yn cyfeirio atynt fel 'y Rheoliad Diogelu Data'.*

Mae'r Rheoliad Diogelu Data'n nodi saith egwyddor allweddol a chanolog i bob proses trin data. Mae'r egwyddorion hyn i'w cymhwyso bob tro y byddwch yn ymdrin â gwybodaeth bersonol megis y wybodaeth y byddwch yn ei chasglu wrth ddefnyddio ffurflenni'r Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus. Mae'r egwyddorion yn berthnasol i bob data, p'un ai yw'r wybodaeth ar bapur ynteu ar ffurf electronig.

1. **Prosesu'n unol â'r gyfraith**, ac mewn modd teg a thryloyw.

2. **Pwrpas cyfyngedig** – i ateb diben penodol a ddim i'w ddefnyddio i unrhyw bwrpas arall.

3. **Y lleiafswm angenrheidiol o ddata** – ni ddylid casglu mwy na'r hyn sydd ei angen.

4. **Cywir**: sicrhau bod pob gwybodaeth bersonol yn gywir.

5. **Cyfnod storio'n gyfyngedig** – peidio â chadw'r wybodaeth yn hirach nag sydd ei angen.

6. **Cyfrinachedd a diogelwchy** - h.y. diogelu'r wybodaeth rhag ei ddatgelu heb yr awdurdod priodol neu'n ddamweiniol.

7. **Atebolrwydd** – bod y rhai sy'n casglu data yn bobl gyfrifol sy'n cydymffurfio'n amlwg â'r egwyddorion uchod.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y Comisiynydd Gwybodaeth https://ico.org.uk/

**Mae'r ffurflenni enghreifftiol yn y Llawlyfr at ddefnydd yr eglwys leol, a dylai'r holl ddata personol cael eu casglu/defnyddio/cadw/dinistrio gan yr eglwys yn unol â chanllawiau'r Rheoliad Diogelu Data ac â'ch polisïau preifatrwydd lleol neu enwadol.**

<u>FFURFLENNI RECRIWTIO</u> (**ffurflenni 1-4**)**:** Mae angen sicrhau cyfrinachedd a phreifatrwydd wrth gasglu a storio gwybodaeth o'r ffurflenni cais a'r ffurfalenni hunanddatgelu. Mae angen storio'r ffurflenni mewn lle diogel sy'n gwarchod eu cyfrinachedd. Rhaid peidio â chadw ffurflenni cais pobl na chafodd eu dewis i weithio neu wirfoddoli.

Rhaid peidio â chadw na gwneud copïau o dystysgrifau datgelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Bydd swyddfa'r panel yn rhoi gwybod i'r eglwys pan fydd y proses Datgelu a Gwahardd wedi ei gwblhau gan yr ymgeisydd. Yr ymgeisydd, nid yr eglwys, sydd i gadw'r tystysgrifau. (Gweler hefyd ddatganiad preifatrwydd y panel - yn adran Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gwefan y panel - sy'n esbonio sut mae'r panel yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth gwiriad Datgelu a Gwahardd).

<u>FFURFLENNI CANIATÂD PLANT</u> (**ffurflenni 5-8**)**:** Er mwyn cynnal gweithgareddau plant dan 18 oed, tynnu eu lluniau neu geisio cymorth meddygol ar eu cyfer, mae angen cael caniatâd y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant drostynt. Mae'r caniatâd hwn yn sail gyfreithiol i brosesu data personol. Mae angen hefyd ystyried dymuniadau'r plentyn ei hun, a'u parchu os yw e.e. yn anhapus i gael tynnu ei lun, hyd yn oed os yw'r rhiant wedi cytuno. Mae angen bod yn ymwybodol o'r angen i amddiffyn

plant wrth gasglu a phrosesu eu data personol gan nad yw plant bob amser yn ymwybodol o'r risgiau dan sylw. Mae gan blant yr un hawliau ag oedolion ynghylch eu data personol, yn cynnwys yr hawl i gael mynediad iddo, i ofyn am ei gywiro, ac i wrthwynebu ei brosesu a'i ddileu. Gweler hefyd y nodyn isod ar ddiogelu.

**FFURFLENNI DAMWAIN** (**ffurflen 9**)**:** Mae'r Rheoliad Diogel Data yn berthnasol i ffurflenni damwain oherwydd bod y ffurflenni yn cynnwys data personol bobl sydd ynglŷn â'r ddamwain - y rhai a'i dioddefodd, y tystion, y rhai sy'n gyfrifol am weithredu yn ei gylch, ac ati.

Mae angen cadw cofnod o ddamwain am o leiaf 3 blynedd (oni bai ei fod yn ddamwain dan reolau COSHH). Mae gofyn i sefydliad ddileu data pan nad oes ei angen mwyach. Os yw'n dymuno cadw adroddiadau damwain am fwy na thair blynedd er mwyn e.e. bod yn gymorth i lunio asesiadau risg neu bolisïau, fe gaiff wneud hynny ar yr amod ei fod yn dileu y manylion personol ohonynt.

**FFURFLEN NODI PRYDER** (**ffurflen 11**)**:** Mae'n ofynnol sicrhau cyfrinachedd a phreifatrwydd pobl wrth gasglu a storio gwybodaeth ynglŷn â cham-drin neu gyhuddiadau. Er hynny, mae'n debygol fe all fod angen rhannu'r wybodaeth hon er mwyn diogelu plant neu oedolion bregus. Mewn achos o'r fath noder y wybodaeth yn y blwch isod.

**DIOGELU A'R RHEOLIAD CYFFREDINOL DDIOGELU DATA Y DU (UK GDPR):**

Nid yw'r Rheoliad Diogelu Data'n gwahardd rhannu gwybodaeth at ddibenion diogelu.

Gellir rhannu gwybodaeth bersonol heb ganiatâd - at ddibenion diogelu a hyrwyddo lles - os oes sail gyfreithiol i'r rhannu hwnnw ac os byddai ceisio caniatâd i'w rhannu'n peryglu plentyn neu berson bregus.

## Hollol gyfrinachol

Enw'r sefydliad / lle addoli ........................................................................................................

Swydd neu swyddogaeth ........................................................................................................
(e.e. Athro Ysgol Sul)

*Gofynnwn i bob darpar weithiwr gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus lenwi'r ffurflen hon. Defnyddiwch daflen ychwanegol os nad oes digon o le ar y ffurflen i roi eich ateb llawn. Cedwir y wybodaeth yn gyfrinachol gan y sefydliad / lle addoli oni wneir cais gan awdurdod priodol.*

**1. Manylion Personol**

Enw Llawn: ........................................................ Cyfeiriad: ........................................................

.......................................................................................... Côd Post .....................................

Rhif Ffôn: ..............................................................................

E-bost:..................................................................................

**2. Eich profiad**

Rhowch fanylion eich profiad(au) Cristnogol gyda'r eglwys(i) / sefydliad(au) y bu ichi ymwneud â hwy, gan nodi enwau, dyddiadau a natur yr hyn y buoch yn ei wneud:

Rhowch fanylion eich profiad o weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus. Nodwch unrhyw gymwysterau priodol sydd gennych.

**3. Geirda**

Nodwch fanylion dau unigolyn sy'n fodlon rhoi geirda ar eich rhan. Os ydych yn gweithio ar hyn o bryd – yn gyflogedig neu'n wirfoddol – dylai'ch cyflogwr fod yn un ohonynt. Cedwir yr hawl i geisio geirda gan unigolion eraill pe bai angen hynny.

| | |
|---|---|
| Enw: ........................................................................ | Enw: ........................................................................ |
| Cyfeiriad: ................................................................ | Cyfeiriad: ................................................................ |
| Côd Post: ................................................................ | Côd Post: ................................................................ |
| Ffôn: ........................................................................ | Ffôn: ........................................................................ |
| Swydd: .................................................................... | Swydd: .................................................................... |
| Perthynas: .............................................................. | Perthynas: .............................................................. |

**4. Datganiad**

Rwy'n cadarnhau fod yr wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn gywir a chyflawn. Rwy'n deall ac yn cytuno gyda'r amodau sy'n berthnasol i'r Gwiriad Datgelu Troseddau ac yn cytuno, os caf y mhenodi, i wneud cais trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rwyf wedi anfon y ffurflen hunan-ddatganiad i'r sawl sy'n penodi mewn amlen ar wahân.

Llofnod: ..............................................................   Dyddiad: ..................................................................

**Anfonwch y ffurflen hon at y sawl sy'n gyfrifol am benodi gwirfoddolwyr**

Fel sefydliad rydym yn ymgymryd â gofynion GDPR y DU a deddfwriaeth diogelu data perthnasol, a phob deddfwriaeth mewn perthynas â datgeliadau cofnodion troseddol.

*Tachwedd 2013  Yn seiliedig ar ffurflen CCPAS, gyda'u caniatâd*

## Hollol gyfrinachol

Fel lle addoli / sefydliad, ymgymerwn i gydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data 1998 a phob deddfwriaeth berthnasol arall, yn ogystal â gofynion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o ran preifatrwydd data unigolion.

Gofynnir i bob ymgeisydd/gwirfoddolwr lenwi'r ffurflen hon, ei datod o'r Ffurflen Gais a'i hanfon at y sawl sy'n penodi a enwir isod, mewn amlen ar wahân.*

Enw a chyfeiriad y sawl sy'n penodi:

Enw'r ymgeisydd: ……………………………………………………………………………………………………

Y swydd wirfoddol : …………………………………………………………………………………………………

**DATGANIAD O GOFNOD TROSEDDOL**

A oes euogfarnau, rhybuddion, ceryddon neu rybuddion terfynol yn eich erbyn sydd heb eu 'gwarchod' yn ôl Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) Gorchymyn 1975 (diwygiad 2013) SI2011198

Oes ❑ Nac oes ❑ (ticiwch yr ateb perthnasol)

A oes gennych unrhyw euogfarn sydd heb ddarfod, neu a ydych ar hyn o bryd yn rhan o ymchwiliad troseddol neu ar fin cael eich erlyn?

Oes ❑ Nac oes ❑

Os 'Oes', rhowch y manylion isod, gan gynnwys y math o drosedd(au) a'r dyddiad(au) perthnasol.

A fuoch yn rhan o unrhyw ymchwiliad troseddol erioed, ond na arweiniodd at gollfarn droseddol (ac nad yw'n ddarostyngedig i reolau hidlo'r DBS)*?

Do ❑ Naddo ❑ (Os 'Do', nodwch y manylion isod)

A fu pryder o unrhyw fath erioed o ran eich ymddygiad yng nghwmni plant, pobl ifanc neu oedolion bregus?

Do ❑ Naddo ❑ (Os 'Do', nodwch y manylion isod)

Rwyf fi (enw llawn) ............................................... o (cyfeiriad) ........................................................

.................................................................................................................................................................

yn cytuno i wneud Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS) os caf fy mhenodi i'r swydd yr wyf yn ymgeisio ar ei chyfer. Sylweddolaf y bydd manylion collfarnau, rhybuddion ac ymrwymiadau cyfreithiol a wnaed yn fy erbyn yn cael eu datgelu, yn ogystal â manylion unrhyw erlyniad sydd ar y gweill ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd ym meddiant yr heddlu.

Cytunaf i hysbysu'r sawl o fewn y lle addoli / sefydliad sy'n delio gyda'm cais pe bai imi gael fy nghollfarnu am drosedd ar ôl cychwyn y swydd. Os na fyddaf yn gwneud hynny sylweddolaf y gallwn gael fy ngwahardd ar unwaith rhag gweithio gyda phlant neu oedolion bregus ac/neu fy niswyddo.

Cytunaf i hysbysu'r sawl o fewn y lle addoli / sefydliad sy'n delio gyda'm cais pe bai i'r heddlu ac/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Gofal Cymdeithasol Plant neu'r Gwasanaeth Cymdeithasol Oedolion) gynnal ymchwiliad yn fy erbyn. Os na fyddaf yn gwneud hynny, sylweddolaf y gallwn gael fy ngwahardd ar unwaith rhag gweithio gyda phlant neu oedolion bregus ac/neu fy niswyddo.

Llofnod: ........................................................... Dyddiad: ...........................................................

**Nodiadau**

*Mae'r diwygiadau i'r Gorchymyn Eithriadau 1975 (2013) yn darparu bod rhai euogfarnau sydd wedi darfod a rhybuddion yn 'warchodedig' ac nad ydynt yn ddarostyngedig i ddatgeliad i gyflogwyr, ac na ellir eu cymryd i ystyriaeth. Mae canllawiau a meini prawf ar yr hidlo o'r rhybuddion ac euogfarnau hyn i'w gweld ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.*
**https://www.gov.uk/government/publications/filtering-rules-for-criminal-record-check-certificates*
*https://www.gov.uk/government/publications/dbs-filtering-guidance*
***https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/148542/rehabilitationoffenders.pdf*

*Tachwedd 2013 Yn seiliedig ar ffurflen CCPAS, gyda'u caniatâd*

## Ffurflen 3: Rhestr wirio ar gyfer penodi

Enw: ..............................................................................................................................

Rôl: ..............................................................................................................................

| Yr hyn y mae angen ei wneud | Dyddiad | 'Initials' |
|---|---|---|
| Ffurflen Gais | | |
| Anfonwyd | | |
| Dychwelwyd | | |
| Trafodaeth / cyfweliad ynghylch y swyddogaeth: | | |
| Ffurflen Hunan-Ddatganiad | | |
| Archwilio cymwysterau (dilëwch os nad yw'n berthnasol) | | |
| Geirda: | | |
| Gofynnwyd amdanynt (nifer) | | |
| Derbyniwyd (nifer) | | |
| **Gwiriad DBS:**<br>Gofynnwyd i'r Panel Diogelu Cydenwadol am ffurflen DBS | | |
| Anfonwyd at yr ymgeisydd, gyda ffurflen wybodaeth | | |
| Wedi ei gwblhau gan yr ymgeisydd | | |
| Hunaniaeth yr ymgeisydd wedi ei wirio, a'r ffurflen wedi ei hanfon at swyddfa'r panel | | |
| Mae'r panel wedi cadarnhau bod y proses wedi'i cwblhau | | |
| **Hyfforddiant:**<br>Nodwch y cyrsiau hyfforddi a fynychwyd gan yr ymgeisydd, a'r dyddiadau | | |
| Cychwyn y cyfnod prawf: | | |
| Diwedd y cyfnod prawf: | | |
| Nodiadau (gan gynnwys eich penderfyniad terfynol,<br>gwybodaeth am y cyfnod prawf ac ati): | | |

## Ffurflen 4: Llythyr a ffurflen geirda

Annwyl ....................................................................... .

**Par: Geirda ar gyfer** ......................................................................................... [**Enw'r Ymgeisydd**]

Mae'r sawl a enwir uchod wedi ymgeisio ar gyfer swydd gweithio gyda phlant / pobl ifanc / oedolion bregus* yn/gyda ............................................................................................ [*enw'r eglwys / sefydliad*]

Fel y gwyddoch, rhaid inni sicrhau addasrwydd unrhyw un cyn ei dd/derbyn i weithio gyda phlant/ oedolion bregus, p'un ai yn waith cyflog neu wirfoddol. Mae'r ymgeisydd uchod wedi rhoi eich enw ar gyfer darparu geirda.

Gwerthfawrogwn felly pe baech yn rhoi eich barn o ran addasrwydd yr unigolyn ar gyfer y swydd, trwy lenwi'r ffurflen sydd ynghlwm, wedyn ei dychwelyd yn yr amlen bwrpasol cyn gynted ag y bo modd. Rydym hefyd yn amgáu manylion y swyddogaeth.

Nodwch, os gwelwch yn dda, bod y swydd hon wedi'i heithrio o Adran 4(2) Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Gorchymyn Eithriadau sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol). Nid yw felly yn groes i'r Ddeddf ichi ddatgelu gwybodaeth ynghylch collfarnau a fyddai fel arall yn cael eu hystyried wedi 'darfod'.

Cedwir y wybodaeth a roddwch yn hollol gyfrinachol, ac fe'i defnyddir i ystyried addasrwydd yr unigolyn uchod ar gyfer y swydd hon.

Os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â ...................................................... .

trwy ffonio ..........................................................

Gyda diolch o flaen llaw am eich cymorth.

Yn gywir,

**Dileeir fel bo'n briodol*
*Tachwedd 2013 Yn seiliedig ar ffurflen CCPAS, gyda'u caniatâd*

**Geirda ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion bregus Hollol Gyfrinachol**

GEIRDA AR GYFER: ..................................................

Y SWYDD: ..................................................

Eich enw: ..................................................

Galwedigaeth: ..................................................

Ers pa bryd yr ydych yn adnabod yr ymgeisydd? ..................................................

Sut y daethoch i adnabod yr ymgeisydd? ..................................................

1. A yw'r ymgeisydd wedi gweithio neu edrych ar ôl plant neu bobl ifanc / oedolion bregus* o'r blaen, neu wedi cynnal swyddogaeth gofal neu â chyfrifoldeb gydag unrhyw grŵp?

Do ❑ (rhowch y manylion) Naddo ❑

2. Bydd deilydd y swydd hon yn gweithio'n agos iawn gyda phlant/pobl ifanc/oedolion bregus.* Hyd y gwyddoch, a oes unrhyw reswm pam na ddylai'r ymgeisydd ofalu am blant neu oedolion bregus?

Do ❑ (rhowch y manylion) Naddo ❑

3. A yw'r ymgeisydd yn dioddef anawsterau iechyd – boed gorfforol neu feddyliol – a allai amharu ar ei (g)allu i weithio gyda phlant/oedolion bregus?

Do ❑ Naddo ❑

Os nodwch 'Ydy' rhowch manylion isod gan gynnwys unrhyw gymorth ychwanegol neu oruchwyliaeth y bydd angen ei roi i'r ymgeisydd i'w (g)alluogi i weithio gyda phlant a phobl ifanc/ oedolion bregus

Defnyddiwch daflen ychwanegol pe bai angen hynny.

Llofnod: .................................................. Dyddiad: ..................................................

Diolch am eich cymorth.

Anfonwch y ffurflen at:

*dilëwch fel sy'n berthnasol

## Ffurflen 5: Ffurflen ganiatâd a gwybodaeth (o dan 11 oed)

Enw'r Lle Addoli / Sefydliad: ........................................................................................................

Grŵp (gan gynnwys diwrnod/amser y gweithgaredd): ......................................................................

Enw llawn y plentyn / person ifanc: ..................................................................................

Dyddiad Geni: ...............................................

Cyfeiriad: ..............................................................................................................................

Enw'r Meddyg Teulu:............................................... Teleffôn: ...............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................................................................................

Dyddiad y brechiad gwrth-tetanus olaf, os gwyddoch hynny: ..............................................................

Nodwch unrhyw feddyginiaeth a gymerir yn rheolaidd, unrhyw anhawster meddygol (e.e. asthma, epilepsi, alergedd, anghenion deiet etc.) neu anabledd a allai effeithio ar weithgarwch arferol y plentyn. Hefyd, nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai gynorthwyo'r arweinydd o ran cynnal a gofalu am y plentyn yn effeithiol.

Cytunaf i roi gwybod i arweinwyr y grŵp, mewn ysgrifen, os yw'r manylion uchod yn newid.

Enw'r rhieni / gofalyddion: ...............................................................................................................

Teleffôn: Dydd ................................................... Nos ..............................................................

Rhiant/Gofalydd ................................................... Ffôn symudol 1 .................................................

Rhiant/Gofalydd ................................................... Ffôn symudol 2 .................................................

Enw cyswllt ychwanegol (e.e Nain/ Mam-gu, Taid/ Tad-cu neu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant)

Enw: ........................................................ Teleffôn: ..............................................................

Os nad ydych yn meddu ar gyfrifoldeb rhiant (e.e. chi yw'r gofalydd maeth neu Nain/Taid y plentyn) nodwch fanylion y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant:

Enw(au):................................................... Teleffôn: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

**Rwy'n cytuno i** ........................................................................................................ (**enw'r plentyn**)

**gymryd rhan yng ngweithgareddau arferol y grŵp.**

Rwy'n deall y bydd angen caniatâd ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau megis nofio a digwyddiadau sy'n gorffen yn hwyrach nag amser arferol y grŵp. Rwy'n deall y bydd y plentyn dan ofal a rheolaeth arweinydd y grŵp ac/neu oedolion eraill a gymeradwyir gan y lle addoli/sefydliad. Deallaf hefyd y bydd y staff sydd yng ngofal y grŵp yn gofalu am y plant cymaint â phosib, ac o fewn rheswm, ond ni fyddant o reidrwydd yn gyfrifol am unrhyw golled, difrod neu niwed a ddioddefir gan fy mhlentyn yn ystod y gweithgaredd, neu o ganlyniad i'r gweithgaredd.

**Mewn argyfwng, rwy'n caniatáu i'm plentyn gael triniaeth feddygol.**
Pan fo angen cyngor neu driniaeth feddygol, gwneir pob ymdrech i gael cymorth Meddyg Teulu neu Adran Ddamweiniau ac Argyfwng mewn ysbyty. Yn ôl Deddf Plant 1989 mae modd i feddyg drin plentyn trwy wneud 'yr hyn sy'n resymol yn yr amgylchiadau sydd ohoni er mwyn diogelu neu wella lles y plentyn'. Serch hynny, byddwn yn cysylltu â'r rhiant/gofalydd cyn gynted ag y bo modd er mwyn rhoi gwybod beth sy'n digwydd.

**Cludiant**
Oni bai fod trefniadau penodol wedi eu cytuno, ni fydd yr arweinwyr yn gyfrifol am gludo'r plant i weithgareddau'r grŵp ac oddi yno. Os yw rhieni'n dymuno rhannu cludiant, trefniadau preifat ymhlith ei gilydd fydd hynny.

Mewn argyfwng, neu er mwyn cael cymorth feddygol, gallai plentyn gael ei g/chludo yng ngherbyd arweinydd neu oedolyn cymeradwy arall.

**Adrodd am Ddamwain/Digwyddiad:** Nodir manylion unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad yn Nghofnod Damweiniau/Digwyddiadau yr eglwys, a bydd y mater yn cael ei drafod gyda'r rhieni/gofalyddion cyn gynted ag y bo modd.

Llofnod: ........................................................ Dyddiad: ........................................................

Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio a'i storio yn unol â rheoliadau GDPR y DU

*Tachwedd 2013 Yn seiliedig ar ffurflen CCPAS, gyda'u caniatâd*

## Ffurflen 6: Ffurflen ganiatâd a gwybodaeth (person ifanc dros 11 oed) - yn cynnwys caniatâd ar gyfer cyfathrebu'n electronig

Enw'r Lle Addoli / Sefydliad: ..............................................................................................................

Grŵp (gan gynnwys diwrnod/amser y gweithgaredd): ...................................................................................

Enw llawn y person ifanc:..............................................................................................................

Dyddiad Geni: ................................................

Cyfeiriad: ..............................................................................................................

Enw'r Meddyg Teulu: .............................................. Teleffôn: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................................................................

Dyddiad y brechiad gwrth-tetanus olaf, os gwyddoch hynny: ...........................................................

Nodwch unrhyw feddyginiaeth a gymerir yn rheolaidd, unrhyw anhawster meddygol (e.e. asthma, epilepsi, alergedd, anghenion deiet etc.) neu anabledd a allai effeithio ar weithgarwch arferol y person ifanc. Hefyd, nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai gynorthwyo'r arweinydd o ran cynnal a gofalu am y person ifanc yn effeithiol.

| |
|---|
| |

Cytunaf i roi gwybod i arweinwyr y grŵp, mewn ysgrifen, os yw'r manylion uchod yn newid.

Enw'r rhieni / gofalyddion ..............................................................................................................

Teleffôn: Dydd .................................................... Nos ..............................................................

Rhiant/Gofalydd .................................................... Ffôn symudol 1 ..................................................

Rhiant/Gofalydd .................................................... Ffôn Symudol2 ..................................................

Enw cyswllt ychwanegol (e.e Nain, Taid neu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant)

Enw:.......................................................... Teleffôn: ..............................................................

Os nad ydych yn meddu ar gyfrifoldeb rhiant (e.e. chi yw'r gofalydd maeth neu Nain/Taid y plentyn) nodwch fanylion y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant:

Enw(au):.......................................................... Teleffôn: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................................................................

..............................................................................................................................

**Rwy'n cytuno i** .......................................................................................... (**enw'r person ifanc**)

**gymryd rhan yng ngweithgareddau arferol y grŵp.**

Rwy'n deall y bydd angen caniatâd ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau megis nofio a digwyddiadau sy'n gorffen yn hwyrach nag amser arferol y grŵp. Rwy'n deall y bydd y plentyn dan ofal a rheolaeth arweinydd y grŵp ac/neu oedolion eraill a gymeradwyir gan y lle addoli/sefydliad. Deallaf hefyd y bydd y staff sydd yng ngofal y grŵp yn gofalu am y plant cymaint â phosib, ac o fewn rheswm, ond ni fyddant o reidrwydd yn gyfrifol am unrhyw golled, difrod neu niwed a ddioddefir gan fy mhlentyn yn ystod y gweithgaredd, neu o ganlyniad i'r gweithgaredd.

**Mewn argyfwng, rwy'n caniatáu i'm plentyn gael triniaeth feddygol.**
Pan fo angen cyngor neu driniaeth feddygol, gwneir pob ymdrech i gael cymorth Meddyg Teulu neu Adran Ddamweiniau ac Argyfwng mewn ysbyty. Yn ôl Deddf Plant 1989 mae modd i feddyg drin plentyn trwy wneud 'yr hyn sy'n resymol yn yr amgylchiadau sydd ohoni er mwyn diogelu neu wella lles y plentyn'. Serch hynny, byddwn yn cysylltu â'r rhiant/gofalydd cyn gynted ag y bo modd er mwyn rhoi gwybod beth sy'n digwydd.

**Cludiant**
Oni bai fod trefniadau penodol wedi eu cytuno, ni fydd yr arweinwyr yn gyfrifol am gludo'r bobl ifanc i weithgareddau'r grŵp ac oddi yno. Os yw rhieni'n dymuno rhannu'r cludiant, trefniadau preifat ymhlith ei gilydd fydd hynny.

Mewn argyfwng, neu er mwyn cael cymorth feddygol, gallai person ifanc gael ei g/chludo yng ngherbyd arweinydd neu oedolyn cymeradwy arall.

**Adrodd am Ddamwain/Digwyddiad:** Nodir manylion unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad yng Nghofnod Damweiniau/Digwyddiadau yr eglwys, a bydd y mater yn cael ei drafod gyda'r rhieni/gofalyddion cyn gynted ag y bo modd.

Llofnod: ............................................................ Dyddiad: ...............................................................

Adran Ddewisol:
**Caniatâd ar gyfer Cyfathrebu'n Electronig gyda Phlant a Phobl ifanc**
Mae llawer o blant a phobl ifanc yn cyfathrebu trwy gyfryngau electronig, megis ffôn symudol, e-bost a chyfryngau Rhyngrwyd – gall hynny olygu bod trefniadau llawer cyflymach a mwy hwylus.

Nodwch na fyddwn yn defnyddio Facebook i gysylltu gyda phlant dan 13 oed, oherwydd nid yw Facebook wedi ei fwriadu ar gyfer y plant hynny.

**A ydych yn caniatáu i weithiwr ieuenctid gyfathrebu gyda'ch plentyn trwy gyfrwng y dulliau hynny?**
*Ni fydd eich plentyn dan anfantais os na fyddwch yn rhoi caniatâd, oherwydd bydd yr arweinwyr yn cysylltu gyda chi i wneud trefniadau eraill.*

Rwy'n caniatáu i'm plentyn a'r gweithwyr ieuenctid gyfathrebu gyda'i gilydd trwy gyfrwng ffon symudol / e-bost / rhyngrwyd ar gyfer trefnu gweithgareddau plant / pobl ifanc ❑

*Neu*

Nid wyf yn caniatáu i'm plentyn a'r gweithwyr ieuenctid gyfathrebu gyda'i gilydd trwy gyfrwng ffon symudol / e-bost / rhyngrwyd ar gyfer trefnu gweithgareddau plant / pobl ifanc. ❑
(*Dilëwch y frawddeg briodol, ac unrhyw fodd cyfathrebu nad ydych yn fodlon ei ganiatáu*).

Llofnod: ............................................................ Dyddiad: ...............................................................

*Tachwedd 2013 Yn seiliedig ar ffurflen CCPAS, gyda'u caniatâd*

Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio a'i storio yn unol â rheoliadau GDPR y DU

## Ffurflen 7: Ffurflen ganiatâd - gweithgaredd arbennig

Eglwys/Sefydliad: ............................................................ Grŵp: ........................................................

RHOWCH FANYLION Y GWEITHGAREDD AC UNRHYW GOST: ........................................................

..............................................................................................................................................................

Enw llawn y plentyn/person ifanc: .........................................................................................................

Dyddiad Geni: ........................................................................................................................................

Cyfeiriad: ...............................................................................................................................................

Enw'r rhieni/gofalyddion, a manylion cyswllt: ...................................................................................

Rhiant / Gofalydd 1 ...............................................................................................................................

Rhiant / Gofalydd 2 ...............................................................................................................................

**Rwy'n cytuno i** ................................................................................................ (**enw'r person ifanc**) **gymryd rhan yn y weithgaredd uchod.**

Rwy'n deall y bydd y plentyn dan ofal a rheolaeth arweinydd y grŵp ac/neu oedolion eraill a gymeradwyir gan y lle addoli/sefydliad. Deallaf hefyd y bydd y staff sydd yng ngofal y grŵp yn gofalu am y plant cymaint â phosib, ac o fewn rheswm, ond ni fyddant o reidrwydd yn gyfrifol am unrhyw golled, difrod neu niwed a ddioddefir gan fy mhlentyn yn ystod y weithgaredd, neu o ganlyniad i'r weithgaredd.
Mewn argyfwng, rwy'n caniatáu i'm plentyn gael triniaeth feddygol.

Serch hynny, dylid rhoi gwybod i'r rhieni/gofalyddion beth sy'n digwydd cyn gynted â phosib.

Nodwch unrhyw gyflwr meddygol, neu anabledd, meddyginiaeth a gymerir yn rheolaidd, ac unrhyw wybodaeth ychwanegol gall fod yr arweinydd ei angen i ofalu am eich plentyn yn effeithiol yn ystod yr weithgaredd a enwir uchod.

..............................................................................................................................................................

**Cludiant**
Oni bai fod trefniadau penodol wedi ei nodi isod, chi sy'n gyfrifol am drafnidiaeth i'r gweithgareddau uchod. Bydd yr arweinydd yn cludo'r plentyn os oes achos o argyfwng.

Rwy'n caniatáu i'm plentyn gael ei g/chludo i'r gweithgaredd ac oddi yno / mewn argyfwng (dilëwch yn ôl y gofyn).

Wrth arwyddo'r ddogfen hon rydych yn cytuno i'ch plentyn gymryd rhan yn yr weithgaredd, yn cytuno i'r gweithwyr gael cyngor a threfnu triniaeth feddygol ar gyfer eich plentyn os bydd angen hynny, ac yn cytuno i'r arweinydd gludo'ch plentyn os nodir uchod.

Llofnod: (Rhiant/Gofalydd) .............................................. Dyddiad: ....................................................

*Tachwedd 2013 yn seiliedig ar ffurflen CCPAS, gyda'u caniatâd*

## Ffurflen 8: Ffurflen ganiatâd i dynnu a defnyddio lluniau

(***Gall y rhai dros 18 gwblhau'r ffurflen hon eu hunain***)

Rwyf i ………………………………………. (enw) , (perthynas/swyddogaeth)……………………………………………

(enw llawn y plentyn/ person ifanc) ………………………………………………………………………………………..

drwy hyn yn rhoi caniatâd i ……………………………………………………………. (enw eglwys neu sefydliad) i ddefnyddio unrhyw ddelwedd lonydd a/neu symudol boed yn ddarn o ffilm fideo, yn ffotograffau a/neu'n fframiau a/neu ddarnau o dâp sain sy'n dangos y person a enwyd uchod a dynnwyd ar ran y sefydliad.

Os yw'r caniatâd ar gyfer gweithgaredd neu achlysur arbennig nodwch fanylion yma

Gallwn ddefnyddio delweddau fel hyn i'n helpu i godi ymwybyddiaeth o waith y sefydliad ar gyfer cyhoeddusrwydd neu i rannu gwybodaeth. Bydd y cydsynio uchod yn berthnasol am gyfnod o ddwy flynedd.

Llofnod ………………………………………………………. Dyddiad ………………………………………………………

Cyfeiriad ……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………..

Dychwelwch y ffurflen hon i:

## Ffurflen 9: Ffurflen damwain neu ddigwyddiad

Llenwch y ffurflen hon ar unwaith yn dilyn y ddamwain neu ddigwyddiad sylweddol. Dylai'r gweithiwr drafod gydag arweinydd y grŵp beth yn union y dylid ei wneud nesaf.

Dyddiad, diwrnod ac amser y digwyddiad ................................................................................................

Enwau'r rhai oedd a wnelo â'r digwyddiad ..........................................................................................

..............................................................................................................................................................

Ble digwyddodd? .....................................................................................................................................

Disgrifiwch yr hyn a ddigwyddodd (gan nodi unrhyw anafiadau, a'r driniaeth feddygol / cymorth cyntaf a roddwyd)

A welodd rhywun y peth yn digwydd? (Enwau, cyfeiriadau, rhifau Teleffôn, ac oedran unigolion os o dan 16 oed)

..............................................................................................................................................................

A ydych wedi cadw unrhyw offer diffygiol?

❑ DO ❑ NADDO ❑ DIM OFFER (Ticiwch os gwelwch yn dda)

Os ateboch 'Do', ymhle a gan bwy? ......................................................................................................

..............................................................................................................................................................

Beth a wnaethoch i wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd eto?

..............................................................................................................................................................

A yw'r safle/adeilad bellach yn ddiogel i'r grŵp ei ddefnyddio? ❑ YDY ❑ NAC YDY

A yw'r offer bellach yn ddiogel i'r grŵp ei ddefnyddio? ❑ YDY ❑ NAC YDY

Pwy arall ddylai wybod am hyn? ...........................................................................................................

Ydych chi wedi rhoi gwybod iddynt? ❑ DO ❑ NADDO

Os ateboch 'Do', pwy a pha bryd? .........................................................................................................

Llofnod y sawl a oedd yng ngofal y grŵp adeg y digwyddiad:

Llofnod: .......................................... Enw (print): .................................... Dyddiad: .............................

Y sawl a welodd y ffurflen hon: (Swyddogaeth, e.e. Gweinidog, Blaenor): ..............................................

Llofnod: .......................................... Enw (print): .................................... Dyddiad: .............................

*Tachwedd 2013 Yn seiliedig ar ffurflen CCPAS, gyda'u caniatâd*

## Ffurflen 10: Ffurflen asesiad risg

Eglwys / Capel ............................................................................................................

Gweithgaredd / Yr hyn i'w asesu – disgrifiad syml

Y risg sydd ynghlwm wrth y gweithgaredd

Risg Uchel, Cymedrol neu Isel

Risg i bwy? (Y cyhoedd, plant, oedolion bregus, aelodau staff ayb)

Y camau a ddefnyddir i reoli'r risg ar hyn o bryd

Y camau ychwanegol y mae angen eu gweithredu

Dyddiad yr Asesiad ............................................................................................................

Dyddiad Adolygu ............................................................................................................

Enw ................................................................ Llofnod ................................................................

*Cynghorwn eich bod yn adolygu Asesiad Risg pan fo angen hynny, neu o leiaf bob blwyddyn.*

## Ffurflen 11: Ffurflen nodi pryder

Adroddiad am: ........................................... (enw) ❑ Plentyn ❑ Oedolyn

Cyfeiriad presennol y plentyn/oedolyn bregus: ..............................................................................

Rhif cyswllt: ...................................................... Dyddiad Adrodd: ..............................................

A yw'r oedolyn bregus yn gwybod am yr adroddiad hwn? ❑ Nac ydy ❑ Ydy

A roddwyd caniatâd ichi rannu'r adroddiad hwn? ❑ Naddo ❑ Do

Yr hyn sy'n achosi'r adroddiad

Ble ddigwyddodd hyn?

Disgrifiwch y gamdriniaeth honedig / unrhyw anaf(iadau)

A wnaed rhywbeth i ddiogelu rhywun?

**Manylion yr unigolyn y tybir ei f/bod yn gyfrifol am y gamdriniaeth honedig**

Enw: ............................................................. Rhif cyswllt: ..................................................

Cyfeiriad: .........................................................................................................................

A yw'r unigolyn yn gwybod am yr adroddiad hwn? ❑ Nac ydy ❑ Ydy

**Tystion** (**os yn briodol**)

Enw: ............................................................. Rhif cyswllt: ..................................................

Cyfeiriad: .........................................................................................................................

**Y sawl sy'n llenwi'r ffurflen hon**

Enw: ............................................................. Rhif cyswllt: ..................................................

Cyfeiriad: .........................................................................................................................

Dyddiad ac amser cwblhau'r ffurflen: ..........................................................................................

Llofnod: .........................................................................................................................